



Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB10: Astudiaeth Byw yn Hwyrach mewn Bywyd

Hydref 2025



Housing LIN

Connecting people, ideas and resources

Astudiaeth O'r Ffactorau Sy'n Dylanwadu Ar Symud Yn Hwyrach Mewn Bywyd

Adroddiad Ar Gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Fersiwn: Terfynol

Hydref 2025

Lois Beech, Rheolwr Ymgynghoriaeth a Phartneriaethau

Ian Copeman, Cyfarwyddwr Busnes

Cicily Biju, Uwch Ddadansoddwr Data

Cynnwys

Cynnwys	1
Crynodeb Gweithredol	3
1. Cyflwyniad	7
2. Cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru	8
3. Adolygiad o'r dystiolaeth a'r arfer da	11
<i>Diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny</i>	11
<i>Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd?</i>	12
<i>Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd</i>	14
<i>Rhwystrau sy'n atal pobl rhag symud yn hwyrach mewn bywyd</i>	17
<i>Arfer da mewn perthynas â symud yn hwyrach mewn bywyd: sut mae landlordiaid cymdeithasol eraill wedi goresgyn rhwystrau i symud</i>	19
<i>Llety newydd ei adeiladu ar gyfer symud yn hwyrach mewn bywyd</i>	19
<i>Llety wedi'i adnewyddu ar gyfer symud yn hwyrach mewn bywyd</i>	24
<i>Marchnata a chefnogi pobl i symud</i>	25
Crynodeb o'r dystiolaeth a'r arfer da: goblygiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	28
4. Proffil demograffig ac amgylchiadau tai poblogaeth hŷn Bwrdeistref Sirol Caerffili	30
<i>Proffil demograffig pobl hŷn (50+)</i>	30
<i>Y cyflenwad presennol o lety ar gyfer pobl hŷn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili</i>	39
<i>Rhagor o fanylion a data demograffig y bobl sy'n byw yn y cyflenwad presennol o lety ar gyfer pobl hŷn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili</i>	41
<i>Tai anghenion cyffredinol a feddiannir gan breswylwyr 55+</i>	43
<i>Addasiadau i'r cartref ymhlith aelwydydd 55+</i>	44
Crynodeb o'r dystiolaeth ddemograffig a'r cyflenwad presennol: goblygiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	47
5. Ymchwil gynradd	49
Methodoleg yr ymchwil gynradd	49
Data demograffig cyfranogwyr yr ymchwil sydd â phrofiad bywyd	50
<i>Demograffeg ymatebwyr yr arolwg</i>	50
<i>Demograffeg cyfranogwyr yr ymchwil ansoddol</i>	56
<i>Prif ganfyddiadau'r ymchwil gynradd</i>	57
<i>Diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny</i>	57
<i>Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd</i>	64

<i>Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd.....</i>	<i>66</i>
<i>Rhwysrau sy'n atal pobl rhag symud yn hwyrach mewn bywyd a sut y gellir eu goresgyn.....</i>	<i>76</i>
Crynodeb o'r ymchwil gynradd: goblygiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.....	78
6. Casgliad: Argymhellion/Goblygiadau i Gynor Bwrdeistref Sirol Caerffili	80
<i>Cefnogi 'heneiddio yn eu lle' yng nghartrefi presennol pobl</i>	<i>80</i>
<i>Ystyriaethau ar gyfer adeiladau newydd</i>	<i>81</i>
<i>Ystyriaethau ynghylch tai presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</i>	<i>83</i>
<i>Ystyriaethau o ran y cynnig gwasanaeth.....</i>	<i>84</i>
Atodiad.....	86
Ynglŷn â'r Housing LIN	104

Crynodeb Gweithredol

Diben A Methodoleg

Mae'r ymchwiliad hon, a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) ac a gynhaliwyd gan y Housing Learning and Improvement Network (Housing LIN), yn archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau i symud yn hwyrach mewn bywyd ymhlith trigolion 50 oed a throsodd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.


Archwiliodd yr astudiaeth beth sydd bwysicaf i drigolion hŷn o ran eu cartrefi a'u cymunedau, pam a phryd y gallent ddewis symud, a sut y gall systemau tai a chymorth lleol ddiwallu eu hanghenion yn well.

Roedd y dull cymysg yn cynnwys:

- adolygiad o bolisi Llywodraeth Cymru ac arfer da cenedlaethol ar dai yn hwyrach mewn bywyd.
- dadansoddiad demograffig o boblogaeth hŷn y fwrdeistref a'r stoc dai bresennol ar gyfer pobl hŷn.
- ymchwiliad gynradd yn cynnwys tua 500 o ymatebion i'r arolwg a grwpiau ffocws/cyfweliadau gyda thua 100 o drigolion hŷn a gweithwyr proffesiynol.

Cyd-destun demograffig

Mae'r boblogaeth 50+ yn cynyddu, a rhagwelir cynnydd arbennig o sylweddol yn y grwpiau oedran 70+ (25%) ac 80+ (37%) erbyn 2040.



Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021, amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol 2018 ar gyfer Cymru

Mae tair rhan o bedair (75%) o aelwydydd hŷn yn berchen-feddiannwyr, er y gall cenedlaethau'r dyfodol fod yn fwy dibynnol ar rent preifat neu gymdeithasol.

Carfan oedran	Perchen-feddiannaeth	Rhent cymdeithasol	Rhent preifat	Cyfanswm
45-49	68%	17%	14%	100%
50+	75%	18%	7%	100%
60+	76%	18%	5%	100%
70+	78%	18%	4%	100%

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021 Noder: nid yw'r data ar aelwydydd lle mae'r deiliaid yn 80+ oed ar gael

Mae amddifadedd yn parhau i fod wedi'i ddosbarthu'n anghyfartal ledled y fwrdeistref, gyda chrynodiadau yng Ngogledd Cwm Rhymni a Basn Caerffili.

Mae cyfran sylweddol o drigolion hŷn yn byw ar eu pen eu hunain (tua 40% o aelwydydd 50+) ac mae llawer yn byw mewn cartrefi mwy, o faint addas i deuluoedd.

Cyfansoddiad yr aelwyd	1 ystafell wely	2 ystafell wely	3 ystafell wely	4+ ystafell wely	Cyfanswm	%
Aelwyd un person	2,557	5,186	8,400	1,001	17,144	37%
Mathau eraill o aelwydydd	21	181	971	503	1,676	4%
Aelwyd un teulu: pawb yn 66 oed a throsodd	200	1,656	4,514	1,051	7,421	16%
Aelwyd un teulu: aelwyd cwpl	206	2,312	9,920	3,589	16,027	35%
Aelwyd un teulu: aelwyd rhiant unigol	41	834	2,569	431	3,875	8%

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021

Mae anghydraddoldebau iechyd yn amlwg, gyda thrigolion ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn profi disgwyliad oes iach is na chyfartaledd Cymru.

Mae cyflenwad y fwrdeistref o dai ar gyfer pobl hŷn yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer tai ymddeol/cysgodol a thai gofal ychwanegol, er bod nifer y tai dynodedig yn ôl oedran yn gymharol uchel ond yn aml yn anaddas i safonau hygyrchedd modern.

Ardal	Math o dai	Unedau	Poblogaeth	Cyfradd
Bwrdeistref Sirol Caerffili	Tai ymddeol/cysgodol	1,147	37,295	31
	Tai dynodedig yn ôl oedran	2,389	37,295	64
	Tai gofal ychwanegol	77	17,822	4
Cymru	Tai ymddeol/cysgodol	23,989	698,560	34
	Tai dynodedig yn ôl oedran	6,074	698,560	9
	Tai gofal ychwanegol	2,891	344,396	8

Ffynhonnell: EAC (2019) a'r HLIN

Noder: mae 'cyfradd' yn dynodi'r gyfradd gyffredinol – nifer y cartrefi (unedau) fesul 1,000 o'r boblogaeth 65+ oed yn achos tai ymddeol/cysgodol a thai dynodedig yn ôl oedran, ac fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed yn achos tai gofal ychwanegol

Ymchwil Gynradd: Prif Ganfyddiadau

Diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny

Byddai'n well gan y rhan fwyaf o drigolion hŷn yn y fwrdeistref aros yn eu cartrefi presennol, gan eu bod yn gwerthfawrogi cyfarwydd-dra, cysylltiadau cymunedol ac annibyniaeth. Fodd bynnag, mynegodd tua hanner ymatebwyr yr arolwg rywfaint o ddiddordeb mewn symud yn hwyrach mewn bywyd pe bai tai addas, fforddiadwy a deniadol ar gael yn lleol. Y rhai rhwng 50 a 64 oed oedd fwyaf agored i symud, tra roedd grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o symud dim ond yn dilyn newid yn eu hiechyd neu eu hamgylchiadau bywyd.

Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd

Y prif gymhellion yw cartrefi llai, mwy hylaw, costau rhedeg is, parcio da, ac agosrwydd at amwynderau/gwasanaethau. I rai, mae cartrefi rhatach sy'n ynni-effeithlon yn gymhelliant, yn enwedig o ystyried pwysau costau byw. Roedd pobl yn fwy tebygol o symud pe baent yn gweld cartrefi newydd fel rhai "sy'n addas ar gyfer y dyfodol" neu'n gwella ffordd o fyw, yn hytrach nag fel ymateb i ddirywiad. Gall tai arbenigol fel tai ymddeol/cysgodol neu dai gofal ychwanegol fod yn ddeniadol cyn belled â'u bod yn fodern, yn fforddiadwy, ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gadarnhaol. Mae pobl yn dal eisiau

byw mewn cymunedau cymysg eu hoedran hyd yn oed os ydynt yn byw mewn llety dynodedig yn ôl oedran. Mae sgysiau cynnar a chadarnhaol, ynghyd ag opsiynau tai gweledol ac uchelgeisiol, yn annog pobl i wneud penderfyniadau rhagweithiol.

Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd

Rhoddodd ymatebwyr flaenoriaeth i annibyniaeth, cysur a diogelwch. Cartrefi dwy ystafell wely oedd fwyaf poblogaidd, gan gynnig lle i ymwelwyr, gofalwyr neu hobiau. Roedd byngalos a chartrefi hygrych ar y llawr gwaelod yn cael eu ffafrio, er bod fflatiau wedi'u dylunio'n dda hefyd yn dderbyniol. Roedd lleoliad yn hollbwysig; roedd bod yn agos at siopau, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau ieuchyd yn bwysicach na chynlluniau â chyfyngiad oedran neu gynlluniau 'ar gyfer pobl hŷn yn unig'. Roedd llawer hefyd yn gwerthfawrogi lle awyr agored a pholisïau sy'n gyfeillgar i anifeiliaid anwes.

Rhwysterau sy'n atal pobl rhag symud yn hwyrach mewn bywyd a sut y gellir eu goresgyn

Ymlyniad emosiynol wrth y cartref, ansicrwydd ariannol, a diffyg eiddo addas lleol oedd y prif rwysterau. Roedd llawer yn cysylltu 'downsizing' â cholled, ac roedd yr ymdrech o glirio annibendod neu lywio'r broses symud yn teimlo'n llethol. Roedd ymwybyddiaeth gyfyngedig o opsiynau tai a gwasanaethau cymorth yn rhwystro symud ymhellach. Er mwyn goresgyn y rhwysterau hyn, mae angen gwell gwybodaeth, cymorth ymarferol gyda symud, ac ail-lunio'r naratif er mwyn cyflwyno symud fel dewis cadarnhaol o ran ffordd o fyw.

Goblygiadau ac argymhellion

Yn seiliedig ar y dystiolaeth, mae'r adroddiad yn argymhell y dylai'r Cyngor:

1. Cefnogi heneiddio yn eu lle

- Cryfhau'r ddarpariaeth gwybodaeth a chynghor ynghylch y ffyrdd y gall pobl hŷn ar draws pob deiliadaeth addasu eu cartrefi presennol i'w gwneud yn fwy addas iddynt yn hwyrach mewn bywyd.
- Cryfhau gwybodaeth a chynghor ynghylch y ffyrdd y gall pobl hŷn gael mynediad at gymorth gofal cymdeithasol yn y cartref a thalu amdano os bydd angen hynny arnynt.
- Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol mewn cymunedau.
- Sicrhau bod seilwaith cymunedol yn 'gyfeillgar i oedran' ac yn cefnogi pobl hŷn i allu mynd allan a symud o gwmpas.

2. Amrywio a gwella dewisiadau tai

- Cynyddu'r ystod o opsiynau tai a deiliadaethau er mwyn denu amrywiaeth eang o bobl hŷn i symud i dai prif ffrwd a thai arbenigol yn hwyrach mewn bywyd.
- Annog datblygu cartrefi prif ffrwd hygrych drwy osod targedau clir ar gyfer cartrefi hygrych ac addasadwy mewn dogfennau cynllunio lleol.
- Ehangu'r ddarpariaeth o fersiwn gyfoes o dai 'cysgodol' sy'n efelychu'r dull a ddefnyddir i ddatblygu Tŷ Darran.
- Ehangu'r ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol ledled y fwrdeistref fel dewis amgen i 'ofal preswyl'. Gweithio gyda phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) sydd â hanes o ddarparu tai gofal ychwanegol o ansawdd da yng Nghymru i ddarparu tai gofal ychwanegol sy'n cynnig tai hygrych o ansawdd da.
- Dylid lleoli tai dynodedig ar gyfer pobl hŷn o fewn cymunedau presennol, nid ar safleoedd sy'n anodd eu datblygu at ddefnyddiau eraill; mewn rhai achosion, gallant ddarparu canolbwynt i'r gymuned leol.

- Er mwyn denu perchen-feddianwyr hŷn i symud, dylid darparu cartrefi newydd gydag o leiaf dwy ystafell wely. I bobl hŷn sy'n rhentu eu cartrefi oddi wrth landlord cymdeithasol, mae cartrefi un ystafell wely hefyd yn debygol o ddenu tenantiaid cymdeithasol i symud; er mwyn cyd-fynd ag arfer da, dylid ystyried cartrefi '1 ystafell wely a mwy'¹.
- Integreiddio egwyddorion dylunio HAPPI (Housing our Ageing Population: Panel for Innovation)² ar draws pob adeilad newydd ac adnewyddiad.

3. Adolygu a moderneiddio'r stoc dai bresennol ar gyfer pobl hŷn

- Ystyried yr ymchwil hon mewn perthynas ag adnewyddu tai cysgodol a thai dynodedig yn ôl oedran Caerffili Homes, gan sicrhau bod cynlluniau'n fwy deniadol, yn fwy fforddiadwy ac yn fwy uchelgeisiol i bobl hŷn. Annog LCC eraill i ystyried yr ymchwil hon.
- Wrth adnewyddu cynlluniau presennol, cymhwyso egwyddorion dylunio HAPPI lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Ail-frandio 'tai cysgodol', gan y gall y term atal darpar breswylwyr; defnyddio termau mwy cadarnhaol fel 'Byw'n Annibynnol' neu 'Tai Ymddeol'.
- Defnyddio'r ymchwil hon i lywio'r adolygiad o dai dynodedig yn ôl oedran, yn enwedig ar gyfer stoc sydd wedi dyddio neu nad yw bellach yn addas i'r diben.
- Cryfhau Cofrestr Tai Hygyrch y Cyngor er mwyn cynnal trosolwg clir o ba eiddo sydd â nodweddion hygrychedd.

4. Cryfhau cymorth ariannol ac ymarferol

- Cryfhau mynediad at gyngor annibynnol ar opsiynau tai a chymorth yn hwyrach mewn bywyd er mwyn cefnogi pobl wrth wneud penderfyniadau ynghylch symud i dai mwy addas.
- Archwilio ffyrdd o roi cymorth ariannol i bobl symud, er enghraifft gyda chostau symud.
- Ystyried sut i gefnogi pobl gyda'r agweddau ymarferol ar symud, megis clirio annibendod yn y cartref.

5. Hyrwyddo cymunedau rhyng-genedlaethol sy'n gyfeillgar i oedran

- Sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau da, yn agos at drafnidiaeth, gwasanaethau a chyfleoedd cymdeithasol.
- Annog cymunedau cymysg o ran deiliadaeth ac oedran er mwyn osgoi ynysigrwydd.

6. Ail-lunio'r naratif ynghylch symud yn hwyrach mewn bywyd

- Newid pwyslais negeseuon cyhoeddus oddi wrth symud i gartref llai, gan ganolbwyntio ar symud fel dewis sy'n gwella ffordd o fyw yn hytrach na'r dewis olaf mewn argyfwng.
- Defnyddio iaith gadarnhaol o ran oedran a llysgenhadon lleol i rannu straeon llwyddiant.

¹ Fflat un ystafell wely gyda rhaniadau hyblyg sy'n galluogi gwahanol drefniadau cynllun yn ôl anghenion y preswylwyr. Er enghraifft, gellir agor y 'gofod stydi' addasadwy fel rhan o'r lolfa, neu ei dynnu'n gyfan gwbl i greu ystafell wely fwy.

² <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/HAPPI/>

1. Cyflwyniad

- 1.01 Adroddiad ymchwil gan y Housing LIN (Learning and Improvement Network) yw hwn, a luniwyd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn seiliedig ar astudiaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar symud yn hwyrach mewn bywyd ymhlith trigolion y fwrdeistref.
- 1.02 Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar bobl dros 50 oed ledled y fwrdeistref er mwyn deall beth sy'n bwysig i drigolion hŷn presennol a'r dyfodol o ran y cartrefi a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, a sut y mae'r boblogaeth hon yn debygol o newid.
- 1.03 Nod yr astudiaeth yw rhoi gwell dealltwriaeth o anghenion tai pobl hŷn a llywio'r gwaith o lunio'r ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd (2RLDP), a fydd yn nodi cyd-destun polisi cynllunio datblygiadau'r dyfodol hyd at 2035.
- 1.04 Nod yr astudiaeth oedd deall sut i gefnogi pobl dros 50 oed i symud i gartref mwy addas. Disgrifir 'rightsizing' fel dewis bwriadol a chadarnhaol gan berson hŷn i symud cartref er mwyn gwella ansawdd ei fywyd. Fodd bynnag, dangosodd yr ymchwil fod 'rightsizing' yn derm proffesiynol nad yw'n cael ei ddeall yn eang gan y cyhoedd, ac felly defnyddiwyd y term 'symud' yn ei le, neu'n gyfnewidiol ag ef, drwy gydol yr adroddiad hwn.
- 1.05 Archwiliodd yr astudiaeth y themâu canlynol:
 - Diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny
 - Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl i symud
 - Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd
 - Rhwystrau sy'n atal pobl rhag symud a sut y gellir eu goresgyn
- 1.06 Roedd yr astudiaeth yn cynnwys dull ymchwil cymysg, a oedd yn cynnwys:
 - adolygiad o bolisi Llywodraeth Cymru
 - adolygiad o'r dystiolaeth genedlaethol bresennol ynghylch dewisiadau pobl hŷn o ran tai a chymorth
 - adolygiad o enghreifftiau o arfer da ym maes tai ar gyfer pobl hŷn
 - ymchwil gynradd gyda phobl yn hwyrach mewn bywyd ledled y fwrdeistref:
 - arolwg ar-lein ac ar bapur a gafodd 500 o ymatebion
 - grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda phobl â phrofiad bywyd a rhanddeiliaid proffesiynol
- 1.07 Ar sail y dystiolaeth o'r dadansoddiad demograffig, yr adolygiad o'r dystiolaeth a'r ymchwil gynradd, mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion/goblygiadau i'r Cyngor mewn perthynas â diwallu anghenion a dewisiadau tai pobl hŷn yn y fwrdeistref a chefnogi pobl i symud yn hwyrach mewn bywyd.

2. Cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru

- 2.01 Mae ystod o bolisiâu a strategaethau yng Nghymru sy'n dangos sut y gellir defnyddio'r ymchwil hon i sicrhau bod tai addas ac uchelgeisiol ar gael sy'n hyrwyddo byw'n annibynnol i bobl hŷn yng Nghymru.

Tai Gwell I Bobl Cymru: Strategaeth Dai Genedlaethol I Gymru (2010)³

- 2.02 Er ei bod bellach dros 10 oed, mae'r strategaeth hon yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru y dylai pawb yng Nghymru gael mynediad at dai hygrych, fforddiadwy ac o ansawdd da, yn ogystal â chael dewis ynghylch sut a ble y maent yn byw. Mae'r strategaeth yn pwysleisio nad yw tai yn ymwneud â lloches yn unig, ond eu bod yn sylfaenol i iechyd, llesiant a chynhwysiant cymdeithasol.
- 2.03 Mae'n cynnwys polisiâu sy'n targedu'n benodol anghenion pobl hŷn a phobl anabl, megis hyrwyddo cartrefi oes, asesu addasiadau yn gyflymach, ac alinio'r ddarpariaeth dai â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae'r ddogfen yn annog awdurdodau lleol i fabwysiadu cynllunio tai strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i feithrin partneriaethau cryf rhwng cyrff tai, gofal cymdeithasol ac iechyd (er enghraifft, drwy "Gytundebau Tai Cymunedol"), ac i drin tai fel elfen graidd o adfywio cymunedol, lleihau anghydraddoldeb, a sicrhau canlyniadau gwell ar draws sectorau.
- 2.04 O ran byw yn hwyrach mewn bywyd, mae'r strategaeth hon yn rhoi sail polisi i ddefnyddio ymyriadau tai (addasiadau, dylunio hygrych, tai â chymorth) fel mesurau ataliol a all leihau neu ohirio'r angen am ofal ffurfiol. Drwy ymgorffori ansawdd tai, hygrychedd ac integreiddio traws-sector yn y fframwaith tai cenedlaethol, mae Tai Gwell yn atgyfnerthu'r ffaith bod yn rhaid i dai a gofal cymdeithasol weithio law yn llaw er mwyn cefnogi annibyniaeth, lleihau'r galw ar wasanaethau, a gwella ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁴

- 2.05 Mae'r Ddeddf hon yn darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer sut y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau, gan ei gwneud yn uniongyrchol berthnasol i fyw yn hwyrach mewn bywyd ac i'r berthynas rhwng tai a gofal cymdeithasol.
- 2.06 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar sefydliadau megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio tuag at saith nod llesiant cenedlaethol, gan gynnwys creu Cymru iachach, fwy cyfartal, gyda chymunedau cydlynus. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu dulliau hirdymor, ataliol ac integredig.
- 2.07 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cydnabod bod tai yn un o brif benderfynyddion iechyd a llesiant, a sicrhau bod polisi tai a darpariaeth gofal cymdeithasol yn cael eu datblygu ochr yn ochr. Mae cartrefi hygrych ac addasadwy yn lleihau'r galw am ofal preswyl a gwasanaethau ysbyty, tra bod modelau integredig fel tai gofal ychwanegol yn dangos sut y gall y ddau sector gydweithio i gefnogi annibyniaeth. Drwy ymgorffori atal a chydweithio yn y gyfraith, mae'r Ddeddf yn gosod tai addas a gofal ymatebol nid fel materion ar wahân, ond fel buddsoddiadau

³ https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Wales/Better_Homes_Wales.pdf

⁴ <https://www.gov.wales/well-being-of-future-generations-wales>

hanfodol a chydgyssylltiedig yn narpariaeth gynaliadwy gwasanaethau ac yn ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru.

Ffyniant I Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017) Llywodraeth Cymru⁵

- 2.08 Mae'r strategaeth genedlaethol sy'n manylu ar flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod 'tai da yn chwarae rhan hollbwysig mewn heneiddio iach ac annibynnol'.
- 2.09 Mewn perthynas â phobl hŷn, mae'n nodi y bydd Cymru yn adeiladu mwy o ddatblygiadau tai wedi'u cynllunio'n benodol a fydd yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol mewn amgylchedd diogel a chysgodol, wedi'i leoli'n agos at drafnidiaeth gyhoeddus hawdd ei defnyddio.

Cymru O Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth Ar Gyfer Cymdeithas Sy'n Heneiddio (2021)⁶

- 2.10 Dyma'r brif strategaeth lefel uchel ar gyfer ymateb Cymru i heneiddio demograffig. Mae'n gosod gweledigaeth o 'Gymru o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi pobl i fyw ac heneiddio'n dda'.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Strategaeth Y Comisiynydd 2025–28⁷

- 2.11 Mae blaenoriaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn canolbwyntio ar nodi cyfleoedd i wella'r cymorth sydd ar gael er mwyn sicrhau y gall pobl hŷn fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- 2.12 Nod y strategaeth hon yw galluogi pobl hŷn i fyw ac aros yn iach yn eu cymunedau drwy sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn llywio polisi Llywodraeth Cymru ar ofal iechyd ataliol ac yn cael eu hadlewyrchu wrth ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

Pobl Hŷn A Phobl Sy'n Byw Gyda Eiddilwch: Datganiad Ansawdd Integredig (2024)⁸

- 2.13 Mae hwn yn nodi sut olwg sydd ar ddarpariaeth "dda" ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i bobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n byw gydag eiddilwch. Mae'n pwysleisio helpu pobl i aros yn annibynnol, yn gysylltiedig â'u cymuned, i gael dewis, ac i allu byw eu blynyddoedd olaf yn y lle o'u dewis.

Canllawiau Ymarfer Y Grant Cymorth Tai (HSG)⁹

- 2.14 Y Rhaglen Grant Cymorth Tai (HSG) yw'r fframwaith polisi a chyllido ar gyfer darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl agored i niwed mewn gwahanol fathau o lety ac ar draws pob deiliadaeth.
- 2.15 Mae'r HSG yn gyfuniad o dair grant bresennol: y Grant Rhaglen Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a'r Grant Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.
- 2.16 Mae'r rhaglen yn cyfrannu at gyflawni nodau 'Gwella Bywydau A Chymunedau - Cartrefi Yng Nghymru', y Strategaeth Dai Genedlaethol a'r Cynllun Digartrefedd deng mlynedd, gyda phwyslais cryf ar atal digartrefedd. Mae hefyd yn hanfodol wrth gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
- 2.17 Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr HSG, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol lunio Cynllun Cyflawni Lleol tair blynedd ar gyfer 2022-2025. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol

⁵ <https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Prosperity-for-all.pdf>

⁶ <https://www.gov.wales/age-friendly-wales-our-strategy-ageing-society-html>

⁷ <https://olderpeople.wales/commissioners-strategy-2025-28/>

⁸ <https://www.gov.wales/older-people-and-people-living-frailty-integrated-quality-statement-html>

⁹ <https://www.gov.wales/housing-support-grant-practice-guidance>

adolygu'r cynllun cyflawni yn flynyddol a diweddarau'r blaenoriaethau a'r cynllun gwariant cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3. Adolygiad o'r dystiolaeth a'r arfer da

- 3.01 Mae'r adran hon yn darparu adolygiad o dystiolaeth genedlaethol ac enghreifftiau o arfer da sy'n berthnasol i ddeall diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd, a'r ffactorau sy'n gallu annog, dylanwadu ar neu rwystro hynny.

Diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny

- 3.02 Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth genedlaethol yn dangos mai ychydig iawn o bobl sy'n symud cartref yn hwyrach mewn bywyd. Yn ôl adroddiad 2018 Rightsizing: Reframing the housing offer for older people¹⁰, dim ond 3.4% o bobl hŷn (50+) sy'n symud cartref bob blwyddyn yn y DU. Mae hynny'n hanner nifer y symudiadau o'i gymharu â gweddill y boblogaeth.
- 3.03 Mae'r dystiolaeth hon ynghylch y nifer gyfyngedig o bobl hŷn sy'n symud cartref yn hwyrach mewn bywyd yn cael ei hategu gan ymchwil a gynhaliwyd gan y Housing LIN ac Ipsos¹¹ yn 2023 gyda thua 6,000 o bobl hŷn (50+) yn y DU. Dangosodd yr ymchwil hon fod y tebygolrwydd o symud yn isel, gyda naw o bob deg yn dweud eu bod yn annhebygol neu'n sicr o beidio â symud yn y 12 mis nesaf (90%), ymheng 1 i 2 flynedd (87%), neu ymheng 3 i 5 mlynedd (74%). Mae bwriad i symud yn cynyddu dros y tymor hwy, gyda thri o bob deg (30%) yn dweud eu bod yn sicr neu'n debygol o symud o fewn y 6 i 10 mlynedd nesaf, er bod mwy na hanner (58%) yn dweud y byddent yn annhebygol neu'n sicr o beidio â symud o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r data'n dangos bod y rhan fwyaf o bobl hŷn yn credu eu bod yn annhebygol o symud o'u cartref presennol yn ystod y 12–24 mis nesaf; fodd bynnag, mae'r tebygolrwydd o symud yn cynyddu dros amser.
- 3.04 Dangosodd yr adolygiad dystiolaeth y byddai cyfran sylweddol o bobl hŷn yn hoffi parhau i fwy yn eu cartrefi presennol yn hwyrach mewn bywyd. Nododd ymchwil y Housing LIN/Ipsos¹² fod bron i hanner (47%) o bobl hŷn (50+) yn dweud y byddent yn ffafrio aros yn eu cartref presennol. Yn yr un modd, tynnodd adroddiad gan Age Friendly Ireland¹³ ar rightsizing sylw at y ffaith y byddai'r mwyafrif o bobl yn ffafrio heneiddio yn eu lle, gyda'u cartrefi presennol wedi'u haddasu yn ôl yr angen.
- 3.05 Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan y Ministry of Housing, Communities and Local Government (MHCLG)¹⁴ yn 2024 hefyd yn dangos bod ffafriaeth ymhlith pobl hŷn dros aros yn eu cartref presennol, gyda dymuniad cryf i 'aros yn eu lle' a 'heneiddio yn eu lle'. Fodd bynnag, mae hyn i

¹⁰ Hammond, M., White, S., Walsh, S. (2018). *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*. Ar gael yn: <https://ageing-better.org.uk/sites/default/files/2019-02/rightsizing-manchester-school-architects.pdf>

¹¹ Housing LIN and Ipsos (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf

¹² Yr un ffynhonnell.

¹³ Age Friendly Ireland (2021). *A Study on the Awareness, Perceptions and Experiences of Older People of Rightsizing*. Ar gael yn: <https://agefriendlyireland.ie/wp-content/uploads/2021/06/AFI-Right-Sizing-Research-Report.pdf>

¹⁴ MHCLG (2024). *What older people want research report*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf

raddau yn dibynnu ar ba un a yw'r cartref presennol yn diwallu eu blaenoriaethau tai (er enghraifft, annibyniaeth a diogelwch).

- 3.06 Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng cefnogi pobl i barhau i fyw lle maent, a chynnig amrywiaeth o ddewisiadau tai fel llety amgen pan fyddant yn dymuno symud. Yn wir, mae adroddiad gan y Grŵp Arbenigol ar Dai Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru¹⁵ yn nodi, er ei bod yn bwysig sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i 'aros yn eu lle', bod achos cryf hefyd dros sicrhau bod ganddynt y dewis i 'symud ymlaen' i dai mwy addas os dymunant.
- 3.07 Clywodd y Grŵp Arbenigol dystiolaeth sy'n awgrymu bod pobl 50+ oed yng Nghymru â diddordeb mewn symud i lety mwy addas¹⁶. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ymchwil y Housing LIN/Ipsos, sy'n dangos y byddai bron i 50% o bobl hŷn yn ffafrio symud, ac ymhlith y rheini, y byddai cyfran sylweddol yn ffafrio symud i lety a gafodd ei gynllunio i fod yn hygyrch i bobl hŷn o'r cychwyn cyntaf, neu i gartref confensiynol arall gydag addasiadau.
- 3.08 Yn ddiddorol, dim ond lleiafrif o'r bobl yn arolwg y Housing LIN/Ipsos a ddywedodd y byddent yn ffafrio symud i dai 'arbenigol' megis tai cysgodol/tai ymddeol (10%) neu dai gofal ychwanegol (4%). Mae'r canfyddiad hwn yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth yn adroddiad *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*¹⁷, sy'n dangos mai dim ond lleiafrif bach o'r symudiadau a wneir gan bobl hŷn sy'n mynd i lety arbenigol, hyd yn oed ymhlith y garfan 70+ oed. Er y gall hyn gael ei ysgogi'n rhannol gan ddiffyg llety arbenigol, mae ymchwil ansoddol y Housing LIN gyda thua 3,000 o bobl hŷn ledled y DU dros y pum mlynedd diwethaf yn tueddu i ddangos ffafriaeth dros symud i fathau eraill o dai prif ffrwd sy'n addas ar gyfer heneiddio.

Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd?

- 3.09 Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth genedlaethol yn dangos bod y cymhellion dros symud ymhlith pobl hŷn yn amrywiol ac yn amlweddol. Er bod llawer o oedolion hŷn yn mynegi dymuniad i aros yn eu cartrefi presennol, mae nifer o ffactorau allweddol wedi'u nodi sy'n gallu dylanwadu ar neu annog penderfyniadau i symud.
- 3.10 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai'r bobl sydd fwyaf abl i wneud dewisiadau cadarnhaol a rhagweithiol ynghylch symud cartref fel arfer yw'r rhai iau, iachach a mwy cefnog. Mae hyn yn golygu bod cyfran fawr o bobl hŷn, am lawer o resymau, yn methu â gwneud y math hwn o ddewis rhagweithiol, ac yn symud cartref dim ond pan fyddant wedi cyrraedd pen argyfwng – er enghraifft oherwydd ieched yn gwaethygu, cael eu troi allan, neu ysgariad.¹⁸
- 3.11 Yn benodol, mae cyfran sylweddol o bobl hŷn yn symud i dai arbenigol o ganlyniad i symud dan orfod neu argyfwng, yn hytrach nag fel dewis gweithredol o ran ffordd o fyw. Nododd astudiaeth King et al. (2021) fod llawer o bobl yn dechrau ystyried opsiynau tai arbenigol ar bwynt o

¹⁵ Welsh Gov (2013). *Our Housing AGenda: meeting the housing aspirations of older people*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Our-Housing-AGenda-Meeting-the-aspirations-of-older-people-in-Wales/>

¹⁶ Yr un ffynhonnell.

¹⁷ Hammond, M., White, S., Walsh, S. (2018). *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*. Ar gael yn: <https://ageing-better.org.uk/sites/default/files/2019-02/rightsizing-manchester-school-architects.pdf>

¹⁸ Yr un ffynhonnell.

argyfwng, a gall hyn arwain at benderfyniadau brysiog neu at ddibynnu ar gymorth aelodau o'r teulu i lywio'r broses¹⁹.

- 3.12 Mae adroddiad yr Grŵp Arbenigol ar Dai Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru²⁰ yn ystyried y gallai creu hinsawdd lle mae symud yn hwyrach mewn bywyd yn dod yn ddewis realistig a chadarnhaol ddod â nifer o fanteision, nid yn unig i bobl hŷn eu hunain ond hefyd drwy ryddhau eiddo mwy, o faint addas i deuluoedd, a lleihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus. Mae hinsawdd o'r fath yn dibynnu i raddau helaeth ar sicrhau bod tai mwy deniadol ar gael yn lleol, sy'n fwy addas i ddyheadau a diddordebau pobl hŷn, ac felly'n annog pobl i symud.
- 3.13 Yn ôl y dystiolaeth, mewn rhai achosion gall awydd i symud i eiddo llai annog neu ddylanwadu ar symud. Nododd arolwgy Housing LIN/Ipsos²¹ fod 40% o ymatebwyr yn dweud y byddai symud i gartref llai yn ffactor dylanwadol pe baent yn symud. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos ei bod yn bwysig cydnabod nad yw symud i dai addas o reidrwydd yn golygu symud i dai llai. Un o brif ganfyddiadau adroddiad *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*²² yw nad yw'r mwyafrif o bobl hŷn sy'n symud ar draws pob deiliadaeth yn mynd i le llai, ac ymhlith y rhai sy'n symud, mai dim ond un ystafell yn llai sydd gan y mwyafrif yn eu heiddo newydd. Dangosodd astudiaeth Gwent fod rhesymau da pam mae pobl hŷn yn rhoi blaenoriaeth i le ac i ystafelloedd gwely sbâr. Mae hyn yn cynnwys cael lle i deulu a ffrindiau aros, ar gyfer cymorth sy'n ymweld, ac ar gyfer storio offer iechyd a meddygol.²³
- 3.14 Mae ymchwil y Housing LIN gyda thua 3,000 o bobl hŷn ledled y DU dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos mai ffactor arall sy'n dylanwadu ar symud yw'r galli i leihau faint o waith glanhau a chynnal a chadw sydd ei angen yn y cartref neu'r ardd. Mewn rhai achosion, mae hyn yn ymwneud â symud i gartref llai, ond gall hefyd olygu symud i eiddo mwy newydd sydd angen llai o waith cynnal a chadw. I rai, mae hyn yn rheswm deniadol dros symud i dai ymddeol/cysgodol neu dai gofal ychwanegol, gan mai'r landlord sy'n tueddu i ofalu am hyn.
- 3.15 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall ystod o gymhellion annog mwy o bobl hŷn i symud i dai mwy addas yn hwyrach mewn bywyd. Mae adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Dai Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru yn nodi: 'os ydym am i bobl hŷn, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru, gael dewis gwell o dai, yna bydd angen mwy o dai fforddiadwy arnom, cymhellion

¹⁹ King et al. (2021). *What older people want*. Ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf

²⁰ Welsh Gov (2017). *Our Housing AGenda: meeting the housing aspirations of older people*. Ar gael yn:

https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/170213-expert-group-final-report-eng.pdf

²¹ Housing LIN and Ipsos (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn:

https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf

²² Hammond, M., White, S., Walsh, S. (2018). *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*. Ar gael yn:

<https://ageing-better.org.uk/sites/default/files/2019-02/rightsizing-manchester-school-architects.pdf>

²³ Davies (2014). *What older people want*. Ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf

ariannol a fydd yn mynd i'r afael â bylchau hyfywedd mewn rhai rhannau o Gymru yn ogystal â gwybodaeth a chynghor ariannol annibynnol'.²⁴

- 3.16 Mae adroddiad y Grŵp Arbenigol yn rhoi enghreifftiau o gymhellion ariannol penodol a allai annog pobl i symud, megis cynnig rhyddhad treth. Er enghraifft, rhyddhad/eithriad rhag Treth Trafodiadau Tir y Dreth Stamp neu wyliau treth gyngor ar gyfer “prynwyr tro olaf”, yn ogystal â chynllun Cymorth i Aros - Cymru. Byddai hyn yn darparu gwybodaeth ariannol gynhwysfawr, gan gynnwys gwybodaeth am opsiynau dibynadwy ar gyfer rhyddhau ecwiti, fel y gallai pobl ariannu eu hymddeoliad yn haws, symud i gartref mwy addas, neu addasu eu cartref wrth i'w hanghenion newid.
- 3.17 Mae astudiaeth beilot a gwblhawyd yn ddiweddar yng Ngogledd Cymru, ac a ariannwyd gan yr Intermediate Care Fund, hefyd wedi dangos y gall darparu gwasanaethau pwrpasol i gefnogi pobl drwy'r broses o benderfynu a ddylent symud hwyluso adleoli i lety sy'n addas i'w dewisiadau.²⁵
- 3.18 Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod ffactorau ariannol yn dylanwadu ar benderfyniad person hŷn i symud. Er enghraifft, canfu arolwg y Housing LIN/Ipsos²⁶ y byddai 20% o ymatebwyr yn cael eu hannog i symud cartref pe bai hynny'n golygu y gallent symud i gartref rhatach, ac mae ymchwil ansoddol arall gan y Housing LIN ledled y DU wedi tynnu sylw at y ffaith y gall lleihau costau ynni/costau rhedeg annog pobl i ystyried symud. Canfu astudiaeth arall fod rhai pobl hŷn yn hoff o'r syniad o symud i gartref llai er mwyn rhyddhau ecwiti o'u cartref presennol.²⁷

Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd

- 3.19 Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth yn tynnu sylw at ystod eang o ddewisiadau a blaenoriaethau ymhlith pobl hŷn wrth ystyried cartref newydd. Fodd bynnag, blaenoriaeth gyson a chyffredinol, fel y nodir yn adroddiad Tasglu Tai Pobl Hŷn²⁸, yw'r awydd am dai sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol mewn cartrefi diogel a sicr.
- 3.20 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y mwyafrif o bobl hŷn yn chwilio am gartref â dwy ystafell wely. Yn astudiaeth Gwent ar symud i gartref mwy addas, yr elfen fwyaf dymunol o ran llety i

²⁴ Welsh Gov (2017). *Our Housing AGenda: meeting the housing aspirations of older people*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/170213-expert-group-final-report-eng.pdf

²⁵ Hillcoat-Nallétamby, S. & Sardani, A. (2015). *Qualitative Evaluation Report. The Moving On Service*. Adroddiad a gomisiynwyd gan Canllaw, Porthmadog, gyda chyllid gan yr Intermediate Care Fund. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/170213-expert-group-final-report-eng.pdf

²⁶ Housing LIN and Ipsos (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf

²⁷ Price et al. (2014). *What older people want research report*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf

²⁸ Older People's Housing Taskforce (2024). *Our Future Homes: Housing that promotes wellbeing and community for an ageing population*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/the-older-peoples-housing-taskforce-report/our-future-homes-housing-that-promotes-wellbeing-and-community-for-an-ageing-population>

bobl hŷn yn hwyrach mewn bywyd a grybwyllwyd amlaf oedd ail ystafell wely.²⁹ Mae hyn yn cael ei gefnogi gan arolwg y Housing LIN/Ipsos, a ganfu y byddai 53% o ymatebwyr yn ffafrio dwy ystafell wely, gyda 31% yn ffafrio tair ystafell wely. Roedd rhywfaint o amrywiad rhwng y grwpiau demograffig; roedd y rhai yn y grŵp oedran ieuengaf (50–64) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddisgwyl byw mewn eiddo mwy, tra roedd y rhai 75+ oed yn fwy tebygol o ddisgwyl byw mewn eiddo llai, gydag un neu ddwy ystafell wely. Yn yr un modd, roedd rhentwyr cymdeithasol a phreifat yn fwy tebygol o ffafrio eiddo un ystafell wely.

- 3.21 Yn yr adran uchod ar 'Diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny', mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw byw mewn tai dynodedig yn ôl oedran yn ddewis ffafriol i'r mwyafrif o bobl hŷn. Byddai'n well gan bobl hŷn naill ai aros yn eu lle neu symud i gartref confensiynol arall sy'n fwy addas i'w hanghenion. Canfu arolwg y Housing LIN/Ipsos³⁰ y byddai 29% o ymatebwyr yn ffafrio byw gyda phreswylwyr eraill mewn cymuned lle mae pawb o oedran tebyg, tra byddai 53% yn ffafrio byw mewn cymuned gymysg o ran oedran. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan astudiaeth Gwent ar symud i gartref mwy addas, a ganfu nad yw llawer o bobl hŷn am fyw mewn 'ghettos pobl hŷn', ond y byddent yn hytrach yn ffafrio byw mewn cymunedau cymysg.³¹
- 3.22 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai pobl y gallai symud i dai arbenigol fod yn ddewis ffafriol iddynt. Wrth ystyried blaenoriaethau a dewisiadau ar gyfer cartref arbenigol, megis tai ymddeol/cysgodol neu dai gofal ychwanegol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod pobl hŷn yn ystyried rheolwr cynllun yn elfen hanfodol. Dywedodd llawer o'r bobl yn astudiaeth Gwent ar symud i gartref mwy addas y byddent yn hoffi cael warden yn gysylltiedig â'r cynllun pe baent yn byw mewn un. Caiff y farn hon ei chryfhau gan adroddiad ymchwiliad yr APPG ar Dai a Gofal i Bobl Hŷn ar adfywio tai cysgodol, sy'n argymhell y *'dylai model gwasanaeth mewn tai cysgodol ddarparu ar gyfer ystod amrywiol o bobl hŷn a chael ei lunio'n ofalus i gydbwyso manteision staff nad ydynt yn breswylwyr â phresenoldeb ar y safle ynghyd ag integreiddio technoleg i wella cyswllt a phrofiad preswylwyr a chefnogi rhyngweithio cymdeithasol.'*³²
- 3.23 Yn wir, mae ymchwil ansoddol y Housing LIN gyda thua 3,000 o bobl hŷn dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos y gallai mwy o bobl hŷn fod â diddordeb mewn symud i dai arbenigol ac yn fodlon gwneud hynny, ar yr amod eu bod yn cael eu hystyried yn ddewis o ran 'ffordd o fyw' yn hytrach nag yn ddewis sy'n cael ei yrru gan 'gymorth neu ofal'; mae pobl yn chwilio am lety o ansawdd da sy'n eu galluogi i fyw'n annibynnol ond nad yw'n gwneud iddynt deimlo'n 'hen'.

²⁹ Public Health Wales and Gwent Regional Partnership Board (2019). The APPROPRIATE and RIGHTSIZING study. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/The-Appropriate-and-Rightsize-Study-Technical.pdf

³⁰ Housing LIN and Ipsos (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf

³¹ Public Health Wales and Gwent Regional Partnership Board (2019). *The APPROPRIATE and RIGHTSIZING study*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/The-Appropriate-and-Rightsize-Study-Technical.pdf

³² APPG Housing and Care for Older People (2024). *Regeneration of Outdated Sheltered Housing*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Housing/HousingforOlderPeople/ShelteredHousing/appg-inquiry-sheltered-housing-regen/>

- 3.24 Amlygir hygyrchedd cartref fel blaenoriaeth i bobl hŷn o ran tai, mewn tai arbenigol a thai confensiynol fel ei gilydd. Canfu arolwg y Housing LIN/Ipsos³³ fod pobl hŷn (50+) yn ystyried ei bod yn bwysig addasu cartrefi presennol i'w gwneud yn fwy hygyrch ac yn fwy cyfeillgar i oedran, yn ogystal â darparu cartrefi confensiynol newydd hygyrch. Mae adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Dai Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru³⁴ wedi ymrwymo i ddylunio prosiectau yn unol â Safonau Cartrefi Oes³⁵ ac egwyddorion HAPPI³⁶ er mwyn adlewyrchu dewisiadau poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru.
- 3.25 Wrth ystyried lleoliad eu dewisiadau tai, mae pobl hŷn yn aml yn cyfeirio at y manteision cymdeithasol sy'n deillio o ymdeimlad o gymuned a pherthyn, mynediad at rwydweithiau cymdeithasol, a bod yn agos at deulu a ffrindiau. Mae agosrwydd at amwynderau, yn enwedig siopau lleol a gwasanaethau iechyd, ynghyd â llwybrau trafnidiaeth hygyrch, hefyd yn flaenoriaeth bwysig er mwyn diwallu anghenion diwylliannol, crefyddol ac ymarferol.³⁷
- 3.26 Roedd y rhan fwyaf o bobl hŷn yn astudiaeth Gwent³⁸ ar symud i gartref mwy addas am gael rhyw fath o le awyr agored, ond nid oedd pob un ohonynt am fod yn gyfrifol am ardd: roedd rhai yn fodlon ar fan eistedd cymunedol awyr agored neu falconi pe baent yn byw mewn fflat.
- 3.27 Blaenoriaeth arall i bobl hŷn mewn perthynas â'u cartref yw gallu cadw anifeiliaid anwes. Tynnodd astudiaeth Gwent³⁹ ar symud i gartref mwy addas sylw at y ffaith bod anifeiliaid yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol at ein llesiant ac ansawdd ein bywyd. Canfu'r astudiaeth hon y gall methu â mynd ag anifeiliaid anwes i dai cysgodol fod yn rhwystr i bobl symud i mewn.
- 3.28 O edrych ar y dystiolaeth, mae byngalos yn tueddu i fod y math o dai a ffeirir gan bobl hŷn. Canfu astudiaeth Aitken et al., 2022 fod pobl hŷn yn ffafrio byngalos yn hytrach na thai, a thai yn hytrach na fflatiau.⁴⁰ Mae hyn yn cael ei gefnogi gan arolwg y Housing LIN/Ipsos, a ganfu y byddai 41% o bobl yn disgwyl symud i fyngalo yn hwyrach mewn bywyd.⁴¹ Fodd bynnag, dangosodd astudiaeth Gwent ar symud i gartref mwy addas, er mai byngalos yw'r dewis cyffredinol yn aml,

³³ Housing LIN and Ipsos (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn:

https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf

³⁴ Welsh Gov (2013). *Our Housing AGenda: meeting the housing aspirations of older people*. Ar gael yn:

<https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Our-Housing-AGenda-Meeting-the-aspirations-of-older-people-in-Wales/>

³⁵ *Lifetime Home Standards*. Ar gael yn: <https://cae.org.uk/our-services/housing-services/lifetime-homes/>

³⁶ Housing LIN. HAPPI principles. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/HAPPI/>

³⁷ MHCLG (2024). *What older people want research report*. Ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf

³⁸ MHCLG (2024). *What older people want research report*. Ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf

³⁹ Yr un ffynhonnell.

⁴⁰ Aitken et al. (2022). *What older people want research report*. Ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf

⁴¹ Housing LIN and Ipsos (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn:

https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf

y gallai fflat fodloni gofynion pobl am gartref hygyrch yn aml, ond bod angen iddo fod yn ddigon deniadol ac uchelgeisiol i annog pobl i symud.⁴²

- 3.29 Mae'r dystiolaeth ynghylch y math o ddeiliadaeth y byddai pobl yn ei ffafrio ar gyfer cartref newydd yn dangos nad yw pobl fel arfer yn disgwyl newid deiliadaeth pe baent yn symud cartref.⁴³ Fodd bynnag, mewn perthynas â thai arbenigol, mae adroddiad Tasglu Tai Pobl Hŷn 2024⁴⁴ yn awgrymu y gallai ystod ehangach o opsiynau deiliadaeth ar gyfer tai pobl hŷn wella hyblygrwydd a fforddiadwyedd i ddefnyddwyr.

Rhwystrau sy'n atal pobl rhag symud yn hwyrach mewn bywyd

- 3.30 Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth yn dangos bod amrywiaeth o rwystrau trawsbynciol sy'n atal pobl rhag symud yn hwyrach mewn bywyd.
- 3.31 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod nifer o rwystrau emosiynol i symud yn hwyrach mewn bywyd. Dangosodd astudiaeth Gwent⁴⁵ ar symud i gartref mwy addas fod pobl yn emosiynol ynghlwm wrth eu cartref. Tynnodd sylw at y ffaith nad yw pobl yn unig ynghlwm yn emosiynol wrth eu tŷ, ond hefyd wrth eu heiddo personol a'r ardal/cymuned leol lle maent yn byw. O ganlyniad, gall y cynnwrf sy'n gysylltiedig â symud fod yn rhwystr i lawer o bobl. Yn wir, tynnodd ymchwil y Housing LIN/Ipsos⁴⁶ sylw at y ffaith bod y mwyafrif helaeth o bobl hŷn wedi bod yn byw yn eu cartrefi presennol ers dros 20 mlynedd, a dywedodd 26% fod cysylltiadau personol â'u cartref presennol yn rhwystr i symud.
- 3.32 Nododd adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Dai Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru⁴⁷ mai rhwystr arall yw diffyg ymwybyddiaeth o'r opsiynau tai sydd ar gael, ynghyd â phrinder eiddo addas yn yr ardal leol. Yn ôl arolwg y Housing LIN/Ipsos, dywedodd pobl hŷn fod diffyg eiddo addas (19%) yn fwy o rwystr i symud na diffyg ymwybyddiaeth o opsiynau tai (4%). Ar lefel fwy

⁴² Public Health Wales and Gwent Regional Partnership Board (2019). *The APPROPRIATE and RIGHTSIZING study*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/The-Appropriate-and-Rightsize-Study-Technical.pdf

⁴³ Housing LIN and Ipsos (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf

⁴⁴ Older People's Housing Taskforce (2024). *Our Future Homes: Housing that promotes wellbeing and community for an ageing population*. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/the-older-peoples-housing-taskforce-report/our-future-homes-housing-that-promotes-wellbeing-and-community-for-an-ageing-population>

⁴⁵ Public Health Wales and Gwent Regional Partnership Board (2019). *The APPROPRIATE and RIGHTSIZING study*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/The-Appropriate-and-Rightsize-Study-Technical.pdf

⁴⁶ Housing LIN and Ipsos (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf

⁴⁷ Welsh Gov (2017). *Our Housing AGenda: meeting the aspirations of older people in Wales*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Our-Housing-AGenda-Meeting-the-aspirations-of-older-people-in-Wales/>

lleol, dangosodd astudiaeth Gwent⁴⁸ ar symud i gartref mwy addas fod pobl yn chwilio am well gwybodaeth a chynghor ynghylch eu hopsiynau tai a chymorth er mwyn gallu gwneud dewisiadau mwy gwybodus ynghylch ble i fyw yn hwyrach mewn bywyd.

- 3.33 Mae'r dystiolaeth ynghylch diffyg eiddo addas fel rhwystr hefyd yn cael ei hamlygu yn adroddiad *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*⁴⁹, sy'n awgrymu bod y mwyafrif o bobl hŷn fel pe baent mewn 'bwlch *rightsizing*', lle nad yw opsiynau tai sy'n cefnogi gwell ansawdd bywyd ar gael nac yn hygyrch iddynt.
- 3.34 Yn adroddiad Age Friendly Ireland⁵⁰ ar *rightsizing*, dywedodd pob cyfranogwr fod diffyg llety addas yn eu hardaloedd lleol. Yn ogystal, roedd gan nifer o bobl bryderon ynghylch hyfywedd ariannol symud, gan nad oedd yr hyn y gallent ei gael o werthu eu cartref o reidrwydd yn ddigon i brynu eiddo llai yn eu hardal leol. Yn arolwg y Housing LIN/Ipsos, dywedodd 20% o bobl fod cost symud yn rhwystr, a dywedodd 20% hefyd fod methu â fforddio cartref arall yn rhwystr.
- 3.35 Felly, mae'r adolygiad o'r dystiolaeth hefyd wedi taflu goleuni ar amrywiaeth o rwystrau ariannol. Nododd adroddiad y Grŵp Arbenigol ar Dai Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru⁵¹ y bydd pobl hŷn yn aml yn wynebu rhwystrau ariannol sy'n eu hatal rhag symud. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ymchwiliad gan Shakespeare Martineau⁵², sy'n awgrymu bod y mwyafrif o bobl yn credu bod symud i gartref sy'n gweddu'n well i'w hanghenion yn 'anfforddiadwy'. Tynnodd yr adroddiad hwn sylw at y ffaith fod tua 1 o bob 5 pensiynwr eisoes yn byw mewn tlodi cyn yr argyfwng costau byw yn 2019/2020, ac mae hynny'n effeithio ar y dewisiadau tai sydd ar gael iddynt.
- 3.36 Rhwystr pwysig i'w ystyried wrth symud yn hwyrach mewn bywyd, a nodwyd drwy astudiaeth Gwent⁵³, yw'r canfyddiadau negyddol sy'n gysylltiedig â 'downsizing'. Mae'r dyfyniadau canlynol yn mynegi'r safbwyntiau hyn yn glir:
 - Grŵp Dostana, Dyn 73 oed: "Symud i gartref llai? I lawr i'r ddaear pan fyddwch chi wedi marw? Dyna'r unig fath o symud i gartref llai dwi eisiau'i wneud."
 - Grŵp Dostana, Dyn 76 oed: "O diar, mae 'symud i gartref llai' yn swnio mor negyddol – prin ei fod yn dy annog di i feddwl amdano mewn ffordd gadarnhaol, nag yw e?"

⁴⁸ Public Health Wales and Gwent Regional Partnership Board (2019). *The APPROPRIATE and RIGHTSIZING study*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/The-Appropriate-and-Rightsize-Study-Technical.pdf

⁴⁹ Hammond, M., White, S., Walsh, S. (2018). *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*. Ar gael yn: <https://ageing-better.org.uk/sites/default/files/2019-02/rightsizing-manchester-school-architects.pdf>

⁵⁰ Age Friendly Ireland (2021). *A Study on the Awareness, Perceptions and Experiences of Older People of Rightsizing*. Ar gael yn: <https://agefriendlyireland.ie/wp-content/uploads/2021/06/AFI-Right-Sizing-Research-Report.pdf>

⁵¹ Welsh Gov (2017). *Our Housing AGenda: meeting the aspirations of older people in Wales*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Our-Housing-AGenda-Meeting-the-aspirations-of-older-people-in-Wales/>

⁵² Shakespeare Martineau (2023). *Moving on: Could later living be the answer to the housing crisis?* Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/0427-Moving-On-paper-report-SHMA-FINAL.pdf

⁵³ Public Health Wales and Gwent Regional Partnership Board (2019). *The APPROPRIATE and RIGHTSIZING study*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/The-Appropriate-and-Rightsize-Study-Technical.pdf

- Aelod o Grŵp Dermatolegol Gwent, Menyw 65 oed: “Dwi wir yn meddwl bod yr enw (‘symud i gartref llai’) yn gwneud i bobl deimlo’n drist – mae fel petai dim angen dim byd arnyn nhw mwyach am nad ydyn nhw’n bwysig mwyach.”

- 3.37 Mae adroddiad *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*⁵⁴ yn awgrymu bod yr angen i archwilio opsiynau tai amrywiol ar gyfer ein poblogaeth sy’n heneiddio yn ei gwneud yn ofynnol inni symud y tu hwnt i drafodaethau cul am symud i gartref llai, neu ‘downsizing’, a thuag at fodel o ‘rightsizing’ lle mae gwella ansawdd bywyd pobl hŷn yn brif ffocws. Er bod y Housing LIN yn cydnabod pwysigrwydd creu ystod amrywiol o opsiynau, profiad y Housing LIN yw nad yw llawer o bobl hŷn yn gyfarwydd â’r term ‘rightsizing’ nac yn ei ddeall, a gall hynny hefyd fod yn rhwystr i rai pobl.
- 3.38 Ystyriaeth bwysig arall sy’n atal pobl rhag symud yn hwyrach mewn bywyd yw bod llawer yn teimlo mai rhywbeth i bobl hŷn eraill ei wneud yw hynny, yn hytrach nag iddyn nhw eu hunain.⁵⁵ Mae ymchwil ansoddol y Housing LIN gyda phobl hŷn dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl bod symud i rywle mwy addas yn hwyrach mewn bywyd yn syniad da i bobl eraill ei wneud. Mae hyn yn tynnu sylw at fwlch canfyddiad posibl ynghylch beth mae symud yn ei olygu yn hwyrach mewn bywyd, a’r angen i newid y naratif fel na chaiff ei weld fel rhywbeth a wneir mewn argyfwng yn unig, ond fel dewis mwy gweithredol a deniadol o ran ffordd o fyw.

Arfer da mewn perthynas â symud yn hwyrach mewn bywyd: sut mae landlordiaid cymdeithasol eraill wedi goresgyn rhwystrau i symud

Llety newydd ei adeiladu ar gyfer symud yn hwyrach mewn bywyd

- 3.39 Mae nifer o landlordiaid cymdeithasol wedi bod yn datblygu fersiwn gyfoes o dai cysgodol, gyda’r nod o ehangu’r ystod o opsiynau tai sydd ar gael i bobl hŷn. Mae sawl landlord cymdeithasol yn darparu cartrefi deniadol ac uchelgeisiol sy’n dilyn egwyddorion dylunio HAPPI⁵⁶ ac sy’n canolbwyntio ar ddarparu llety ‘parod ar gyfer gofal’ i gefnogi pobl i symud i gartrefi mwy addas yn hwyrach mewn bywyd.
- 3.40 Fel arfer, mae tai ‘parod ar gyfer gofal’ yn golygu bod modd addasu cartref dros amser i ddiwallu anghenion sy’n newid. Mae tai ymddeol ‘parod ar gyfer gofal’ yn golygu bod cartrefi’n cael eu hadeiladu i ddiwallu anghenion posibl yn y dyfodol, megis lle ar gyfer cymhorthion ac addasiadau, storfa ar gyfer sgwteri symudedd, lle i gynnal annibyniaeth, a thechnoleg sy’n cefnogi annibyniaeth.
- 3.41 Daw’r enghreifftiau isod yn bennaf o awdurdodau lleol sydd wedi chwarae rhan fwy gweithredol wrth ddarparu llety newydd ei adeiladu ar gyfer pobl hŷn.

⁵⁴ Hammond, M., White, S., Walsh, S. (2018). *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*. Ar gael yn: <https://ageing-better.org.uk/sites/default/files/2019-02/rightsizing-manchester-school-architects.pdf>

⁵⁵ Public Health Wales and Gwent Regional Partnership Board (2019). *The APPROPRIATE and RIGHTSIZING study*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/The-Appropriate-and-Rightsize-Study-Technical.pdf

⁵⁶ Housing LIN. *HAPPI principles*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/HAPPI/>

Byw yn y Gymuned, Cyngor Caerdydd

- 3.42 Fel rhan o Raglen Heneiddio'n Dda Cyngor Caerdydd, mae'r Cyngor yn ceisio gwella'r opsiynau tai sydd ar gael i bobl hŷn, ac mae wrthi'n datblygu cartrefi newydd ar eu cyfer yn y ddinas. Mae hyn yn cynnwys 11 cynllun 'Byw yn y Gymuned' newydd a fydd yn darparu 574 o fflatiau erbyn mis Mawrth 2028. Mae rhaglen y Cyngor i ddatblygu llety newydd ar raddfa fawr ar gyfer pobl hŷn yn uchelgeisiol, ac o ystyried prinder cynlluniau tebyg yn y DU, mae hefyd yn un weledigaethol.
- 3.43 Ar draws yr 11 cynllun 'Byw yn y Gymuned', mae'r Cyngor yn darparu ystod o fathau o dai, gan gynnwys tai gyda gofal, tai parod ar gyfer gofal, tai rhynggenedlaethol a phentref llesiant. Bwriedir i'r rhain gyd-fynd ag egwyddorion dylunio HAPPI⁵⁷ ac maent yn cynnwys y nodweddion canlynol:
- fflatiau addasadwy, hygyrch a pharod ar gyfer gofal
 - dileu'r angen am addasiadau yn y dyfodol
 - cawodydd mawr, gwastad eu mynediad
 - mannau byw-bwyta cynllun agored
 - mwy o le storio
 - fforddiadwy i'w gwresogi
 - mynediad at le awyr agored preifat
 - cyfleusterau cymunedol
 - canolbwynt gwasanaethau i bobl hŷn yn yr ardal leol
- 3.44 Y bwriad yw i gynlluniau 'Byw yn y Gymuned' ddarparu cartrefi o ansawdd uchel i bobl hŷn a fydd yn galluogi pobl i 'heneiddio yn eu lle', a chael cymorth yn ôl yr angen er mwyn cynnal bywyd gweithgar ac annibynnol.
- 3.45 Bwriedir hefyd i ddefnydd priodol o gynlluniau 'Byw yn y Gymuned' helpu'r Cyngor i ymateb i ofynion poblogaeth hŷn sy'n cynyddu, gan leihau dibyniaeth ar ofal preswyl cyffredinol a rhyddhau cartrefi teuluol i helpu i fynd i'r afael â'r prinder tai yn y ddinas.



⁵⁷ Housing LIN. *HAPPI principles*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/HAPPI/>

Appleby Blue, United St Saviours

- 3.46 Mae Appleby Blue yn ddatblygiad tai cymdeithasol arloesol gan elusen United St Saviour's Charity (UStSC), sy'n ailddychmygu'r cysyniad o almshouse ar gyfer byw trefol cyfoes yng nghanol y ddinas.
- 3.47 Cwblhawyd y datblygiad ym mis Mai 2023, ac mae'n darparu 57 o gartrefi ar gyfer cyfanswm o 63 o breswylwyr 65 oed neu drosodd yn Southwark. Wedi'i ddylunio gan y penseiri Witherford Watson Mann, a enillodd Wobr Stirling, mae'r adeilad yn cynnig model ar gyfer prosiectau tai cymdeithasol i oedolion ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol. Cafodd yr adeilad ei ddylunio i gysylltu preswylwyr drwy ei natur agored a'i gynllun llawr croesawgar, gan feithrin ymdeimlad cryf o gymuned a lleihau unigrwydd.
- 3.48 Mae cegin gymunedol Appleby Blue wrth galon yr adeilad, gyda UStSC yn cynnal prosiectau cymunedol sy'n seiliedig ar goginio gyda sefydliadau lleol er mwyn meithrin cysylltiadau rhynggenedlaethol yn Southwark a darparu cyfleoedd pwysig i bobl ifanc yn y fwrdeistref ddatblygu eu sgiliau.
- 3.49 Saif Appleby Blue ar safle a arferai gael ei feddiannu gan gartref gofal, a oedd wedi dirywio ac nad oedd bellach yn addas i'r diben. Dyma'r ddarpariaeth tai cymdeithasol oddi ar y safle a ariannwyd gan ddatblygiad preswyl preifat, 'Triptych', a ddatblygwyd gan JTRE yn Bankside gyfagos. Gwnaed y datblygiad yn bosibl drwy bartneriaeth rhwng y rhydd-ddeiliaid, Bwrdeistref Llundain Southwark, ac UStSC, sy'n ei brydlesu ac a fydd yn ei reoli yn barhaol.
- 3.50 Caiff 35% o'r ynni sydd ei angen i redeg almshouse Appleby Blue yn Bermondsey ei gynhyrchu ar y safle gan baneli ffotofoltäig ar y to. Mae'r adeilad wedi'i awyru'n oddefol, gyda'r mannau cyffredin wedi'u cyfarparu â system awtomataidd o fentiau sy'n agor.



Grants Hill Court, Cyngor Dosbarth Wealden

- 3.51 Mae Grants Hill Court yn gynllun tai ymddeol sy'n cynnwys 65 o fflatiau fforddiadwy a dau fwthyn, ac sy'n cynnig byw'n annibynnol mewn amgylchedd cefnogol. Mae'n dod â chymuned newydd a chymuned sefydledig ynghyd, ac wedi'i anelu at bobl sy'n dymuno symud i gartref mwy addas yn eu blynyddoedd diweddarach.

- 3.52 Mae'r anheddau'n rhagori ar gategori M4(2)⁵⁸ ac maent yn 'barod ar gyfer gofal' er mwyn galluogi preswylwyr i heneiddio yn eu lle o fewn eu cymuned. Fe'u dyluniwyd i ymateb i argymhellion adroddiadau HAPPI⁵⁹, gyda llety dwy agwedd yn cael ei hyrwyddo drwyddo draw, a'r adeilad wedi'i gyfeirio i wneud y mwyaf o olau dydd a golau haul yn yr anheddau. Drwy ddefnyddio llwybrau mynediad agored o fewn y cwrt gweithgareddau dwyreiniol, mae'r fflatiau'n elwa ar ddrysau ffrynt allanol go iawn a ffenestri y gellir eu hagor, sy'n caniatáu awyru croes drwy'r fflatiau.



Bruyn's Court, Cyngor Thurrock

- 3.53 Mae'r cynllun hwn yn nodi dechrau rhaglen newydd fawr i drawsnewid y cynnig tai i drigolion hŷn yn Thurrock. Bydd y rhaglen yn darparu amrywiaeth o opsiynau tai, wedi'u dylunio yn unol ag argymhellion adroddiad Cartrefu ein Poblogaeth sy'n Heneiddio: Panel ar gyfer Arloesi (HAPPI)⁶⁰, er mwyn hyrwyddo iechyd, llesiant a byw'n annibynnol i bobl ag amrywiaeth o anghenion a dyheadau.
- 3.54 Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys dau ddeg pump o fflatiau golau a helaeth, wedi'u dylunio'n benodol i fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion gwahanol trigolion hŷn fel na fydd angen iddynt symud cartref wrth i'w hanghenion newid, gan felly feithrin cymuned gref a sefydlog.
- 3.55 Mae'r adeilad wedi'i ddylunio'n ofalus i ddarparu cartrefi rhagorol i breswylwyr, gyda golau dydd ardderchog, awyru naturiol a golygfeydd da. Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i bwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol. Darperir ystafell ardd gymunedol a theras ar y llawr gwaelod, tra bo mannau eistedd anffurfiol ar bob un o'r lloriau uchaf yn bywiogi'r coridorau ac yn creu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio anffurfiol. Mae'r adeilad yn agor allan at ardd sydd newydd ei thirlunio ac sy'n cael ei rhannu gyda'r gymuned gyfagos.

⁵⁸ Building Regulations Part M (Access to and Use of Buildings) — specifically Approved Document M, Volume 2: Accessible and adaptable dwellings. Yn addas ar gyfer pobl hŷn a rhai defnyddwyr cadeiriau olwyn; mae'n cynnwys mynediad di-risiau, drysau lletach, ystafelloedd ymolchi hygyrch, ac addasrwydd ar gyfer anghenion yn y dyfodol.

⁵⁹ Housing LIN. HAPPI principles. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/HAPPI/>

⁶⁰ Yr un ffynhonnell.

- 3.56 Nid yw'r cynllun yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth, ond nod y cynllun yw gwella safon byw pobl hŷn yn Thurrock yn sylweddol, gan ystyried eu hanghenion cymdeithasol a chorfforol, ac annog rhyngweithio cymdeithasol a chydgefnogaeth.



Melfield Gardens, Phoenix Community Housing

- 3.57 Mae Phoenix Community Housing yn Gymdeithas Dai Porth Cymunedol sy'n eiddo i breswylwyr ac yn cael ei harwain ganddynt. Mae dull Phoenix o annog pobl hŷn i symud i lety mwy addas yn canolbwyntio ar ddarparu llety o ansawdd uchel sy'n annog pobl i ystyried cartref newydd. Nodwyd ganddynt fod 714 o'u cartrefi teuluol yn cael eu meddiannu gan un person, ond dangosodd y gwersi a ddysgwyd o'u cynllun gofal ychwanegol fod angen i'r cynnig tai ragori ar ddisgwyliadau rhywun er mwyn iddo ystyried symud. Mae'r eiddo wedi'u dylunio yn unol ag egwyddorion dylunio HAPPI ac maent o safon Passivhaus, sy'n golygu bod y costau rhedeg yn isel iawn.
- 3.58 Melfield Gardens yw'r cynllun tai rhynggenedlaethol bwriadol cyntaf yn y DU. Mae'n darparu 30 o fflatiau '1 ystafell wely a mwy' ar gyfer pobl 55+ oed sy'n tanfeddiannu, a dau fflat pedair ystafell wely ar gyfer myfyrwyr Goldsmiths. Mae myfyrwyr Goldsmiths yn darparu cymorth anffurfiol i breswylwyr yn gyfnewid am rent is.
- 3.59 Mae polisi gosod Phoenix Community Housing ar gyfer y cynllun yn canolbwyntio ar bobl sy'n tanfeddiannu ac yn rhoi blaenoriaeth iddynt, yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Lewisham.
- 3.60 Maent yn defnyddio'r ymadrodd dull 'gosod mewn cadwyn', gan fod nifer y gosodiadau mewn cadwyn posibl sy'n deillio o adeiladu'r cynllun yn 51 o gartrefi, gan ryddhau 51 o gartrefi o fewn eu stoc dai o faint addas i deuluoedd.



Llety wedi'i adnewyddu ar gyfer symud yn hwyrach mewn bywyd

- 3.61 Yn y sector tai cymdeithasol, mae'r mwyafrif o 'dai ymddeol' yn cynnwys stoc tai cysgodol sydd bellach wedi dyddio. Mae llawer o landlordiaid cymdeithasol yn dechrau mynd i'r afael ag addasrwydd y stoc hon i'r diben a'i hyfywedd yn y dyfodol, gyda llawer ohoni wedi'i datblygu yn y 1970au/80au ac nad yw'n cyd-fynd â safonau modern, h.y. HAPPI neu TAPPI⁶¹. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r term 'cysgodol' o blaid termau mwy cadarnhaol o ran oedran, e.e. Tai Ymddeol, Byw'n Annibynnol, Byw'n Hwyrach Mewn Bywyd.
- 3.62 Mae nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol wedi cychwyn ar raglenni ailfodelu/ailddatblygu, sydd wedi moderneiddio eu cynlluniau cysgodol a chreu cartrefi mwy hygrych. Mae'r rhain wedi bod yn ffyrdd cymharol gosteffeithiol o adfywio cynlluniau, er nad yw hi bob amser yn bosibl cyrraedd safonau hygrychedd modern.
- 3.63 Er mwyn dangos beth mae rhai awdurdodau lleol wedi'i gyflawni drwy waith adnewyddu/adfer, rhoddir rhai enghreifftiau isod.

Cyngor Bwrdeistref Wrecsam

- 3.64 Mae Cyngor Bwrdeistref Wrecsam wedi cychwyn ar Raglen Uchelgeisiol Ailfodelu Ac Adnewyddu Tai Cysgodol, sydd wedi cynnwys ailfodelu ac adnewyddu dau gynllun tai cysgodol yn Llys y Mynydd, Rhos, a Thir y Capel, Llai, ynghyd â fflatiau newydd ategol y tu ôl i'r cynllun presennol yn Llai.
- 3.65 Mae'r fflatiau byw â chymorth newydd wedi'u cynllunio i fod yn 'barod ar gyfer gofal', gyda'r dechnoleg ddiweddaraf yn gwella iechyd a llesiant. Nod y cyngor yw helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach drwy fuddsoddi yn y gwelliannau hyn.
- 3.66 Mae'r prif waith sydd i'w wneud yn cynnwys: ailfodelu'r cynllun presennol i gynyddu maint y fflatiau, darparu cyfleusterau storio da yn y fflatiau, adnewyddu'r lolfeydd cymunedol, gwella effeithlonrwydd ynni'r cynllun, gan gynnwys darparu dau bwynt gwefru cerbydau trydan, a chynyddu'r ddarpariaeth parcio ceir o amgylch y cynlluniau.



⁶¹ Housing LIN. *Technology for our Ageing Population: Panel for Innovation*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/tappi/>

Vic Johnson House, Gateway Housing Association

- 3.67 Crëodd adfywiad Vic Johnson House, sydd wedi'i leoli yn Mile End, 32 o fflatiau newydd ac adnewyddodd 24 o fflatiau presennol, mewn ymgais i wella'r dewisiadau tai sydd ar gael i bobl hŷn yn Tower Hamlets.
- 3.68 Nododd asesiadau dichonoldeb gyfleoedd i ymestyn yr adeilad a gadwyd ar y ddau ben, ac un o'r prif amcanion oedd adleoli'r brif fynedfa yn nes at yr amwynderau ar Roman Road, gan wella mynediad i breswylwyr wrth wneud hynny.
- 3.69 Mae'r fynedfa bellach yn cynnwys canolbwynt cymunedol newydd i breswylwyr ryngweithio'n gymdeithasol, gan gysylltu'r mannau hyn ag ardd gymunedol adfywiedig sy'n wynebu'r de. Roedd y penderfyniad i gadw'r rhan fwyaf o'r adeilad presennol a chadw preswylwyr yn eu cartrefi yn ystod y gwaith adeiladu yn peri heriau sylweddol i'r tîm dylunio ac i'r broses adeiladu, ond roedd yn opsiwn cryf o safbwynt cynaliadwyedd ac, o safbwynt gwerth cymdeithasol, roedd yn galluogi preswylwyr i aros yn eu cartrefi.



Marchnata a chefnogi pobl i symud

- 3.70 Mae ymchwil genedlaethol a phrofiad y Housing LIN o ymchwil ansoddol gyda phobl hŷn yn dangos nad yw'r mwyafrif o bobl yn bwriadu symud yn hwyrach mewn bywyd, ac os ydynt yn symud, nid yw hynny bob amser i gartref llai. Mewn ymateb i hynny, mae'r sector yn defnyddio'r term 'rightsizing' (symud i gartref mwy addas) fel term mwy realistig a pherthnasol na 'downsizing' (symud i gartref llai), sy'n awgrymu bod pobl yn symud i eiddo llai yn hwyrach mewn bywyd.
- 3.71 Fodd bynnag, mae'n ddadleuol i ba raddau y mae'r cyhoedd yn deall y term 'rightsizing' (symud i gartref mwy addas), gan ei fod yn dueddol o gael ei ddeall a'i ddefnyddio'n fwy gan gynulleidfa broffesiynol. Mae'r ymchwil a gynhaliwyd ledled y fwrdeistref yn cefnogi hyn: nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r term 'rightsizing', ac felly defnyddiwyd y term 'symud' drwy gydol yr adroddiad hwn. O ganlyniad, ceir ystod o ddulliau o farchnata symud i gartref mwy addas; mae rhai darparwyr yn defnyddio'r term, tra nad yw eraill yn gwneud hynny.

Cartrefi Iach Sy'n Gyfeillgar I Oedran, Age Friendly Ireland

- 3.72 Mae'r Rhaglen Cartrefi Iach Sy'n Gyfeillgar i Oedran⁶², a weithredir gan Age Friendly Ireland mewn partneriaeth â Sláintecare, yn cefnogi pobl hŷn i symud i gartref mwy addas, gan eu helpu i ddod o hyd i gartrefi sy'n addas i'w hanghenion newidiol wrth iddynt heneiddio neu i addasu cartrefi o'r fath.
- 3.73 Drwy'r rhaglen hon, mae cydgysylltwyr lleol yn asesu anghenion pob cyfranogwr ac yn eu cysylltu ag adnoddau ar gyfer addasiadau i'r cartref, gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a mathau eraill o gymorth. Os nad yw cartref presennol bellach yn diwallu anghenion symudedd neu iechyd unigolyn, mae'r cydgysylltwyr yn rhoi arweiniad ar symud i dai mwy addas o fewn eu cymuned.
- 3.74 Mae'r cydgysylltwyr yn cwrdd â phobl wyneb yn wyneb er mwyn deall eu hanghenion ac archwilio opsiynau ar gyfer symud i gartref mwy addas. Maent yn gweithio i gefnogi unigolion gyda'r agweddau ymarferol ar symud, yn ogystal â'u helpu i ddeall yr opsiynau tai sydd ar gael a chysylltu ag adran dyrannu tai'r cyngor.

Dull Mosscafe St Vincent's O Gefnogi Pobl I Symud I Gartref Mwy Addas

- 3.75 Mae Mosscafe St Vincent's Housing (MSV) Group yn berchen ar bron i 9,000 o gartrefi ac yn eu rheoli ledled Greater Manchester, Swydd Gaerhirfryn a Gorllewin Swydd Efrog. Mae MSV yn pwysleisio dull cefnogol o helpu pobl i symud i gartref mwy addas, gan gynorthwyo oedolion hŷn i symud i gartrefi sy'n gweddu'n well i'w hanghenion ffordd o fyw a'u hamgylchiadau personol.
- 3.76 Mae symud i gartref mwy addas gyda MSV yn cael ei gyflwyno fel dewis grymusol sy'n cefnogi annibyniaeth ac yn gwella ansawdd bywyd. Nid yn unig y mae'n helpu trigolion hŷn i gael mynediad at dai hylaw a fforddiadwy, ond mae hefyd yn rhyddhau cartrefi mwy i deuluoedd mewn angen, gan fynd i'r afael felly â'r argyfwng tai ehangach yn y DU.
- 3.77 Mae elfennau allweddol dull MSV yn cynnwys gwasanaethau cymorth personol fel y Gwasanaeth Helping Hands, sy'n helpu gyda heriau emosiynol ac ymarferol symud i gartref llai. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu cleientiaid i ddioli, clirio annibendod a pharatoi ar gyfer y symud, gyda chymorth ychwanegol i drefnu cyfleustodau a newid cyfeiriad.
- 3.78 Ar gyfer cleientiaid sydd angen hygyrchedd arbenigol, mae tai MSV yn cynnwys addasiadau i ddiwallu anghenion iechyd a symudedd, gan sicrhau bod cartrefi newydd yn cynnig cysur a diogelwch.
- 3.79 Mae MSV wedi dylunio llyfryn deniadol ynghylch symud i gartref mwy addas, sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor am symud gyda MSV, ynghyd â manylion y gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi pobl.⁶³ Maent hefyd wedi darparu fideo ar y pwnc.⁶⁴

⁶² Age Friendly Homes, funded by Sláintecare (2021). *Healthy Age Friendly Homes Programme*. Ar gael yn: <https://agefriendlyhomes.ie/resources/healthy-age-friendly-homes-programme/>

⁶³ MSV (2021). *Have you thought about Rightsizing?* Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Rightsizing-Later-Living-and-HAPPI-Schemes/>

⁶⁴ MSV, Snugbug. *Rightsizing video*. Ar gael yn: <https://vimeo.com/cdandpmedia/review/534802437/6bc5654364>

Dull Marchnata'r ExtraCare Charitable Trust

- 3.80 Mae'r ExtraCare Charitable Trust (ECCT) yn un o'r darparwyr mwyaf o dai gofal ychwanegol yn Lloegr. Mae ei ddull marchnata yn canolbwyntio ar gyflwyno symud i dai gofal ychwanegol fel dewis ffordd o fyw. Mae'r llyfrynau⁶⁵ a ddyluniwyd gan yr ECCT yn defnyddio delweddau a therminoleg gadarnhaol o ran oedran, yn ogystal â darparu gwybodaeth glir am yr hyn sydd ar gael mewn cynllun, gan gynnwys cynllun llawr 3D deniadol yn weledol a delweddau o fflatiau ac ardaloedd cymunedol.
- 3.81 Mae'r ECCT hefyd yn agored ynghylch cost byw mewn fflat ECCT, gan gynnwys manylion y taliadau y gellir eu disgwyl a'r gwahanol ffyrdd y gall pobl dalu i fyw mewn tai gofal ychwanegol. Mae darparu astudiaethau achos yn helpu pobl i ystyried y manteision ariannol a allai ddeillio o symud.

Dull Marchnata St Monica Trust

- 3.82 Mae St Monica Trust (SMT) yn ddarparwr pentrefi ymddeol, gyda strategaeth farchnata gref sy'n canolbwyntio ar greu diwylliant sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf. Mae SMT yn cydnabod nad byw â chymorth na thai gofal ychwanegol y mae pobl yn eu prynu. Yr hyn y maent yn ei brynu yw tawelwch meddwl, llai o golled annibyniaeth, y cyfle i fwynhau bywyd i'r eithaf am gyfnod hirach, y posibilrwydd o fyw gyda phobl o'r un anian, ac osgoi dod yn faich ar eu plant. Dyma'r manteision sy'n cael eu marchnata i gwsmeriaid.
- 3.83 Mae dull marchnata St Monica Trust yn cydnabod nad yw marchnata wedi'i gyfyngu i hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus na chyfathrebu yn unig. Mae'n gylchred o weithgarwch a all, pan gaiff ei hintegreiddio i DNA sefydliad, lywio dadansoddiad, cynllunio a gweithredu strategaeth ac amcanion y sefydliad yn ddefnyddiol. Gwerthoedd SMT yw sylfaen y sefydliad, ac felly maent yn rhan o'r hyn y mae cwsmeriaid yn prynu iddo.
- 3.84 Mae SMT hefyd yn gweld gwerth mewn datblygu rhwydwaith o argymhellion ar lafar er mwyn ychwanegu hygredd. Maent yn gwneud hyn drwy ofyn i breswylwyr siarad ag unigolion sy'n dechrau'r broses o symud a rhoi tystiolaeth bersonol. Mae cael staff bodlon hefyd yn bwysig o safbwynt argymhellion ar lafar. Mae preswylwyr, teuluoedd a staff yn gweithredu fel llysgenhadon cadarnhaol i'r sefydliad.
- 3.85 Mae ffocws SMT ar roi'r cwsmer yn gyntaf yn ceisio gweld y byd o safbwynt ei gwsmeriaid drwy ddeall pwy ydynt a beth yw eu dymuniadau a'u hanghenion.

⁶⁵ ExtraCare Charitable Trust (2024). *Discover later living*. Ar gael yn: <https://www.extracare.org.uk/app/uploads/2024/01/Discover-Later-Living-Brochure-Jan-2024.pdf>

Crynodeb o'r dystiolaeth a'r arfer da: goblygiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- 3.86 Mae'r dystiolaeth genedlaethol ynghylch diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd, ynghyd â'r ffactorau sy'n gallu annog, dylanwadu ar neu rwystro hynny, a'r enghreifftiau o arfer da, yn awgrymu bod angen i CBSC ystyried y canlynol:

Cefnogi heneiddio yn eu lle

- 3.87 Galluogi trigolion hŷn i aros yn eu cartrefi presennol cyn hired â phosibl drwy wella mynediad at addasiadau, gwasanaethau cynnal a chadw yn y cartref, cymorth cymdeithasol a darpariaeth gofal. Dylai annibyniaeth fod yn sail i bob ymyrraeth sy'n ymwneud â thai.

Ehangu ac amrywio'r opsiynau tai

- 3.88 Hyrwyddo datblygu ystod ehangach o ddewisiadau tai sy'n ddeniadol, yn hygyrch ac yn fforddiadwy i bobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys llety arbenigol yn ogystal â thai confensiynol wedi'u dylunio'n dda sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Darparu tai sy'n apelio at amrywiaeth o oedolion hŷn

- 3.89 Annog cymysgedd o fathau a meintiau tai er mwyn adlewyrchu amrywiaeth amgylchiadau a dewisiadau pobl hŷn. Bydd dylunio hyblyg a chynhwysol yn ehangu'r apêl.

Rhoi blaenoriaeth i gartrefi o faint addas

- 3.90 Sicrhau bod tai newydd ar gyfer pobl hŷn yn cynnig o leiaf dwy ystafell wely fel safon, er mwyn diwallu anghenion o ran gofod a ffordd o fyw, tra hefyd yn archwilio modelau '1 ystafell wely a mwy' lle bo hynny'n briodol.

Cynnig cymhellion a chymorth ariannol

- 3.91 Gwella mynediad at gymorth ariannol a chynghor personol er mwyn gwneud symud yn opsiwn mwy hyfyw a deniadol i bobl hŷn.

Hyrwyddo cymunedau cynhwysol, cymysg o ran oedran

- 3.92 Cefnogi datblygu cymunedau sy'n annog rhyngweithio rhyngenedlaethol ac yn lleihau'r risg o arwahanrwydd cymdeithasol, gan gynnwys mewn lleoliadau tai arbenigol.

Mabwysiadu a chymhwyso egwyddorion HAPPI

- 3.93 Dylai pob cartref a ddynodir ar gyfer pobl hŷn — boed yn newydd neu'n bresennol — ddilyn egwyddorion dylunio HAPPI (Housing our Ageing Population: Panel for Innovation) er mwyn sicrhau ansawdd, diogelwch a llesiant.

Sicrhau bod cartrefi mewn lleoliad da

- 3.94 Rhoi blaenoriaeth i leoli tai yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a hygyrch er mwyn cefnogi symudedd, annibyniaeth ac ymgysylltiad cymunedol.

Amrywio'r opsiynau deiliadaeth

- 3.95 Annog ystod o fathau o ddeiliadaeth, gan gynnwys perchen-feddiannaeth, cydberchnogaeth a rhentu fforddiadwy, a gweithio gyda chymunedau i ddiffinio beth mae "fforddiadwy" yn ei olygu'n lleol.

Darparu cymorth ymarferol i symud

- 3.96 Cynnig cymorth ymarferol gyda'r broses symud, gan gynnwys clirio annibendod a chymorth logistaidd, er mwyn lleihau'r rhwystrau emosiynol a chorfforol i adleoli.

Cryfhau mynediad at gyngor annibynnol

- 3.97 Sicrhau bod pobl hŷn yn cael mynediad at wybodaeth ac arweiniad clir a diduedd ynghylch opsiynau tai a chymorth, gan alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus a hyderus.

Ail-lunio'r naratif ynghylch symud yn hwyrach mewn bywyd

- 3.98 Hyrwyddo symud fel dewis rhagweithiol sy'n gwella ffordd o fyw, yn hytrach nag fel dewis olaf. Dylai'r iaith a'r negeseuon ganolbwyntio ar lesiant, annibyniaeth, a byw'n dda gartref.

4. Proffil demograffig ac amgylchiadau tai poblogaeth hŷn Bwrdeistref Sirol Caerffili


- 4.01 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu dadansoddiad demograffig o boblogaeth hŷn bresennol a'r dyfodol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r cyflenwad presennol o lety ar gyfer pobl hŷn yn y fwrdeistref (tai ymddeol/cysgodol, tai dynodedig yn ôl oedran a thai gofal ychwanegol), yn ogystal â data ar addasiadau i gartrefi presennol trigolion hŷn.

Proffil demograffig pobl hŷn (50+)

Amcanestyniadau poblogaeth

- 4.02 Er mwyn pennu maint y boblogaeth hŷn bresennol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, defnyddiwyd Cyfrifiad ONS 2021⁶⁶ fel llinell sylfaen, sy'n nodi nifer y bobl 50+, 60+, 70+ ac 80+ oed.
- 4.03 Er mwyn amcangyfrif amcanestyniadau poblogaeth y bobl 50+, 60+, 70+ ac 80+ oed, defnyddiwyd y data mwyaf diweddar ar gyfraddau twf amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru ar sail 2018, ar gyfer y cyfnod 2018 i 2043⁶⁷ (gweler Tabl 18 yn yr Atodiad), a'u cymhwyso at Gyfrifiad ONS 2021 ar gyfer y blynyddoedd 2025, 2030, 2035 a 2040.
- 4.04 Mae hyn yn dangos y bydd nifer y bobl 50+ oed yn cynyddu 6% rhwng 2025 a 2040. Mae hynny'n golygu 4,382 o bobl ychwanegol yn y grŵp oedran hwn erbyn 2040. Bydd nifer y bobl 60+ oed yn cynyddu 10%, sef 5,050 o bobl ychwanegol erbyn 2040.
- 4.05 Y boblogaethau 70+ ac 80+ fydd yn gweld y cynnydd mwyaf, gyda chynnydd o 25% yn y boblogaeth 70+ rhwng 2025 a 2040, a chynnydd o 37% yn y boblogaeth 80+ yn yr un cyfnod.

Ffigur 1. Amcangyfrif o nifer y bobl 50+, 60+, 70+ ac 80+ oed ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021, amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol 2018 ar gyfer Cymru


⁶⁶ ONS Census 2021. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/>

⁶⁷ 2018-based local authority population projections for Wales, 2018 to 2043. Ar gael yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based/populationprojections-by-localauthority-year>

Deiliadaeth ac amddifadedd

- 4.06 Mae mwyafrif yr aelwydydd 50+ ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn berchen-feddianwyr (75%), gyda 25% yn rhentu. O'r rhain, mae 18% yn rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol a 7% yn rhentu oddi wrth landlord preifat.

Ffigur 2. Proffil deiliadaeth aelwydydd 50+ ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021

- 4.07 Mae proffil deiliadaeth pobl 50+ oed ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos cynnydd graddol mewn perchen-feddiannaeth wrth i oedran gynyddu. Ymhlith y boblogaeth 50+, mae 75% yn berchen-feddianwyr, gan godi ychydig i 76% ymhlith y rhai 60+ oed ac i 78% ymhlith y grŵp 70+ oed.
- 4.08 Mae cyfran y bobl 50+ oed sy'n byw mewn tai rhent cymdeithasol yn aros yn gyson ar 18%, er bod ychydig yn llai o bobl 45–49 oed yn rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol.
- 4.09 Ar y llaw arall, mae rhentu preifat yn gostwng yn sylweddol wrth i oedran gynyddu. Tra bod 7% o bobl 50+ oed yn byw mewn llety rhent preifat, mae hyn yn gostwng i 5% ymhlith y grŵp 60+ ac i ddim ond 4% ymhlith y rhai 70 oed a throsodd.
- 4.10 Mae'r data ar ddeiliadaeth yn dangos bod y carfanau oedran iau yn llai tebygol o fod yn berchen-feddianwyr na'r carfanau oedran hŷn, ac yn fwy tebygol o rentu oddi wrth landlord preifat. Mae hyn yn awgrymu y gallai pobl iau, yn enwedig y rhai sydd bellach rhwng 45 a 49 oed, fod yn llai tebygol o fod yn berchen-feddianwyr yn y dyfodol ac y byddant yn dibynnu'n fwy ar opsiynau rhentu yn hwyrach mewn bywyd.

Tabl 1. Proffil deiliadaeth y gwahanol garfanau oedran ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Carfan oedran	Perchen-feddiannaeth	Rhent cymdeithasol	Rhent preifat	Cyfanswm
45-49	68%	17%	14%	100%
50+	75%	18%	7%	100%
60+	76%	18%	5%	100%
70+	78%	18%	4%	100%

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021. Noder: nid yw'r data ar aelwydydd lle mae'r deiliaid yn 80+ oed ar gael.

- 4.11 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru⁶⁸ (WIMD) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o dlodi cymharol. Mae'n nodi'r cymunedau hynny, ar sail daearyddiaeth Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), sydd â'r crynodiadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd, yn ogystal ag amddifadedd cyffredinol. Mae WIMD yn rhoi safle i bob LSOA yng Nghymru o'r mwyaf difreintiedig (safle 1) i'r lleiaf difreintiedig (safle 1909). Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r safleoedd hyn yn cael eu categorïddio.


Tabl 2. Bandiau Safle WIMD A Chategorïau Amddifadedd

Ystod safleoedd WIMD ar gyfer LSOAs	Categori amddifadedd
1–191	10% mwyaf difreintiedig
192–382	11–20% mwyaf difreintiedig
383–573	21–30% mwyaf difreintiedig
574–955	31–50% mwyaf difreintiedig
956–1909	50% lleiaf difreintiedig

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, StatsCymru

- 4.12 Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili 110 o LSOAs allan o'r 1909 o LSOAs yng Nghymru. Yn ôl safleoedd WIMD, mae 37% o LSOAs Bwrdeistref Sirol Caerffili ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.
- 4.13 Yn nodedig, mae 25% o LSOAs Bwrdeistref Sirol Caerffili yn disgyn o fewn y 31% i 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae 14% o'r LSOAs yn disgyn o fewn yr 11% i 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 10% o'r LSOAs ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn yn tynnu sylw at lefelau sylweddol o amddifadedd mewn rhannau o'r sir.

Ffigur 3. Lefelau amddifadedd mewn LSOAs ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Ffynhonnell: WIMD, StatsCymru

- 4.14 Y cymunedau sydd â'r nifer fwyaf o LSOAs â'r lefelau uchaf o amddifadedd (y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru) yw Gogledd Cwm Rhymni (6 LSOA), Basn Caerffili (4 LSOA), a

⁶⁸ Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation>

Gorllewin y Cymoedd Canol (1 LSOA). Fodd bynnag, mae gan Fasn Caerffili a Gorllewin y Cymoedd Canol hefyd nifer o LSOAs â lefelau is o amddifadedd (y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru). Mae'r tabl isod yn dangos lefelau amddifadedd ar draws pob un o'r 110 LSOA ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Tabl 3. Safleoedd WIMD A Lefelau Amddifadedd LSOAs Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Ardal gymunedol	LSOA	Safle WIMD	Categori amddifadedd
Cwm Rhymni Uchaf	Dyffryn Darran 2	137	10% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Sant Iago 4	113	10% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Sant Iago 3	3	10% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Penyrheol 8	90	10% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorllewin)	Hengoed 2	123	10% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Aberbargoed 2	177	10% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Bargoed 4	29	10% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Bedwas, Trethomas a Machen 6	43	10% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Moriah 3	67	10% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Twyn Carno 1	8	10% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Tredegar Newydd 3	59	10% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorllewin)	St. Cattwg 5	325	11%–20% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Morgan Jones 2	237	11%–20% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Dyffryn Aber 4	358	11%–20% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Dyffryn Aber 3	340	11%–20% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Penyrheol 4	242	11%–20% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorllewin)	St. Cattwg 1	280	11%–20% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Aberbargoed 1	349	11%–20% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Pontlotyn	315	11%–20% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Bedwas, Trethomas a Machen 2	293	11%–20% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Crymlin 3	251	11%–20% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Trecelyn 2	214	11%–20% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Tredegar Newydd 2	246	11%–20% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Argoed 1	213	11%–20% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Cefn Fforest 1	367	11%–20% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Moriah 2	228	11%–20% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorllewin)	Nelson 2	544	21%–30% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Twyn Carno 2	473	21%–30% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Llanbradach 3	453	21%–30% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Penyrheol 1	407	21%–30% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Penyrheol 3	536	21%–30% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Gilfach	482	21%–30% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Bargoed 3	456	21%–30% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymni Uchaf	Bargoed 1	538	21%–30% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Dwyrain Rhisga 4	566	21%–30% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Dwyrain Rhisga 2	447	21%–30% mwyaf difreintiedig

Ardal gymunedol	LSOA	Safle WIMD	Categori amddifadedd
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Coed Duon 2	394	21%–30% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Pengam 2	405	21%–30% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Pontllanfraith 2	423	21%–30% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Pengam 1	472	21%–30% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Cefn Fforest 2	420	21%–30% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymini Uchaf	Moriah 1	391	21%–30% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	St. Martins 2	739	31% -50% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Morgan Jones 4	926	31% -50% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Dyffryn Aber 2	633	31% -50% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Dyffryn Aber 1	713	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	Ystrad Mynach 2	659	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	Hengoed 3	677	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	Hengoed 1	619	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	St. Cattwg 2	729	31% -50% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymini Uchaf	Bargoed 2	704	31% -50% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymini Uchaf	Darran Valley 1	832	31% -50% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Bedwas, Trethomas a Machen 7	826	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Trecelyn 4	798	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Crymlin 4	929	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Pontllanfraith 1	664	31% -50% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Abercarn 2	718	31% -50% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Gorrlewin Rhisga 2	922	31% -50% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Gorrlewin Rhisga 3	635	31% -50% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Gorrlewin Rhisga 1	844	31% -50% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Pont-y-cymer 2	654	31% -50% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Ynysddu 1	887	31% -50% mwyaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Abercarn 3	720	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Argoed 2	710	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Penmaen 2	947	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Coed Duon 4	945	31% -50% mwyaf difreintiedig
Cwm Rhymini Uchaf	Tredegar Newydd 1	578	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Pontllanfraith 5	715	31% -50% mwyaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Pengam 3	918	31% -50% mwyaf difreintiedig
Basn Caerffili	Sant Iago 1	1172	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Penyrheol 6	1675	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	Nelson 1	1134	50% lleiaf difreintiedig

Ardal gymunedol	LSOA	Safle WIMD	Categori amddifadedd
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	Nelson 3	1390	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Morgan Jones 1	1075	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	St. Martins 1	1552	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	St. Martins 4	1697	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	St. Martins 3	1393	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	St. Martins 5	1878	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Morgan Jones 3	1169	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Penyrheol 7	1340	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Penyrheol 5	1374	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Penyrheol 2	1833	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Llanbradach 1	1138	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Bedwas, Trethomas a Machen 1	1652	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Sant Iago 2	1496	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Llanbradach 2	987	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	Ystrad Mynach 1	1292	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	Ystrad Mynach 3	1576	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	Maesycwmmwr	1101	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	St. Cattwg 4	1565	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Gorrlewin)	St. Cattwg 3	1008	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Bedwas, Trethomas a Machen 5	1054	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Bedwas, Trethomas a Machen 3	1665	50% lleiaf difreintiedig
Basn Caerffili	Bedwas, Trethomas a Machen 4	1638	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Crymlin 2	1558	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Trecelyn 3	1110	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Crymlin 1	1448	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Trecelyn 1	1242	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Penmaen 1	1733	50% lleiaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Abercarn 1	1032	50% lleiaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Dwyrain Rhisga 3	1387	50% lleiaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Dwyrain Rhisga 1	1225	50% lleiaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Ynysddu 2	1083	50% lleiaf difreintiedig
Islwyn Isaf	Pont-y-cymer 1	1275	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Coed Duon 5	1682	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Penmaen 3	1519	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Coed Duon 3	1731	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Coed Duon 1	1009	50% lleiaf difreintiedig
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Pontllanfraith 3	1007	50% lleiaf difreintiedig

Ardal gymunedol	LSOA	Safle WIMD	Categori amddifadedd
Y Cymoedd (Canol a Dwyrain)	Pontllanfraith 4	1713	50% lleiaf difreintiedig

Ffynhonnell: WIMD, StatsCymru

Cyfansoddiad yr aelwyd

- 4.15 Mae data o Gyfrifiad ONS 2021 yn dangos mai dim ond un person sy'n byw mewn bron i 40% o'r aelwydydd 50+ ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae bron i hanner (49%) o'r unigolion hyn yn byw mewn cartrefi tair ystafell wely, a dim ond 15% sy'n byw mewn cartrefi un ystafell wely.
- 4.16 Mae Cyfrifiad ONS 2021 hefyd yn darparu data ar 'aelwydydd un teulu: pawb yn 66 oed a throsodd'; mae hyn yn cyfeirio at aelwyd lle mae pawb sy'n byw yn yr un annedd yn 66 oed neu'n hŷn. Ymhlith yr holl aelwydydd 50+, mae 16% yn aelwydydd sy'n cynnwys unigolion 66 oed a throsodd yn unig. Mae'r aelwydydd hyn hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi tair ystafell wely (61%), gyda dim ond cyfran fach (3%) yn byw mewn cartrefi un ystafell wely.

Tabl 4. Nifer yr ystafelloedd gwely mewn aelwydydd a feddiannir gan bobl 50+ oed ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Cyfansoddiad yr aelwyd	1 ystafell wely	2 ystafell wely	3 ystafell wely	4+ ystafell wely	Cyfanswm	%
Aelwyd un person	2,557	5,186	8,400	1,001	17,144	37%
Mathau eraill o aelwydydd	21	181	971	503	1,676	4%
Aelwyd un teulu: pawb yn 66 oed a throsodd	200	1,656	4,514	1,051	7,421	16%
Aelwyd un teulu: aelwyd cwpl	206	2,312	9,920	3,589	16,027	35%
Aelwyd un teulu: aelwyd rhiant unigol	41	834	2,569	431	3,875	8%

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021

Tabl 5. Nifer yr ystafelloedd gwely mewn aelwydydd a feddiannir gan bobl 50+ oed fel canran ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Cyfansoddiad yr aelwyd	1 ystafell wely	2 ystafell wely	3 ystafell wely	4+ ystafell wely
Aelwyd un person	15%	30%	49%	6%
Mathau eraill o aelwydydd	1%	11%	58%	30%
Aelwyd un teulu: pawb yn 66 oed a throsodd	3%	22%	61%	14%
Aelwyd un teulu: aelwyd rhiant unigol	1%	14%	62%	23%
Aelwyd un teulu: aelwyd rhiant unigol	1%	22%	66%	11%

Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021


Proffil iechyd y boblogaeth hŷn

- 4.17 Mae disgwyliad oes pobl 50 oed ym Mwrdeistref Sirol Caerffili oddeutu 31 mlynedd, sydd ychydig yn is na disgwyliad oes pobl 50 oed yng Nghymru (oddeutu 32 mlynedd).
- 4.18 Mae Ffigur 4 yn dangos bod bwlch iechyd rhwng disgwyliad oes a disgwyliad oes iach pobl ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Er enghraifft, mae gan y rhai rhwng 50 a 54 oed ddisgwyliad oes cyfartalog o 30.93 mlynedd, ond disgwyliad mai dim ond 17.01 o'r blynnyddoedd hynny fydd yn

cael eu byw mewn iechyd da, sy'n golygu y gallai tua 13.92 mlynedd gael eu byw gyda chyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

4.19 Mae'r bwlch iechyd rhwng disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn parhau ar draws pob grŵp oedran hŷn (gweler y siart isod).

Ffigur 4. Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach y boblogaeth 50+ oed (pobl) ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Ffynhonnell: Disgwyliad oes ar gyfer ardaloedd lleol ym Mhrydain Fawr (2024)⁶⁹, Disgwyliad oes mewn cyflwr iechyd, pob oedran⁷⁰

4.20 Mae'r data'n dangos bod menywod yn tueddu i fyw'n hirach ac i fwynhau cyfnod ychydig yn hirach o iechyd da o gymharu â dynion. Er enghraifft, mae gan fenywod rhwng 50 a 54 oed ddisgwyliad oes o 32.32 mlynedd a disgwyliad oes iach o 17.39 mlynedd, tra bod gan ddynion o'r un oedran ddisgwyliad oes o 29.53 mlynedd a disgwyliad oes iach o 16.63 mlynedd. Mae hyn yn dangos bod menywod yn byw, ar gyfartaledd, tua 15 mlynedd y tu hwnt i gyfnod o iechyd da, tra bod dynion yn byw tua 13 mlynedd.

Tabl 6. Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach yn ôl rhywedd (blynnyddoedd) ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Oedran	Disgwyliad oes		Disgwyliad oes iach	
	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
50 i 54	32.32	29.53	17.39	16.63
55 i 59	27.94	25.23	14.34	13.51
60 i 64	23.63	21.01	11.54	10.68
65 i 69	19.46	17.24	9.01	8.23
70 i 74	15.55	13.70	6.73	6.09

⁶⁹ Life expectancy. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/lifeexpectancyforlocalareasofgreatbritain>


⁷⁰ Healthy life expectancy. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyallagesuk>

Oedran	Disgwyliad oes		Disgwyliad oes iach	
	Benyw	Gwryw	Benyw	Gwryw
75 i 79	12.04	10.52	4.79	4.30
80 i 84	8.84	7.74	3.22	2.87
85 i 89	6.27	5.46	2.05	1.82
90+	4.35	3.51	1.25	1.03

Ffynhonnell: Disgwyliad oes ar gyfer ardaloedd lleol ym Mhrydain Fawr (2024), Disgwyliad oes mewn cyflwr iechyd, pob oedran, y DU

- 4.21 Mae Ffigur 5 yn dangos statws iechyd hunangofnodedig y boblogaeth 50+ ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, yn seiliedig ar Gyfrifiad ONS 2021. Nododd y mwyafrif o bobl 50+ oed (57%) eu bod mewn iechyd da neu dda iawn. Fodd bynnag, dywedodd cyfran sylweddol (27%) fod eu hiechyd yn weddol, tra disgrifiodd 16% eu hiechyd fel gwael neu wael iawn. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er bod mwy na hanner y trigolion hŷn yn ystyried eu bod mewn iechyd da, fod cyfran amlwg eisoes yn nodi heriau iechyd.

Ffigur 5. Statws iechyd hunangofnodedig y boblogaeth 50+ ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021

- 4.22 Ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, roedd 3,489 o bobl 65 oed a throsodd wedi cael diagnosis o ddementia yn 2020. Rhagwelir y bydd y nifer hwn yn cynyddu i 5,943 erbyn 2025. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 70.3% yn nifer yr achosion o ddementia ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.⁷¹
- 4.23 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru⁷² yn nodi bod bron i dri chwarter (72%) o bobl dros 65 oed ledled Cymru yn dweud eu bod yn teimlo'n unig weithiau, o'i gymharu â 70% o'r rhai rhwng 45 a 64 oed, tra bod 10% o bobl hŷn yng Nghymru – sef tua 91,000 o bobl – yn teimlo'n unig yn gyson. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn is na'r rhai a gofnodwyd yn ystod y pandemig (75% ac 11%).

⁷¹ Caerphilly County Borough Area Assessment of Local Well-being. Ar gael yn: <https://www.gwentpsb.org/wp-content/uploads/2022/03/Caerphilly-Basin-Local-Well-being-Assessment-Final-1.pdf>

⁷² Ar gael yn: <https://olderpeople.wales/wp-content/uploads/2023/01/221222-Understanding-Wales-ageing-population-24-November.pdf>

Y cyflenwad presennol o lety ar gyfer pobl hŷn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

- 4.24 Mae data gan yr Elderly Accommodation Counsel, sef elusen sy'n darparu cyfeirlyfr ar-lein o dai a gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl hŷn, wedi'i groesgyfeirio â data gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn nodi'r cyflenwad presennol o dai ar gyfer pobl hŷn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Y gwahanol fathau o dai ar gyfer pobl hŷn a ystyriwyd yn y dadansoddiad hwn o'r cyflenwad presennol yw tai ymddeol/cysgodol, tai dynodedig yn ôl oedran a thai gofal ychwanegol. Rhoddir diffiniadau o'r rhain yn y tabl isod.


Tabl 7. Diffiniadau o fathau o dai ar gyfer pobl hŷn

Math o dai ar gyfer pobl hŷn	Diffiniad
Tai ymddeol/cysgodol	Mae'r cartrefi hyn fel arfer yn cynnig llety hunangynhwysol i bobl dros oedran penodol; fel arfer 55+ neu 60+. Fel rheol, cânt eu cefnogi gan reolwr cynllun rhan-amser neu sy'n ymweld, ynghyd â chymorth brys 24 awr drwy larwm. Yn aml, ceir ardaloedd cymunedol, ac mae rhai yn cynnig gweithgareddau. Yn y sector cymdeithasol, cynigir y rhan fwyaf o'r llety ar sail angen gan gynghorau lleol neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ar ffurf rhent cymdeithasol neu rent fforddiadwy. Yn y sector preifat, caiff y llety ei adeiladu fel arfer gan ddatblygwyr preifat i'w werthu ar y farchnad (ac weithiau i'w rentu ar y farchnad). Unwaith y bydd yr holl eiddo wedi'u gwerthu, weithiau caiff y cynllun ei redeg gan gwmni rheoli ar wahân sy'n cyflogi rheolwr cynllun i drefnu gwaith cynnal a chadw a gwasanaethau eraill.
Tai dynodedig yn ôl oedran	Mae'r cartrefi hyn fel arfer yn cynnig llety hunangynhwysol i bobl dros oedran penodol; fel arfer 55+ neu 60+. Yn wahanol i dai ymddeol/cysgodol, nid ydynt yn cael eu cefnogi gan reolwr cynllun, ond mae'n bosibl bod ganddynt fynediad at gymorth brys 24 awr drwy larwm. Efallai y bydd ardaloedd cymunedol ar gael. Yn y sector cymdeithasol, mae'n bosibl bod rhai tai dynodedig yn ôl oedran wedi bod yn dai ymddeol/cysgodol ar un adeg, ond eu bod wedi'u dad-ddynodi ers hynny.
Tai gofal ychwanegol	Cyfeirir ato'n aml fel 'tai gofal ychwanegol' pan gaiff ei ddarparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol (ar gyfer rhent fforddiadwy a chydberchnogaeth), ac fel 'byw â chymorth', 'pentrefi ymddeol' neu 'gymunedau ymddeol integredig' gan ddarparwyr y sector preifat ar gyfer gwerthu ar y farchnad (ac weithiau ar gyfer rhentu ar y farchnad). Mae tai gofal ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys rhai ag anghenion gofal a chymorth uwch. Mae preswylwyr yn byw mewn cartrefi hunangynhwysol. Fel arfer, mae ganddynt fwy o gyfleusterau cymunedol ac maent yn cynnig mynediad at wasanaethau gofal 24/7 ar y safle, gan gynnwys cymorth gyda pharatoi prydau bwyd, ymolchi a dyletswyddau bob dydd eraill (gall rhai cynlluniau tai gofal ychwanegol preifat gynnig mynediad at wasanaethau gofal yn hytrach na staff gofal 24/7 ar y safle). Yn

Math o dai ar gyfer pobl hŷn	Diffiniad
	aml, mae'r ddarpariaeth yn cynnwys system larwm 24/7, presenoldeb rheolwr cynllun a thîm o staff cymorth.

- 4.25 Ar hyn o bryd, mae 1,147 o gartrefi mewn tai ymddeol/cysgodol ar draws 49 o gynlluniau tai ymddeol/cysgodol. Mae'r mwyafrif helaeth o'r unedau tai ymddeol/cysgodol ar gael ar ffurf rhent cymdeithasol/fforddiadwy.
- 4.26 Ar hyn o bryd, mae 2,389 o gartrefi mewn tai dynodedig yn ôl oedran a 77 o gartrefi mewn tai gofal ychwanegol ar draws 2 gynllun tai gofal ychwanegol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Darperir pob uned tai gofal ychwanegol ar ffurf rhent cymdeithasol/fforddiadwy.
- 4.27 Rhoddir manylion y cyflenwad o lety ar gyfer pobl hŷn yn yr Atodiad (Tabl 19 a Thabl 20).

Ffigur 6. Nifer yr unedau tai ar gyfer pobl hŷn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Ffynhonnell: EAC (2019), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025), Aelwyd Housing (2025), Linc Cymru (2025), Pobl (2025), United Welsh (2025), Wales and West Housing (2025)

- 4.28 Cyfrifir cyfradd tai ymddeol/cysgodol, tai dynodedig yn ôl oedran a thai gofal ychwanegol er mwyn dangos nifer y cartrefi (unedau) fesul 1,000 o bobl. Ar gyfer tai ymddeol/cysgodol a thai dynodedig yn ôl oedran, defnyddir y boblogaeth 65+. Ar gyfer tai gofal ychwanegol, defnyddir y boblogaeth 75+.
- 4.29 Defnyddir hyn fel modd o gymharu â chyfraddau cenedlaethol cyfartalog ar gyfer y cyflenwad o dai ar gyfer pobl hŷn. Mae'r tabl isod yn dangos bod gan Fwrdeistref Sirol Caerffili gyfradd is o dai ymddeol/cysgodol a thai gofal ychwanegol o'i chymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru.
- 4.30 Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili gyfradd sylweddol uwch o dai dynodedig yn ôl oedran o'i chymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai fod rhywfaint o anghywirdeb yn nata cyfartaledd cenedlaethol Cymru, gan nad yw'r data cyflenwad hwn wedi'i groesgyfeirio â data Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn yr un modd â data cyflenwad CBSC.

Tabl 8. Cyfradd tai ymddeol/cysgodol, tai dynodedig yn ôl oedran a thai gofal ychwanegol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili o'i chymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru

Ardal	Math o dai	Unedau	Poblogaeth	Cyfradd
Bwrdeistref Sirol Caerffili	Tai ymddeol/cysgodol	1,147	37,295	31
	Tai dynodedig yn ôl oedran	2,389	37,295	64
	Tai gofal ychwanegol	77	17,822	4
Cymru	Tai ymddeol/cysgodol	23,989	698,560	34
	Tai dynodedig yn ôl oedran	6,074	698,560	9
	Tai gofal ychwanegol	2,891	344,396	8

Ffynhonnell: EAC (2019) a'r HLIN

Noder: mae 'cyfradd' yn dynodi'r gyfradd gyffredinol – nifer y cartrefi (unedau) fesul 1,000 o'r boblogaeth 65+ oed yn achos tai ymddeol/cysgodol a thai dynodedig yn ôl oedran, ac fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed yn achos tai gofal ychwanegol

Rhagor o fanylion a data demograffig y bobl sy'n byw yn y cyflenwad presennol o lety ar gyfer pobl hŷn ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Tai ymddeol/cysgodol

- 4.31 Mae'r dystiolaeth ynghylch y cyflenwad presennol o dai ymddeol/cysgodol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos mai'r Cyngor yw darparwr mwyaf tai ymddeol/cysgodol ledled y fwrdeistref.
- 4.32 Mae'r oedran cyfartalog ar draws y cyflenwad o dai ymddeol/cysgodol yn amrywio o 68 i 80, sy'n dangos rhywfaint o amrywiad yn oedranau'r bobl sy'n byw mewn tai ymddeol/cysgodol. Mae'r dystiolaeth ansoddol gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dangos bod proffil y bobl sy'n byw mewn tai ymddeol/cysgodol yn dod yn fwyfwy amrywiol. Mae proffil tenantiaid wedi newid yn sylweddol o'r ddelwedd o drigolion hŷn 'traddodiadol', ac mae cynlluniau bellach yn cynnwys pobl iau, dynion fel arfer, weithiau ag anghenion cymorth cymhleth (iechyd meddwl, dibyniaeth, materion ymddygiadol).
- 4.33 Mae'r data'n dangos bod cyfran fawr o'r bobl mewn tai ymddeol/cysgodol CBSC, Wales and West Housing ac United Welsh yn cael Budd-dal Tai, tra bod lleiafrif o breswylwyr Linc Cymru yn derbyn Budd-dal Tai.
- 4.34 Mae hyd cyfartalog yr arhosiad mewn tai ymddeol/cysgodol oddeutu 8 mlynedd.
- 4.35 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol yn dangos bod llawer o'r tai ymddeol/cysgodol presennol yn adeiladau hŷn â dyluniadau sydd wedi dyddio, sy'n eu gwneud yn llai deniadol i ddarpar denantiaid ac yn anaddas i rai preswylwyr ag anghenion hygyrchedd.

Tabl 9. Manylion cryno a data demograffig cwsmeriaid mewn tai ymddeol/cysgodol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Nifer yr unedau	Oedran cyfartalog	Canran y preswylwyr sy'n derbyn Budd-dal Tai	Hyd cyfartalog yr arhosiad (blynedd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	842*	76	70%	7
Linc Cymru	92	71	28%	-
United Welsh	91	68	54%	7
Aelwyd Housing	0	-	-	-
Pobl	14	80	-	10

Wales and West Housing	108	69	74%	8.06
Cyfanswm	1,147	73	57%	8

Ffynhonnell: EAC (2019), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025), Aelwyd Housing (2025), Linc Cymru (2025), Pobl (2025), United Welsh (2025), Wales and West Housing (2025)
* Allan o 842 o unedau, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 61 uned wag ar hyn o bryd.

Tai dynodedig yn ôl oedran

- 4.36 Mae’r dystiolaeth ynghylch y cyflenwad presennol o dai dynodedig yn ôl oedran ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos bod gan CBSC swm sylweddol o dai dynodedig yn ôl oedran o’i gymharu â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill yn yr ardal.
- 4.37 Tynnodd y dystiolaeth o’r ymchwil ansoddol sylw at y ffaith bod CBSC yn dal cyfran mor fawr o dai dynodedig yn ôl oedran am resymau hanesyddol. Mae cydnabyddiaeth eang ymhlith staff CBSC nad yw cyfran sylweddol o’r stoc dai dynodedig yn ôl oedran yn addas i bobl hŷn, yn enwedig o ran hygyrchedd yr adeiladau.
- 4.38 Mae’r Cyngor wrthi’n adolygu ei stoc dai dynodedig yn ôl oedran, gyda’r nod o ailddynodi eiddo nad ydynt yn addas i bobl hŷn yn ôl yn dai anghenion cyffredinol, ac o bosibl ddynodi rhywfaint o stoc anghenion cyffredinol fel stoc sy’n addas yn ôl oedran os yw’n fwy priodol. Mae arolwg cynhwysfawr o gyflwr y stoc a hygyrchedd yn mynd rhagddo er mwyn asesu’r holl eiddo a llywio penderfyniadau ynghylch pa rai ddylai barhau i fod yn rhai dynodedig yn ôl oedran a pha rai ddylai gael eu hailddynodi.
- 4.39 Mae oedran cyfartalog y bobl sy’n byw mewn tai dynodedig yn ôl oedran ychydig yn iau nag mewn tai cysgodol, sef 71 oed.

Tabl 10. Manylion cryno a data demograffig cwsmeriaid mewn tai dynodedig yn ôl oedran ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Nifer yr unedau	Oedran cyfartalog	Canran y preswylwyr sy’n derbyn Budd-dal Tai	Hyd cyfartalog yr arhosiad (blynnyddoedd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	2,275*	73	63%	9
Linc Cymru	0	-	-	-
United Welsh	98	68	38%	9
Aelwyd Housing	16	72	50%	-
Pobl	0	-	-	-
Wales and West Housing	0	-	-	-
Total	2,389	71	50%	9

Ffynhonnell: EAC (2019), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025), Aelwyd Housing (2025), Linc Cymru (2025), Pobl (2025), United Welsh (2025), Wales and West Housing (2025)
* Allan o 2,275 o unedau, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 213 uned wag ar hyn o bryd.

Tai gofal ychwanegol

- 4.40 Mae’r dystiolaeth ynghylch y cyflenwad presennol o dai gofal ychwanegol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn dangos mai dim ond dau Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy’n darparu tai gofal ychwanegol yn y fwrdeistref.
- 4.41 Mae’r oedran cyfartalog mewn tai gofal ychwanegol yn 78, sydd yn uwch na’r oedran cyfartalog mewn tai ymddeol/cysgodol (73) a thai dynodedig yn ôl oedran (71). Mae hyn yn dangos bod tai

gofal ychwanegol yn fwy tebygol o gartrefu carfan ‘hŷn’ o bobl hŷn ag anghenion gofal/cymorth uwch.

- 4.42 Mae hyd cyfartalog yr arhosiad mewn tai gofal ychwanegol yn 7 mlynedd, sy’n fyrrach nag mewn tai ymddeol/cysgodol (8 mlynedd) a thai dynodedig yn ôl oedran (9 mlynedd). Mae hyn yn dangos bod y math hwn o dai yn tueddu i gael ei ddefnyddio ar gyfer unigolion ag anghenion gofal uwch neu fwy cymhleth fel dewis amgen i gartref gofal.

Tabl 11. Data demograffig cryno cwsmeriaid mewn tai gofal ychwanegol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Nifer yr unedau	Oedran cyfartalog	Canran y preswylwyr sy’n derbyn Budd-dal Tai	Hyd cyfartalog yr arhosiad (blynnyddoedd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	0	-	-	-
Linc Cymru	0	-	-	-
United Welsh	49	75	54%	3.5
Aelwyd Housing	0	-	-	-
Pobl	28	80	79%	10
Wales and West Housing	0	-	-	-
Total	77	78	67%	7

Ffynhonnell: EAC (2019), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025), Aelwyd Housing (2025), Linc Cymru (2025), Pobl (2025), United Welsh (2025), Wales and West Housing (2025)

Tai anghenion cyffredinol a feddiannir gan breswylwyr 55+

- 4.43 Mae’r dystiolaeth o ddata Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Caerffili Homes yng Nghaerffili yn tynnu sylw at y ffaith bod bron i 5,000 o unedau yn lletya rhywun dros 55 oed sy’n byw mewn llety anghenion cyffredinol, gydag oedran cyfartalog o 67.
- 4.44 Mae hyn yn dangos bod nifer sylweddol o bobl hŷn mewn tai anghenion cyffredinol a allai fod angen cymorth neu lety amgen arnynt os na fydd eu cartref yn diwallu eu hanghenion yn y dyfodol.

Tabl 12. Manylion cryno a data demograffig unedau anghenion cyffredinol sy’n lletya rhywun dros 55 oed ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Nifer yr unedau	Oedran cyfartalog	Canran y preswylwyr sy’n derbyn Budd-dal Tai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	2,876*	67	59%
Tai anghenion cyffredinol	2721	67	59%
Llety i bobl anabl	17	66	53%
Person sengl	138	63	68%
Linc Cymru	1,274	67	-
United Welsh	901	66	35%
Aelwyd Housing	0	-	-
Pobl	0	-	-
Wales and West Housing	40	64	61%
Total	5,091	67	63%

Ffynhonnell: EAC (2019), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025), Aelwyd Housing (2025), Linc Cymru (2025), Pobl (2025), United Welsh (2025), Wales and West Housing (2025)

* Alltan o 2,876 o unedau llety anghenion cyffredinol yn stoc Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae 17 wedi'u dynodi ar gyfer llety i bobl anabl, a 138 ar gyfer meddiannaeth gan un person yn unig.


Addasiadau i'r cartref ymhlith aelwydydd 55+

- 4.45 Mae'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) yn grant cyfalaf sy'n seiliedig ar brawf modd ac sy'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, fel arfer o'u Cronfa Gyfalaf Gyffredinol, gyda chymorth ychwanegol o ddyraniadau cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd i ddarparu DFGs os caiff cais cymwys ei gymeradwyo.
- 4.46 Mae gan CBSC ddata ar nifer yr addasiadau a ddarparwyd mewn llety preifat yn y fwrdeistref a ariannwyd gan y DFG. Mae gan CBSC hefyd ddata ar nifer yr addasiadau a ddarparwyd mewn eiddo Caerffili Homes a ariannwyd drwy'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA). Nid oes gan CBSC ddata ar nifer yr addasiadau a ddarparwyd mewn stoc Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), lle caiff y rhain eu hariannu drwy HRA yr LCC.
- 4.47 Mae'r data ar addasiadau gan CBSC wedi cael ei ddadansoddi er mwyn dangos y tueddiadau yn nifer a math yr addasiadau a ddarparwyd ymhlith aelwydydd 55+ mewn cartrefi preifat a ariannwyd gan DFG ac mewn stoc Caerffili Homes a ariannwyd gan yr HRA. Gan nad yw'r data ar addasiadau a ddarparwyd gan LCCs eraill wedi'i gynnwys, mae hyn yn debygol o danamcangyfrif y galw am addasiadau yn y dyfodol.

Nifer presennol ac amcangyfrifedig yr addasiadau i'r cartref ymhlith aelwydydd 55+

- 4.48 Rhwng 2022/23 a 2025/26 (hyd at fis Mai), darparwyd cyfanswm o 725 o addasiadau ymhlith aelwydydd 55+ ar draws tai preifat a stoc Caerphilly Homes yn y fwrdeistref. Cynyddodd cyfanswm nifer yr addasiadau a ddarparwyd tua 17% rhwng 2022/23 a 2023/24, gan godi o 192 i 225, sy'n debygol o adlewyrchu adferiad ôl-bandemig neu ôl-groniad dros dro yn y galw. Cynyddodd hyn ymhellach tua 9% rhwng 2023/24 a 2024/25, o 225 i 246.
- 4.49 Mae nifer yr addasiadau a ddarparwyd yn 2025/26 ar hyn o bryd yn 62, gan adlewyrchu data rhan-flwyddyn hyd at fis Mai, ac felly mae wedi'i heithrio o'r dadansoddiad o dwf yn nifer yr addasiadau a ddarparwyd.
- 4.50 Wrth gymharu nifer yr addasiadau a ddarparwyd ymhlith aelwydydd 55+ ar draws stoc dai Caerphilly Homes ac aelwydydd yn y sector preifat, mae'r data'n dangos bod nifer fwy o addasiadau wedi'u darparu yn stoc dai Caerphilly Homes. Fodd bynnag, bu cynnydd llawer mwy sylweddol yn nifer yr addasiadau a ddarparwyd mewn stoc dai preifat o gymharu â stoc dai Caerphilly Homes rhwng 2022/23 a 2024/25.
- 4.51 Yn stoc dai Caerphilly Homes, cwblhawyd 406 o addasiadau dros y cyfnod. Cynyddodd y rhain o 109 yn 2022/23 i 124 yn 2023/24, sef cynnydd o 13.8%, ac yna i 137 yn 2024/25, sef cynnydd pellach o 10.5%. Mae'r ffigur ar gyfer 2025/26 ar hyn o bryd yn 36, gan adlewyrchu data hyd at fis Mai yn unig, ac mae'n debygol o gynyddu.
- 4.52 Yn y sector preifat, darparwyd 319 o addasiadau rhwng 2022/23 a 2025/26 (hyd at fis Mai). Cynyddodd nifer yr addasiadau o 83 yn 2022/23 i 101 yn 2023/24, sef cynnydd o 22%, ac yna cododd eto i 109 yn 2024/25, sef cynnydd o 8%. Mae'r ffigur ar gyfer 2025/26 ar hyn o bryd yn 26, unwaith eto yn seiliedig ar adrodd data rhan-flwyddyn.


Ffigur 7. Nifer yr addasiadau a ddarparwyd ymhlith aelwydydd 55+ o 2022/23 i 2024/25 ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025)

- 4.53 Mae dadansoddiad o'r addasiadau a ddarparwyd yn stoc Caerphilly Homes dros y tair blynedd ariannol rhwng 2022/23 a 2024/25 yn dangos tuedd glir ar i fyny yn y galw am addasiadau i'r cartref, sy'n cynrychioli twf blynyddol cyfartalog o tua 12%. Mae'r duedd hon yn awgrymu galw cynyddol am ymyriadau sy'n cefnogi byw'n annibynnol i breswylwyr hŷn ac anabl, yn enwedig yn y sector preifat.
- 4.54 Gan dybio bod y duedd hanesyddol yn parhau, amcangyfrifwyd y galw yn y dyfodol am addasiadau drwy gymhwyso'r twf blynyddol cyfartalog o 12% at y data sylfaenol. Ar sail y dull hwn, amcangyfrifir y bydd cyfanswm nifer yr addasiadau yn cyrraedd 154 yn 2025. Erbyn 2030, rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 237, ac erbyn 2035 gallai'r cyfanswm fod tua 320.
- 4.55 Mae dadansoddiad o'r addasiadau a ddarparwyd yn y sector preifat drwy DFG dros y tair blynedd ariannol rhwng 2022/23 a 2024/25 yn dangos tuedd glir ar i fyny yn y galw am addasiadau i'r cartref. Cynyddodd nifer yr addasiadau yn y sector preifat a ariannwyd gan DFG ym Mwrdeistref Sirol Caerffili o 83 yn 2022/23 i 101 yn 2023/24, sef cynnydd o 22%, sy'n debygol o adlewyrchu adferiad ôl-bandemig neu ôl-groniad dros dro yn y galw. Dilynwyd hyn gan gynnydd mwy cymedrol a sefydlog i 109 yn 2024/25, sef twf o 8%. O ystyried yr anwadalrwydd yn y flwyddyn gyntaf, mae'r amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar y duedd fwy diweddar a mwy sefydlog. Er mwyn cefnogi cynllunio realistig, defnyddir cyfradd twf blynyddol gyfartalog o 15% i amcangyfrif y galw yn y dyfodol.
- 4.56 Gan dybio bod y duedd hanesyddol yn parhau, amcangyfrifwyd y galw yn y dyfodol am addasiadau drwy gymhwyso'r twf blynyddol cyfartalog o 15% at y data sylfaenol. Ar sail y dull hwn, amcangyfrifir y bydd cyfanswm nifer yr addasiadau mewn tai preifat a ariannwyd gan DFG yn cyrraedd 125 yn 2025. Erbyn 2030, rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 206, ac erbyn 2035 gallai'r cyfanswm fod tua 286.

Ffigur 8. Nifer amcangyfrifedig yr addasiadau y gellir eu darparu ymhlith aelwydydd 55+ hyd at 2035/36 ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025), HLIN (2025)

Tueddiadau yn y mathau o addasiadau i'r cartref sydd eu hangen

- 4.57 Mae'r dystiolaeth o'r data ar addasiadau i'r cartref yn dangos mai addasiadau i gawodydd ac ystafelloedd ymolchi oedd yr addasiad mwyaf cyffredin a ddarparwyd ymhlith aelwydydd 55+ yn stoc Caerphilly Homes (HRA) ac mewn tai preifat (DFG). Yn stoc dai Caerphilly Homes, maent yn cyfrif am 56% o'r addasiadau a ddarparwyd rhwng 2022/23 a 2025/26, ac am 44% mewn tai preifat dros y cyfnod 2022 i 2025.
- 4.58 Cynyddodd nifer yr addasiadau i gawodydd ac ystafelloedd ymolchi yn y ddau sector, gan godi 181% mewn tai preifat rhwng 2022 a 2024, a 27% yn Caerphilly Homes rhwng 2022/23 a 2024/25. Lifftau grisiau oedd yr ail fath mwyaf cyffredin o addasiad, gan gynrychioli 28% o'r addasiadau mewn tai preifat a 25% o'r addasiadau yn Caerphilly Homes. Arhosodd y ddarpariaeth yn gymharol sefydlog ar draws blyneddau ariannol Caerphilly Homes, ond roedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn mewn tai preifat.
- 4.59 Roedd addasiadau mynediad a chyrraedd, gan gynnwys rampiau allanol, yn cyfrif am 13% o'r addasiadau yn Caerphilly Homes a 6% mewn tai preifat, gyda'r niferoedd yn amrywio'n flynyddol yn y ddwy set ddata. Cynyddodd nifer yr addasiadau mynediad a chyrraedd yn y ddau sector dros y cyfnod cymharol. Mewn tai preifat (DFG), cododd y ddarpariaeth o 3 addasiad yn 2022 i 10 yn 2023 (sef cynnydd o 233%), cyn gostwng wedyn. Yn stoc Caerphilly Homes (HRA), cynyddodd y ddarpariaeth o 14 addasiad yn 2022/23 i 24 yn 2024/25, gan gynrychioli cynnydd cyffredinol o 71% dros y cyfnod hwn. Gwaith mynediad cadeiriau olwyn a symudedd, a thoiledau golchi-a-sychu, oedd y mathau lleiaf cyffredin a ddarparwyd ym mhob math o ddeiliadaeth.
- 4.60 Dylid nodi hefyd fod rhai ceisiadau'n cynnwys mwy nag un math o addasiad — er enghraifft, ceisiadau am lifft grisiau ac addasiad i gawod gyda'i gilydd — gan amlygu anghenion symudedd sylweddol ac yn aml gymhleth trigolion.

4.61 Mae'r tablau isod yn dangos y mathau o addasiadau a ddarparwyd ymhlith aelwydydd 55+ yn Caerphilly Homes (HRA) ac mewn stoc dai preifat (DFG).

Tabl 13. Mathau o addasiadau a ddarparwyd ymhlith aelwydydd 55+ yn Caerphilly Homes (HRA) rhwng 2022/23 a 2025/26

Categori	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	Cyfanswm
Mynediad i'r cartref	14	10	24	3	51
Addasiadau mewnol a theclynnau codi	6	12	9	1	28
Addasiadau i gawodydd ac ystafelloedd ymolchi	56	67	71	18	212
Lifftiau grisiau	30	29	31	13	103
Mynediad i gadeiriau olwyn a symudedd	1	3	0	1	5
Toiled golchi a sychu	2	3	2	0	7
Cyfanswm cyffredinol	109	124	137	36	406

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025)

Tabl 14. Mathau o addasiadau a ddarparwyd ymhlith aelwydydd 55+ mewn stoc dai preifat (DFG) rhwng 2022 a 20

Categori	2022	2023	2024	2025	Cyfanswm
Mynediad i'r cartref	3	10	3	2	18
Addasiadau mewnol a theclynnau codi	11	7	7	3	28
Addasiadau i gawodydd ac ystafelloedd ymolchi	27	45	76	13	161
Lifftiau grisiau	13	39	21	8	81
Mynediad i gadeiriau olwyn a symudedd	0	1	2	0	3
Toiled golchi a sychu	0	0	2	0	2
Cyfanswm cyffredinol	54	102	111	26	293

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025)

Noder: mae cyfansymiau'r DFG preifat yn defnyddio data blynyddoedd calendr (2022, 2023, 2024, 2025), tra bod cyfansymiau HRA Caerffili Homes yn defnyddio data blynyddoedd ariannol (2022/23, 2023/24, 2024/25, 2025/26). O ganlyniad, nid yw'r cyfansymiau'n uniongyrchol gymaradwy, a byddant yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau.

Crynodeb o'r dystiolaeth ddemograffig a'r cyflenwad presennol: goblygiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- 4.62 Mae poblogaeth hŷn y fwrdeistref yn tyfu. Erbyn 2040, bydd y boblogaeth 70+ yng Nghaerffili yn cynyddu 25% a'r boblogaeth 80+ yn cynyddu 37%, gan greu galw llawer uwch am dai a chymorth addas.
- 4.63 Mae 75% o bobl dros 50 oed yn berchen-feddianwyr, ond mae carfanau iau (45–49) yn llai tebygol o fod yn berchen-feddianwyr, sy'n golygu y gall pobl hŷn y dyfodol ddibynnu'n fwy ar dai rhent.
- 4.64 Mae tua 38% o gymunedau'r fwrdeistref o fewn y 30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda chrynodiadau yng Ngogledd Cwm Rhymni a Basn Caerffili.
- 4.65 Mae bron i hanner yr aelwydydd hŷn un person yn byw mewn cartrefi tair ystafell wely, sy'n awgrymu bod lle i gefnogi pobl i symud os oes dewisiadau deniadol ar gael.

- 4.66 Mae disgwyliad oes yng Nghaerffili ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, gyda thua 14 mlynedd o fywyd diweddarach yn aml yn cael eu byw mewn iechyd gwael. Rhagwelir y bydd nifer y diagnosisau dementia ymhlith pobl dros 65 oed yn cynyddu 70% erbyn 2025. Mae hyn yn awgrymu bod angen i opsiynau tai a chymorth gefnogi pobl sydd mewn iechyd gwael.
- 4.67 Mae gan y fwrdeistref 1,147 o unedau cysgodol/ymddeol, 2,389 o gartrefi dynodedig yn ôl oedran, a dim ond 77 o unedau gofal ychwanegol. Mae cyfraddau tai cysgodol a thai gofal ychwanegol yn is na chyfartaledd Cymru, ond mae tai dynodedig yn ôl oedran yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd.
- 4.68 Mae llawer o'r tai cysgodol/dynodedig yn ôl oedran yn hen, gyda phroblemau hygrychedd a nifer uchel o eiddo gwag. Mae darpariaeth gofal ychwanegol yn gyfyngedig iawn ac yn cael ei darparu'n bennaf gan gymdeithasau tai.
- 4.69 Mae'r galw am addasiadau yn cynyddu, gyda chynnydd o 40% mewn grantiau rhwng 2022/23 a 2023/24. Addasiadau i ystafelloedd ymolchi a lifftiau grisiau yw'r rhai mwyaf cyffredin. Mae'r amcanestyniadau'n awgrymu twf cryf yn y galw hyd at 2035.
- 4.70 Goblygiadau hyn i'r Cyngor yw:
- Mae angen cynllunio'n strategol ar gyfer y twf cyflym yn y carfanau 70+ ac 80+, sy'n debygol o gynyddu'r angen am dai sy'n addas i anghenion pobl hŷn, mewn adeiladau newydd ac mewn cartrefi presennol fel ei gilydd.
 - Mae potensial i ehangu'r ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, yn ogystal ag adolygu'r ddarpariaeth o stoc cysgodol/dynodedig yn ôl oedran, a allai gynnwys buddsoddi mewn dewisiadau newydd a modern.
 - Mae llawer o aelwydydd hŷn un person yn dal i fyw mewn cartrefi o faint addas i deuluoedd. Gallai cefnogi pobl i symud yn hwyrach mewn bywyd ryddhau cartrefi o'r fath, ond dim ond os bydd cartrefi deniadol, fforddiadwy ac mewn lleoliadau da ar gael.
 - Mae poblogaethau hŷn y dyfodol yn llai tebygol o fod yn berchen-feddianwyr, gan gynyddu'r ddibyniaeth ar dai rhent cymdeithasol a phreifat. Bydd angen i CBSC gryfhau'r ddarpariaeth o opsiynau tai fforddiadwy i bobl yn hwyrach mewn bywyd.
 - Mae cynnydd mewn dementia a chyfnodau hir o iechyd gwael yn golygu bod alinio tai, iechyd a gofal yn agosach yn hanfodol. Gellid ehangu tai gofal ychwanegol i leihau'r pwysau ar ofal preswyl.
 - Gyda'r galw am addasiadau yn cynyddu, dylai CBSC gynyddu'r capasiti ar gyfer addasiadau a datblygu gwasanaethau cyngor tai rhagweithiol i gadw pobl yn ddiogel gartref am gyfnod hirach.

5. Ymchwil gynradd

- 5.01 Mae'r adran hon o'r adroddiad ymchwil yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r ymchwil gynradd a gynhaliwyd gyda phobl hŷn a rhanddeiliaid eraill ynghylch pa mor debygol yw pobl hŷn o symud yng Nghaerffili, dewisiadau tai pobl hŷn, y ffactorau sy'n annog pobl i symud, a'r rhwystrau i symud a sut y gellir eu goresgyn.

Methodoleg yr ymchwil gynradd

- 5.02 Defnyddiwyd dull cymysg o gynnal yr ymchwil gynradd gyda phobl hŷn a rhanddeiliaid eraill, gan ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol. Y bwriad oedd deall safbwyntiau pobl hŷn a rhanddeiliaid eraill ar symud yn hwyrach mewn bywyd, a pha mor debygol yw pobl o symud yng Nghaerffili.
- 5.03 Roedd yr ymchwil gynradd gyda phobl hŷn â phrofiad bywyd yn cynnwys cynnal arolwg (ar-lein ac ar bapur), yn ogystal ag ymchwil ansoddol wyneb yn wyneb drwy grwpiau ffocws a chyfweiliadau.
- 5.04 Cafodd yr arolwg ei lunio mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar sail y briff gan CBSC. Defnyddiodd y Housing LIN strwythur a chwestiynau o arolygon blaenorol a gynhaliwyd gyda phobl hŷn ledled y DU er mwyn sicrhau y byddai'r cwestiynau'n cael eu deall yn eang gan ymatebwyr.
- 5.05 Hysbysebwyd yr arolwg ar-lein drwy dudalennau gwe'r Cyngor a'i rannu ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfathrebu wedi'i dargedu at grwpiau penodol lle bo angen. Bu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill a sefydliadau cymunedol hefyd yn hyrwyddo'r arolwg ar-lein.
- 5.06 Dosbarthwyd tua 500 o arolygon papur ac amlenni dychwelyd rhagdaledig i lyfrgelloedd lleol a grwpiau cymunedol ledled y fwrdeistref, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â rhaglen Caerffili sy'n gyfeillgar i oedran. Dosbarthodd Caerphilly Cares arolygon papur hefyd a chefnogi pobl i gwblhau fersiynau ar-lein o'r arolwg.
- 5.07 Lluniwyd canllawiau pwnc ar sail briff CBSC a'u defnyddio i lywio'r ymchwil ansoddol gyda phobl â phrofiad bywyd a rhanddeiliaid proffesiynol. Cafodd y rhain hefyd eu hadolygu gyda swyddogion CBSC i sicrhau eu bod yn briodol.
- 5.08 Ymgysylltodd yr ymchwil â thua 100 o bobl â phrofiad bywyd a thua 20 o randdeiliaid proffesiynol drwy gymysgedd o grwpiau ffocws a chyfweiliadau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r tabl isod yn dangos yr ystod o randdeiliaid a gymerodd ran yn yr ymchwil hon.
- 5.09 Cafodd cyfranogwyr ymchwil â phrofiad bywyd daleb Love2Shop gwerth £10 fel 'diolch' am eu hamser.

Tabl 15. Cyfranogwyr yr ymchwil ansoddol

Grŵp	Nifer y bobl	Dull
Tenantiaid Tai Cysgodol CBSC - Gwyddon Court and The Ranks - Waunrhydd - Grove 2	25	Wyneb yn wyneb
Tenantiaid Anghenion Cyffredinol CBSC	10	Wyneb yn wyneb
Fforwm 50+ Caerffili yn Moose Hall, Coed Duon	7	Wyneb yn wyneb
Elderberries yng Nghanolfan Glowyr Caerffili	10	Wyneb yn wyneb
Men's Shed yng Nghanolfan Glowyr Caerffili	8	Wyneb yn wyneb
Grŵp Dinasyddion Hŷn Woodfield Side	30	Wyneb yn wyneb
Bore coffi yng Nghanolfan Gymunedol Cefn Fforest	10	Wyneb yn wyneb
Grŵp ffocws gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig: - United Welsh - Linc Cymru - Wales & West Housing	3	Ar-lein
Grŵp ffocws a chyfweiliad gyda staff CBSC	12	Ar-lein
Cyfweiliad gyda staff Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)	1	Wyneb yn wyneb
Cyfweiliad gyda Chymdeithas Islamaidd Imaan Blaenau Gwent	1	Ar-lein

5.10 Bu grŵp llywio, yn cynnwys cydweithwyr mewnol a chynrychiolaeth o United Welsh, yn cefnogi'r ymchwil gynradd drwy gyfarfodydd pythefnosol.


Data demograffig cyfranogwyr yr ymchwil sydd â phrofiad bywyd

Demograffeg ymatebwyr yr arolwg

Oedran

- 5.11 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos dosbarthiad cymharol gytbwys ymhlith pobl 50+ oed, er bod rhywfaint o ogwydd tuag at bobl hŷn 'iau'. Mae ymatebwyr rhwng 50 a 65 oed yn cynrychioli'r gyfran fwyaf, sef 44%, ac yna'r rhai rhwng 65 ac 80 oed, sy'n cyfrif am 40% o'r cyfranogwyr. Mae unigolion 80 oed a throsodd yn cyfrif am 16%, sydd, er ei bod yn gyfran lai, yn dal i gynrychioli rhan ystyrlon o'r sampl.
- 5.12 Ar y cyfan, mae'r data'n awgrymu cymysgedd rhesymol o oeddrannau, yn enwedig o fewn yr ystod 50–80, sy'n cyfrif gyda'i gilydd am 84% o'r ymatebwyr. Fodd bynnag, mae'r gynrychiolaeth yn lleihau'n sylweddol ymhlith y rhai dros 80 oed, sy'n dangos bod y bobl hŷn 'hŷn' wedi'u tangynrychioli o gymharu â'r bobl hŷn 'iau'.


Ffigur 9. Demograffeg oedran ymatebwyr yr arolwg



Rhyw

- 5.13 Mae mwyafrif (75%) ymatebwyr yr arolwg yn fenywod. Yn gyffredinol, mae arolygon yn tueddu i gael mwy o ymatebion gan fenywod. Ceisiodd yr ymchwiler ansoddol ymgysylltu â grwpiau cymunedol dynion yn unig er mwyn gwrthbwysu'r nifer uwch o ymatebion gan fenywod i'r arolwg.


Ffigur 10. Rhyw ymatebwyr yr arolwg



Ethnigrwydd

- 5.14 Mae mwyafrif helaeth ymatebwyr yr arolwg yn wyn. Mae hyn yn adlewyrchu cyfansoddiad ethnig Bwrdeistref Sirol Caerffili.


Ffigur 11. Ethnigrwydd ymatebwyr yr arolwg



Iechyd

- 5.15 Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu hiechyd cyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gosod eu hunain yn y canol i'r pen cadarnhaol o'r raddfa. Ar y cyfan, mae mwyafrif y cyfranogwyr (77%) yn ystyried bod eu hiechyd yn dda iawn, yn dda neu'n weddol, gyda bron i hanner (43%) yn eu gosod eu hunain yn y categorïau da i dda iawn. Er bod lleiafrif amlwg (20%) yn nodi iechyd gwael (gwael neu wael iawn), mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gweld eu hiechyd mewn goleuni cadarnhaol, er bod cyfran sylweddol yn dweud eu bod mewn iechyd cymhedrol.

Ffigur 12. Iechyd hunanddisgrifedig cyfranogwyr yr arolwg




Math o gartref: tai ar gyfer pobl hŷn o'i gymharu â thai prif ffrwd

- 5.16 Nid yw mwyafrif (72%) ymatebwyr yr arolwg yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn (tai ymddeol/cysgodol neu dai gofal ychwanegol). Fodd bynnag, cafwyd cyfran sylweddol o

ymatebion hefyd gan bobl sy'n byw mewn tai ymddeol/cysgodol, sef cyfanswm o 141 o ymatebion. Mae hyn wedi'i ystyried yn y canlyniadau, ac mae safbwyntiau pobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn a thai prif ffrwd wedi'u dadansoddi ar wahân lle bo angen.


Ffigur 13. Canran yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn



Deiliadaeth

- 5.17 Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn byw mewn eiddo rhent cymdeithasol; nododd lleiafrif eu bod yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn sy'n berchen-feddiannaeth (mae'n werth nodi y gallai hyn fod wedi bod yn gamgymeriad, gan mai dim ond un cynllun sy'n eiddo i Pobl y credir ei fod yn cynnig eiddo ar brydles).
- 5.18 Ymhlith ymatebwyr yr arolwg nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn, mae'r mwyafrif yn berchen ar eu cartrefi eu hunain (66%), gyda'r rhan fwyaf yn berchen ar eu cartref yn llwyr (52%), o'i gymharu â'r rhai sydd â morgais (13%) neu sy'n berchen drwy gydberchnogaeth (1%). Mae 31% o ymatebwyr yr arolwg yn rhentu eu cartrefi, gyda bron i 20% yn rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol a 12% yn rhentu oddi wrth landlord preifat.


Ffigur 14. Deiliadaeth ymatebwyr yr arolwg, gan gymharu ymatebion pobl sy'n byw ac nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn



Cyfansoddiad yr aelwyd

- 5.19 Mae mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn byw ar eu pen eu hunain (83%), gyda lleiafrif yn byw gydag un person arall yn unig (14%).
- 5.20 Mae cyfansoddiad aelwydydd y bobl nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn fwy cymysg. Mae mwyafrif (68%) yr ymatebwyr i'r arolwg nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn byw gydag eraill, tra bod tua thraean yn byw ar eu pen eu hunain.


Ffigur 15. Cyfansoddiad yr aelwyd, gan gymharu ymatebion pobl sy'n byw ac nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn



Math o gartref

- 5.21 Ymhlith yr ymatebwyr sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn, mae'r mwyafrif yn byw mewn fflatiau (52%) a byngalos (44%). Nododd cyfran fechan iawn eu bod yn byw mewn tai (2%), stiwdios neu ystafelloedd gwely/sedd (1%), a mathau eraill o lety (1%).
- 5.22 Mewn cyferbyniad, mae'r ymatebwyr nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn byw'n bennaf mewn tai (83%), gyda llawer llai yn byw mewn byngalos (8%) neu fflatiau (7%). Ni nododd neb yn y grŵp hwn eu bod yn byw mewn llety stiwdio/ystafell wely-sedd.


Ffigur 16. Math o dai, gan gymharu ymatebion pobl sy'n byw ac nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn



Nifer yr ystafelloedd gwely

- 5.23 Ymhlith preswylwyr mewn llety ar gyfer pobl hŷn, mae'r mwyafrif yn byw mewn eiddo llai, gyda 67% yn byw mewn cartrefi un ystafell wely a 30% mewn cartrefi dwy ystafell wely. Dim ond cyfran fach (3%) sy'n byw mewn cartrefi tair ystafell wely, ac ni nododd bron neb fod ganddynt bedair ystafell wely neu fwy. Dywedodd 1% yn unig eu bod yn byw mewn stiwdio neu ystafell wely/sedd.
- 5.24 Mewn cyferbyniad, mae'r ymatebwyr nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn llawer mwy tebygol o feddiannu cartrefi mwy. Mae dros hanner (55%) yn byw mewn cartrefi tair ystafell wely, ac yna 22% mewn eiddo dwy ystafell wely a 18% mewn cartrefi â phedair ystafell wely neu fwy. Dim ond 5% sy'n byw mewn eiddo un ystafell wely, ac ni nododd yr un ymatebydd ei fod yn byw mewn stiwdio neu ystafell wely/sedd.

Ffigur 17. Nifer yr ystafelloedd gwely, gan gymharu ymatebion pobl sy'n byw ac nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn



Demograffeg cyfranogwyr yr ymchwil ansoddol

- 5.25 Ymgysylltodd yr ymchwil ansoddol â 100 o bobl â phrofiad bywyd ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- 5.26 Roedd cyfranogwyr yr ymchwil yn bennaf rhwng 50 a 100 oed, gyda'r mwyafrif yn y bandiau oedran hŷn. Mae menywod yn ffurfio cyfran fwy o gyfranogwyr yr ymchwil, yn enwedig mewn grwpiau fel Grŵp Dinasyddion Hŷn Woodfield Side ac Elderberries, er bod rhai grwpiau, megis y Men's Shed, yn cynnwys dynion yn bennaf.
- 5.27 Mae deiliadaeth tai cyfranogwyr yr ymchwil yn amrywio; mae rhai grwpiau'n cynnwys rhentwyr cymdeithasol yn unig (e.e. tenantiaid CBSC), mae eraill yn bennaf yn berchen-feddianwyr (e.e. y fforwm 50+ a'r Men's Shed), tra bod rhai'n cynnwys cymysgedd o'r ddau, megis Woodfield Side ac Elderberries.
- 5.28 Mae cyfranogwyr yr ymchwil ansoddol sy'n berchen-feddianwyr yn tueddu i fyw mewn eiddo mwy (3–4 ystafell wely) ac wedi byw ynddynt ers cyfnodau hir (20 mlynedd+).
- 5.29 Ar y cyfan, mae'r cyfranogwyr yn cynrychioli cymysgedd amrywiol o bobl hŷn o gefndiroedd tai cymdeithasol a pherchen-feddiannaeth, gyda menywod yn ffurfio'r grŵp demograffig mwyaf.

Tabl 16. Demograffeg yr ymchwil ansoddol

Grŵp	Nifer y bobl	Ystod oedran	Rhyw	Deiliadaeth
Tenantiaid Tai Cysgodol CBSC - Gwyddon Court and The Ranks - Waunrhydd - Grove 2	25	55-100	20 menyw 5 dyn	Rhent cymdeithasol yn unig, ac un rhentwr preifat mewn un sesiwn
Tenantiaid Anghenion Cyffredinol CBSC	10	55-75	7 menyw 3 dyn	Rhent cymdeithasol yn unig
Fforwm 50+ Caerffili yn Moose Hall, Coed Duon	7	50-80	4 menyw 3 dyn	6 yn berchen-feddianwyr ac 1 mewn tai cysgodol
Elderberries yng Nghanolfan Glowyr Caerffili	10	70-80	Pob un yn fenyw	Yn bennaf yn berchen-feddianwyr, gyda rhai rhentwyr cymdeithasol mewn llety ar gyfer pobl hŷn
Men's Shed yng Nghanolfan Glowyr Caerffili	8	55-85	7 dyn 1 fenyw	Pob un yn berchen-feddianwyr
Grŵp Dinasyddion Hŷn Woodfield Side	30	55-100	30 menyw	tua 20 yn berchen-feddianwyr, tua 10 yn rhentwyr cymdeithasol
Bore coffi yng Nghanolfan Gymunedol Cefn Fforest	10	54-75	10 menyw	3 yn berchen-feddianwyr 7 yn rhentwyr cymdeithasol
Cyfanswm	100			

Prif ganfyddiadau'r ymchwil gynradd


Diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny

5.30 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn dangos bod diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd, a'u tebygolrwydd o wneud hynny, yn gymhleth ac aml-haenog. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn dymuno parhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi presennol cyn hired â phosibl. Fodd bynnag, mae ystod o ffactorau a nodweddion sy'n dylanwadu ar ddiddordeb pobl hŷn mewn symud, ac ar ba mor debygol ydynt o wneud hynny.

Effaith byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn, a pheidio â byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn, ar ddiddordeb mewn symud a'r tebygolrwydd o symud yn hwyrach mewn bywyd

- 5.31 Mae tystiolaeth yr arolwg wedi cael ei dadansoddi er mwyn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng diddordeb mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'r tebygolrwydd o symud ymhlith pobl sy'n byw mewn cartrefi cyffredin o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn. Mae hyn yn dangos bod pobl sydd eisoes yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn llai tebygol o ystyried symud na'r rhai sy'n byw mewn cartrefi cyffredin.
- 5.32 Dywedodd mwyafrif sylweddol (78%) o ymatebwyr yr arolwg sydd eisoes yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn nad ydynt yn bwriadu symud o gwbl. Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl sy'n byw mewn tai ymddeol/cysgodol yn tueddu i werthfawrogi'r ymdeimlad o gymuned a'r cymorth gan staff y maent yn ei gael, ac felly na fyddent yn dymuno symud.
- 5.33 Fodd bynnag, mae cyfran (17%) o ymatebwyr yr arolwg sydd eisoes yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn nodi eu bod yn debygol o symud o fewn y ddwy flynedd nesaf. Tynnodd yr ymchwil ansoddol sylw at ystod o ffactorau a allai ddylanwadu ar hyn. I rai pobl, mae ansawdd a hygyrchedd eu tai presennol ar gyfer pobl hŷn yn ffactor allweddol am nad ydynt yn addas i'w hanghenion symudedd. I eraill, yn enwedig preswylwyr iau, nid tai ymddeol/cysgodol oedd eu dewis cyntaf, ond roeddent yn teimlo nad oedd ganddynt opsiwn arall fel person hŷn, gan fod opsiynau tai cyffredin hygyrch ar gyfer pobl hŷn yn gyfyngedig.
- 5.34 Ymhlith ymatebwyr yr arolwg nad ydynt yn byw ar hyn o bryd mewn tai ar gyfer pobl hŷn, mae'r tebygolrwydd o symud yn fwy cymysg. Er bod bron i 60% yn nodi nad ydynt yn bwriadu symud, mae bron i 40% yn nodi eu bod yn debygol o symud yn y dyfodol. Mae'r mwyafrif o bobl hŷn sy'n nodi eu bod yn debygol o symud yn dweud eu bod yn fwy tebygol o wneud hynny yn y tymor byrrach, gyda llai yn nodi eu bod yn debygol o symud ymhén mwy na 10 mlynedd. Mae hyn yn dangos bod cyfran o bobl sy'n byw mewn cartrefi cyffredin yn debygol o geisio llety gwahanol yn y dyfodol, a bod angen ystyried eu dewisiadau tai (gweler Ffigur 18).


Ffigur 18. Diddordeb ymatebwyr yr arolwg mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny, gan gymharu ymatebion pobl sy'n byw ac nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn



Effaith oedran ar ddiddordeb mewn symud a'r tebygolrwydd o symud yn hwyrach mewn bywyd

- 5.35 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwili yn dangos bod oedran yn dylanwadu ar ddiddordeb mewn symud yn hwyrach mewn bywyd ac ar ba mor debygol yw pobl o symud; mae'r grwpiau hŷn 'iau' yn tueddu i ddangos mwy o ddiddordeb a mwy o debygolrwydd o symud o gymharu â'r grwpiau hŷn 'hŷn'.
- 5.36 Wrth edrych ar holl ymatebion yr arolwg (Ffigur 19), mae ymatebwyr hŷn 'iau' (50–64 oed) yn fwy tebygol o symud; ar gyfartaledd, mae 53% yn nodi eu bod yn debygol o symud yn y dyfodol, o'i gymharu â chyfartaledd o 20% ymhlith pobl dros 65 oed. Ymhlith pobl 50–59 oed, mae'r tebygolrwydd o symud ychydig yn fwy gogwyddedig tuag at y tymor byrrach (yn enwedig o gymharu â grwpiau hŷn), er bod cyfran ystyrlon yn dal i ystyried symudiadau tymor hwy. Ymhlith pobl 60–64 oed, mae'r patrwm yn dod yn fwy cymysg, gyda diddordeb wedi'i wasgaru ar draws y tymor byrrach a'r tymor hwy.
- 5.37 O 65 oed ymlaen, mae diddordeb mewn symud a'r tebygolrwydd o symud yn gostwng yn sydyn. Ar gyfartaledd, mae 75% o bobl 65–89 oed yn dweud nad ydynt yn bwriadu symud o gwbl. Er enghraifft, mae 75% o bobl 65–69 oed ac 82% o'r rhai 75–79 oed yn dweud nad ydynt yn bwriadu symud o gwbl. Mae'r duedd hon yn parhau ymhlith y grwpiau oedran hŷn, lle mae'r mwyafrif helaeth yn ffafrio aros yn eu cartrefi presennol.


Ffigur 19. Diddordeb ymatebwyr yr arolwg mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny yn ôl grŵp oedran (pob ymatebydd)



- 5.38 Er mwyn ategu ymhellach y dystiolaeth o'r ymchwili sy'n awgrymu bod y bobl hŷn 'iau' yn fwy tebygol o symud, cymharwyd ymatebion pobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn a'r rhai nad ydynt yn byw mewn tai o'r fath.
- 5.39 Mae ymatebwyr yr arolwg sy'n byw ar hyn o bryd mewn tai ar gyfer pobl hŷn (gweler Ffigur 20) yn dangos ffafriaeth gref dros aros lle maent, gyda'r mwyafrif helaeth ym mhob categori oedran yn dweud nad ydynt yn bwriadu symud. Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod cyfranogwyr yr arolwg sy'n 'iau' (55–64 oed) ac yn llawer 'hŷn' (80–89 oed) yn y math hwn o lety yn nodi eu bod yn debygol o symud yn y tymor byr. Mae'r dystiolaeth ansoddol yn dangos bod pobl yn y grŵp oedran 'hŷn' yn fwy tebygol o ystyried nad yw'r tai presennol ar gyfer pobl hŷn yn addas i'w hanghenion iechyd


sy'n gysylltiedig ag oedran, ac y gallai fod angen lleoliad mwy cefnogol arnynt. Mae'r rhai yn y grŵp oedran 'iau' yn nodi nad tai cysgodol oedd eu dewis cyntaf i ddechrau, ond eu bod yn chwilio am gartref llai a mwy hylaw, ac felly eu bod yn ceisio cael eiddo anghenion cyffredinol mwy hygyrch.

Ffigur 20. Effaith oedran ar ddiddordeb mewn symud a'r tebygolrwydd o symud ymhlith pobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn



5.40 Mewn cyferbyniad, mae ymatebwyr yr arolwg nad ydynt ar hyn o bryd yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn (Ffigur 21) yn dangos llawer mwy o ddiddordeb mewn symud, yn enwedig cyn cyrraedd 65 oed, gyda chyfartaledd o 60% o ymatebwyr 50–64 oed yn nodi eu bod yn debygol o symud. Er bod y grwpiau hŷn 'hŷn' yn nodi eu bod yn llai tebygol o symud, dylid nodi bod llai o ymatebion i'r arolwg gan y grwpiau oedran hyn. Fodd bynnag, ymgysylltodd yr ymchwiler ansoddol â'r grŵp oedran hwn ac roedd yn dangos bod pobl 70+ oed yn llawer llai tebygol o symud na'r grwpiau oedran iau.

Ffigur 21. Effaith oedran ar ddiddordeb mewn symud a'r tebygolrwydd o symud ymhlith pobl nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn




- 5.41 Mae'r dystiolaeth ansoddol yn cefnogi'r duedd hon, gan fod cyfranogwyr hŷn 'iau' yn fwy tebygol o fod yn ystyried symud na chyfranogwyr hŷn 'hŷn'. Tynnodd yr ymchwili sylw at y ffaith bod y bobl hŷn 'iau' yn fwy tebygol o ystyried symud am resymau ffordd o fyw (megis plant yn symud allan, dewisiadau lleoliad, neu leihau costau), tra bod y cyfranogwyr hŷn 'hŷn' yn fwy tebygol o symud dim ond pan fydd amgylchiadau iechyd yn eu gorfodi i wneud hynny.
- 5.42 Mae hyn yn dangos bod y parodrwydd i ystyried symud yn hwyrach mewn bywyd yn lleihau'n sylweddol gydag oedran, gan wneud ymgysylltu cynnar ac opsiynau tai wedi'u teilwra ar gyfer oedolion hŷn iau (50–64) yn allweddol i gefnogi trosglwyddiadau tai amserol ac addas.
- 5.43 Ar yr un pryd, dangosodd yr ymchwili ansoddol fod bwlch yn yr opsiynau tai ar gyfer y bobl hŷn 'iau' sydd am symud, ond nad oes arnynt angen tai arbenigol nac awydd am dai o'r fath. Nid yw'r grŵp hwn yn cael ei wasanaethu'n ddigonol gan y stoc dai bresennol, sy'n tueddu i ganolbwyntio naill ai ar gartrefi teuluol mawr neu ar lety arbenigol. Mae hyn yn dangos bod lle i wella'r ystod o opsiynau tai sy'n addas i anghenion y bobl hŷn 'iau' ac sy'n eu galluogi i heneiddio yn eu lle. (Gweler yr adrannau 'Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd' a 'Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd' am ragor o fanylion ynghylch beth sy'n dylanwadu ar symud a dewisiadau o ran cartref newydd.)
- 5.44 Tynnodd yr ymchwili ansoddol sylw at y ffaith bod pobl hŷn — ond yn enwedig y bobl hŷn 'hŷn' — yn chwilio am gymorth i barhau i fyw yn eu cartrefi presennol mor annibynnol â phosibl, gan mai dyna yw eu dewis ffafriol. Roedd gan y cyfranogwyr hŷn 'hŷn' ychydig yn gryfach o gysylltiad â'u cartrefi, gan eu bod wedi byw ynddynt am gyfnod hirach ac hefyd yn llai tebygol o fod wedi symud sawl gwaith yn ystod eu bywydau. Mae pobl hŷn yn chwilio am gymorth i gael mynediad at gymhorthion/addasiadau a'u hariannu, yn ogystal â chymorth i gael mynediad at gymorth/gofal.

Effaith deiliadaeth ar ddiddordeb mewn symud a'r tebygolrwydd o symud

- 5.45 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil wedi cael ei dadansoddi er mwyn tynnu sylw at effaith statws deiliadaeth ar ddiddordeb cyfranogwyr mewn symud yn hwyrach mewn bywyd, ac ar ba mor debygol ydynt o symud. At ddibenion y dadansoddiad hwn, dadansoddwyd y dystiolaeth gan bobl nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn ar wahân, gan mai'r grŵp hwn sydd fwyaf tebygol o nodi diddordeb mewn symud.
- 5.46 Dangosodd yr arolwg y gall diddordeb mewn symud a'r tebygolrwydd o symud amrywio'n sylweddol yn ôl statws deiliadaeth. Mae'n awgrymu bod ymatebwyr nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn ac sy'n rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol neu'n berchen ar eu cartref yn llwyr neu gyda morgais yn llai tebygol o fod â diddordeb mewn symud na'r rhai sy'n rhentu'n breifat neu sy'n berchen ar eu cartref drwy gydberchnogaeth (gweler Ffigur 22).
- 5.47 Er nad yw'r rhan fwyaf o berchen-feddianwyr yn bwriadu symud, mae cyfran sylweddol yn nodi eu bod yn debygol o symud: mae tua 40% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eu heiddo yn llwyr a thua 50% o'r rhai sy'n berchen ar eu heiddo gyda morgais yn nodi eu bod yn debygol o symud. Mae'r amserlen ar gyfer pryd y mae perchen-feddianwyr yn debygol o symud yn gymysg, ond mae hyn yn tueddu i fod dros y tymor hwy.
- 5.48 Mae'r ymchwil ansoddol yn dangos bod cyfranogwyr sy'n berchen-feddianwyr yn fwy tebygol o fod wedi byw yn eu cartrefi am gyfnodau hirach, ac felly bod ganddynt gysylltiadau cryf â'u cartrefi presennol, sy'n eu gwneud yn llai tebygol o ystyried symud, yn enwedig y rhai yn y grwpiau oedran hŷn.
- 5.49 Er nad yw'r rhan fwyaf o ymatebwyr sy'n rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol yn bwriadu symud, mae tua 30% yn debygol o symud, ac mae pobl yn tueddu i fod yn fwy tebygol o symud yn y tymor byrrach (o fewn dwy flynedd).
- 5.50 Mae ymatebwyr sy'n rhentu oddi wrth landlordiaid preifat yn debygol iawn o ystyried symud, gyda 51% yn bwriadu symud o fewn y ddwy flynedd nesaf, a dim ond 22% heb unrhyw gynlluniau i symud. Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol yn tynnu sylw at ansicrwydd deiliadaeth mewn llety rhent preifat, ynghyd ag anfodlonrwydd gyda'r cartref, fel ffactorau sy'n debygol o sbarduno'r tebygolrwydd o symud ymhlith pobl yn y math hwn o ddeiliadaeth.
- 5.51 Mae ymatebwyr sy'n berchen ar eu cartrefi drwy gydberchnogaeth yn dangos y safbwyntiau mwyaf cymysg. Fodd bynnag, mae nifer yr ymatebwyr yn rhy fach i'r data hwn fod yn ystadegol arwyddocaol, ac felly nid yw wedi'i ystyried.


Ffigur 22. Tebygolrwydd o symud cartref ymhlith ymatebwyr yr arolwg nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn, yn ôl statws deiliadaeth



Effaith nifer yr ystafelloedd gwely ar ddiddordeb mewn symud a'r tebygolrwydd o symud yn hwyrach mewn bywyd

- 5.52 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil wedi cael ei dadansoddi er mwyn tynnu sylw at effaith nifer yr ystafelloedd gwely sydd gan gyfranogwr ar ei ddiddordeb mewn symud yn hwyrach mewn bywyd, ac ar ba mor debygol ydyw o symud. At ddibenion y dadansoddiad hwn, dadansoddwyd y dystiolaeth gan bobl nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn ar wahân.
- 5.53 Mae data'r arolwg yn dangos mai'r ymatebwyr sy'n byw mewn cartrefi pedair ystafell wely sydd fwyaf tebygol o symud cartref, gyda 58% o'r ymatebwyr yn debygol o symud. Mae lleiafrif sylweddol (tua 40%) o ymatebwyr yr arolwg sy'n byw mewn cartrefi tair ystafell wely hefyd yn nodi eu bod yn debygol o symud cartref.
- 5.54 Dangosodd yr ymchwil ansoddol, i bobl hŷn sydd â chartrefi mwy (3–4 ystafell wely), mai un ffactor allweddol a fyddai'n dylanwadu arnynt i symud cartref yw symud i gartref llai sy'n fwy hylaw na'u heiddo mwy presennol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y byddai llawer o gyfranogwyr yr ymchwil ansoddol yn chwilio am gartref 'cyffredin' llai yn hytrach na symud i lety arbenigol sy'n cynnig eiddo llai (gweler yr adran 'Diddordeb mewn tai â meini prawf oedran, e.e. 55 neu 60+' am ragor o ddadansoddiad o hyn).

Ffigur 23. Tebygolrwydd o symud cartref ymhlith ymatebwyr yr arolwg nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn, yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely



Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd

- 5.55 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil wedi cael ei dadansoddi er mwyn dangos beth sy'n annog neu'n dylanwadu ar bobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd. At ddibenion y dadansoddiad hwn, cymharwyd y dystiolaeth gan bobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn a'r rhai nad ydynt yn byw mewn tai o'r fath.
- 5.56 O ran pobl hŷn nad ydynt ar hyn o bryd yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn, mae ystod o ffactorau a allai ddylanwadu arnynt i symud yn hwyrach mewn bywyd.
- 5.57 Mae symud i gartref llai yn ffactor dylanwadol i bron i 40% o'r ymatebwyr hyn i'r arolwg. Mae'r ymchwil ansoddol yn dangos bod pobl nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn tueddu i fyw mewn tai mwy, gyda 3 neu 4 ystafell wely, ac pe baent yn symud, byddai symud i gartref llai yn ffactor dylanwadol. Mae hyn yn cael ei yrru'n bennaf gan awydd i fyw mewn cartref sy'n haws ei lanhau a'i gynnal, yn ogystal ag mewn cartref sydd â chostau rhedeg is. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan yr arolwg, a ganfu y byddai 45% o'r ymatebwyr yn cael eu dylanwadu gan gartref sy'n haws ei gynnal. Fodd bynnag, tynnodd yr ymchwil ansoddol sylw at y ffaith ei bod yn dal yn bwysig bod cartref llai yn eang, yn hygyrch ac wedi'i gynllunio i alluogi pobl i 'heneiddio yn eu lle'.
- 5.58 Ffactor arall sy'n debygol iawn o ddylanwadu ar ymatebwyr nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn i symud yw cartref sydd â mynediad da at barcio; mae hyn yn bwysig i 40% o'r ymatebwyr. Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol yn dangos bod llawer o bobl hŷn yn amharod i roi'r gorau i'w car, gan eu bod yn gwerthfawrogi'r annibyniaeth y mae hynny'n ei rhoi iddynt. Mae bod yn berchen ar gar yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig lle mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Mae hyn yn dangos y dylai cartrefi a gynllunnir ar gyfer pobl yn hwyrach mewn bywyd ystyried darpariaeth barcio os ydynt am ddenu ystod eang o bobl hŷn i symud.
- 5.59 Ar yr un pryd, nododd 30% o ymatebwyr yr arolwg y gallai gwell mynediad at amwynderau eu dylanwadu i symud. Awgrymodd yr ymchwil ansoddol, er y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ffafrio

gweld gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, fod cyfran o bobl a fyddai'n ystyried symud er mwyn cael gwell mynediad at wasanaethau.

- 5.60 Byddai symud i gartref rhatach yn dylanwadu ar 30% o ymatebwyr yr arolwg i symud. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod tua 40% o ymatebwyr yr arolwg yn dweud ei bod yn costio llawer i redeg y gwres a/neu'r dŵr poeth yn eu cartrefi presennol. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod llawer o bobl hŷn yn gweld costau rhedeg eu cartref yn her. Dangosodd yr ymchwil ansoddol y byddai rhai pobl yn cael eu cymell gan symud i gartref â chostau rhedeg rhatach, ond bod angen cymorth arnynt i ddeall yr arbedion posibl sy'n gysylltiedig â chartref newydd. Mae pobl hefyd am ddeall goblygiadau ariannol symud cartref, a gallai cymorth gyda hyn ddylanwadu ar fwy o bobl i symud.
- 5.61 Mae'r arolwg yn dangos bod ymatebwyr nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn annhebygol o gael eu dylanwadu gan symud i gartref lle mae gofal a chymorth ar gael (7%), neu staff ar y safle (5%), neu lle mae meini prawf oedran yn berthnasol (20%). Mae hyn yn cael ei gefnogi gan yr ymchwil ansoddol, a ddangosodd nad yw'r mwyafrif helaeth o bobl hŷn yn cael eu cymell gan symud i dai arbenigol. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran 'Diddordeb mewn tai â meini prawf oedran, e.e. 55 neu 60+', ond yn rhannol mae hyn oherwydd bod gan bobl ganfyddiadau negyddol o dai ar gyfer pobl hŷn ac yn eu cysylltu â chartref gofal. Mae cost hefyd yn dylanwadu ar hyn, ynghyd â'r awydd i barhau i fyw mewn cymuned gymysg o ran oedran. Gallai mwy o bobl ystyried symud i dai ar gyfer pobl hŷn pe bai'r cynnig tai yn fforddiadwy ac yn uchelgeisiol, ac nad oedd yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn symud am resymau 'gofal' neu oherwydd eu bod yn mynd yn 'hŷn'.
- 5.62 Ar y llaw arall, mae'r ffactorau a ddylanwadodd ar bobl sy'n byw ar hyn o bryd mewn tai ar gyfer pobl hŷn i symud yn dra gwahanol. Dangosodd yr ymchwil ansoddol fod symud i dai ar gyfer pobl hŷn, i'r unigolion hyn, wedi'i ddylanwadu gan yr awydd i fyw mewn cymuned gefnogol, gyda mynediad at bresenoldeb staff a gweithgareddau cymdeithasol. Mae'r arolwg yn ategu hyn, gan fod 39% wedi symud i fyw mewn lle roedd meini prawf oedran yn berthnasol, a 33% wedi symud oherwydd bod staff ar y safle.

Tabl 17. Ffactorau a ddylanwadodd/yn dylanwadu ar symud yn hwyrach mewn bywyd, gan gymharu ymatebion yr arolwg gan bobl hŷn sy'n byw ac nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn

Ffactorau a ddylanwadodd / sy'n dylanwadu ar symud	Ymatebion gan bobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn		Ymatebion gan bobl nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn	
Cartref llai	9%	11	39%	116
Cartref sy'n haws ei lanhau a/neu ei gynnal	16%	20	45%	132
Cartref rhatach (e.e. morgais neu rent mwy fforddiadwy neu gostau rhedeg is)	16%	19	35%	103
Bod yn agosach at deulu neu ofalwyr	29%	35	22%	66
Cartref mwy hygyrch	20%	25	36%	107
Cymdogaeth well neu fwy diogel	11%	13	18%	54
Cartref lle mae meini prawf oedran ar gyfer symud i mewn (e.e. 55+ neu 60+)	39%	48	20%	59
Cartref lle mae gofal a chymorth arbenigol ar gael ar y safle	29%	35	7%	22
Cartref sydd â gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, siopau, gwasanaethau iechyd ac amwynderau	30%	37	31%	91

Ffactorau a ddylanwadodd / sy'n dylanwadu ar symud	Ymatebion gan bobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn		Ymatebion gan bobl nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn	
Cartref lle mae staff ar gael ar y safle	33%	40	5%	16
Gallu byw gyda theulu neu aelodau estynedig o'r teulu	10%	12	7%	22
Cartref sydd â mynediad at barcio da	24%	29	40%	26
Arall (nodwch)	10%	12	9%	26

Ffynhonnell: Arolwg Tai Pobl Hŷn CBSC a'r HLIN (2025)


- 5.63 Dangosodd yr ymchwil ansoddol nad yw'r term 'rightsizing' yn cael ei ddeall yn eang gan gyfranogwyr yr ymchwil, a'i fod yn derm proffesiynol yn bennaf. O ganlyniad, argymhellir osgoi'r term 'rightsizing' mewn marchnata sydd wedi'i anelu at annog pobl i symud yn hwyrach mewn bywyd.
- 5.64 Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd â'r term 'downsizing', ond mae barn gymysg am y term hwn. Mae rhai pobl yn ei ddefnyddio'n rhwydd i ddisgrifio eu symudiad diweddar i gartref llai yn hwyrach mewn bywyd. Fodd bynnag, nid yw llawer o gyfranogwyr yr ymchwil yn hoffi'r term, oherwydd ei fod yn awgrymu ildio neu golli annibyniaeth, yn hytrach na gwneud newid cadarnhaol.
- 5.65 Felly, mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod yn bwysig defnyddio iaith sy'n teimlo'n gadarnhaol, yn rymusol ac yn canolbwyntio ar nodau ffordd o fyw pobl, yn hytrach nag ar roi pethau i fyny, os ydym am annog pobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd. Dylai'r termau bwysleisio dewis, cysur a manteision i'r dyfodol, megis "dod o hyd i gartref sy'n addas i'ch bywyd nawr", "gwneud bywyd yn haws", neu "cynllunio ar gyfer y dyfodol". Dylai'r negeseuon dynnu sylw at yr hyn sy'n bwysig i bobl — megis cael mwy o amser ar gyfer hobiau, bod yn agosach at deulu, neu fyw mewn lle sy'n haws ei gynnal — yn hytrach nag awgrymu colled neu leihad. Mae defnyddio iaith uchelgeisiol sy'n cyflwyno symud fel cyfle i gael mwy o ryddid, hwylustod a mwynhad yn helpu i wneud iddo deimlo fel cam rhagweithiol a chadarnhaol yn hytrach nag yn angenrheidrwydd.
- 5.66 Rhoddir rhagor o ffactorau sy'n dylanwadu ar symud yn yr adrannau isod.

Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd

Math o gartref

- 5.67 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn dangos ffafriaeth gref dros fyngalos (gweler Ffigur 24). Mae pobl hŷn yn cael eu denu at fyngalos gan eu bod yn llai ac yn haws eu cynnal, i gyd ar un lefel, ac yn tueddu i fod ar wahân i dai eraill. Mae llawer o bobl yn pryderu am y posibilrwydd o sŵn gan gymdogion a'r problemau hygyrchedd a all ddod gyda byw mewn fflat.
- 5.68 Dangosodd yr ymchwil ansoddol, er mai byngalos yw'r dewis ffafriol, fod pobl yn chwilio am ystod o opsiynau tai yn hwyrach mewn bywyd ac y byddent â diddordeb mewn tai llai, fflatiau eang neu fyngalos llai gwasgaredig eu defnydd o dir. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai mwy o bobl yn ystyried symud i fflat pe bai'n cynnig cartref deniadol, fforddiadwy a hygyrch. Mae gan y term 'fflat' gysylltiadau negyddol, ac mae pobl yn tueddu i ddweud y byddai'r term 'apartment' yn fwy tebygol o'u denu i symud. Byddai pobl yn chwilio am apartmentau â balconïau, ystyriaethau dylunio sy'n lliniaru sŵn gan gymdogion ac yn sicrhau awyru da, yn ogystal â darparu lifftiau. Yn ogystal, mae llety isel ei uchder yn cael ei ffafrio gan ei fod yn fwy addas i dopograffeg Bwrdeistref Sirol Caerffili na llety uchel ei uchder.


Ffigur 24. Y math o gartref y byddai ymatebwyr yr arolwg yn ei ffafrio, gan gymharu ymatebion pobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn a'r rhai nad ydynt yn byw mewn tai o'r fath



Noder: mae'r ymatebion i'r arolwg ar gyfer 'arall' yn rhai lle mae pobl wedi rhoi mwy nag un ateb i gwestiwn a oedd yn gofyn am un ateb yn unig.

5.69 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn dangos bod y bobl hŷn 'iau' (50–64) yn fwy tebygol o ystyried byw mewn tŷ, ac yn llai tebygol o ystyried symud i fyngalo pe baent yn symud, na'r bobl hŷn 'hŷn'. Mae Ffigur 25 isod yn amlygu'r canfyddiad hwn. Mae hyn yn dangos bod angen ystod o fathau o dai er mwyn denu ystod ehangach o bobl hŷn i ystyried symud yn hwyrach mewn bywyd.

Ffigur 25. Y math o gartref y byddai ymatebwyr yr arolwg yn ei ffafrio, gan gymharu ymatebion yn ôl grŵp oedran




Nifer yr ystafelloedd gwely

5.70 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn dangos y byddai'r mwyafrif o gyfranogwyr yn chwilio am gartref â dwy ystafell wely pe baent yn symud. Fodd bynnag, mae'r nifer o ystafelloedd gwely a ffeirir mewn cartref yn y dyfodol yn amrywio ychydig rhwng y rhai sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn a'r rhai nad ydynt.


- 5.71 Ymhlith ymatebwyr yr arolwg sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn, mae 53% yn disgwyl cartrefi un ystafell wely a 47% yn disgwyl opsiynau dwy ystafell wely. Mewn cyferbyniad, mae ymatebwyr yr arolwg nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn dangos disgwyliad clir am gartrefi dwy ystafell wely (63%), gyda 23% yn disgwyl cartrefi tair ystafell wely a dim ond 12% yn dewis eiddo un ystafell wely. Mae cyfran fach (2%) â diddordeb mewn 4+ ystafell wely (gweler Ffigur 26).
- 5.72 Mae'r ffafriaeth dros gartrefi dwy ystafell wely yn cael ei gyrru gan ystod o resymau, megis angen ystafell sbâr i westeion, partneriaid sydd angen cysgu ar wahân am resymau ieuchyd, a lle ar gyfer hobiau a storio.
- 5.73 Mae hyn yn dangos, er mwyn denu pobl i symud cartref yn hwyrach mewn bywyd, y dylid darparu ystod o gartrefi gyda chymysgedd o un a dwy ystafell wely.

Ffigur 26. Nifer yr ystafelloedd gwely y byddai ymatebwyr yr arolwg yn eu ffafrio, gan gymharu ymatebion pobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn a'r rhai nad ydynt yn byw mewn tai o'r fath




- 5.74 Mae'r ymchwili yn dangos bod statws deiliadaeth yn dylanwadu ar nifer yr ystafelloedd gwely y byddai pobl hŷn yn eu disgwyl. Mae ymatebwyr yr arolwg sy'n rhentu eu cartrefi yn fwy tebygol o ddisgwyl cartref un ystafell wely na phobl sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain. Awgrymodd yr ymchwili ansoddol y byddai perchen-feddianwyr yn fwy tebygol o fod eisiau cartrefi dwy ystafell wely gan fod angen lle ychwanegol arnynt ar gyfer storio (gweler Ffigur 27).
- 5.75 Mae hyn yn dangos y gallai cartrefi a ddarperir yn y sector tai cymdeithasol gynnwys llai o ystafelloedd na'r rhai ar y farchnad agored. Er mwyn denu perchen-feddianwyr i symud, dylid darparu cartrefi dwy ystafell wely o leiaf.

Ffigur 27. Nifer yr ystafelloedd gwely y byddai ymatebwyr yr arolwg yn eu disgwyl, gan gymharu deiliadaeth



- 5.76 Wrth gymharu disgwyliadau o ran nifer yr ystafelloedd gwely yn ôl oedran, mae data'r arolwg yn dangos bod y bobl hŷn 'iau' yn fwy tebygol o ddisgwyl nifer fwy o ystafelloedd gwely na'r bobl hŷn 'hŷn'. Mae hyn yn awgrymu bod angen ystod o feintiau tai er mwyn denu'r ystod ehangaf bosibl o bobl hŷn i symud cartref. O ystyried bod y bobl hŷn 'iau' yn fwy tebygol o symud, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylid darparu cartrefi llai â dwy ystafell wely sy'n cefnogi pobl i heneiddio yn eu lle er mwyn annog y grŵp hwn i symud.


Ffigur 28. Nifer yr ystafelloedd gwely y byddai ymatebwyr yr arolwg yn eu disgwyl, gan gymharu grwpiau oedran



Lleoliad


- 5.77 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn dangos bod lleoliad cartref yn hynod bwysig wrth ystyried cartref yn hwyrach mewn bywyd.
- 5.78 Mae ymatebion yr arolwg yn tynnu sylw at ffafriaeth glir dros aros yn y gymuned leol (tua 75%), gyda 52% o'r ymatebwyr yn nodi bod aros yn eu cymuned leol yn hwyrach mewn bywyd yn "bwysig iawn" a 25% yn ei ystyried yn "weddol bwysig".
- 5.79 Dangosodd y dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol hefyd fod pwys mawr yn cael ei roi ar bwysigrwydd aros yn y gymuned leol yn hwyrach mewn bywyd. Tynnodd yr ymchwil sylw at y ffaith bod trigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili yn tueddu i fod â chysylltiadau cryf iawn â'u cymuned leol. Mae llawer o bobl wedi byw yn yr un gymdogaeth am y rhan fwyaf o'u bywydau ac mae ganddynt hefyd gysylltiadau teuluol hirsefydlog â'u cymdogaethau a'u cymuned leol, sy'n golygu eu bod am barhau i fyw yno. Mae aros yn eu cymuned leol hyd yn oed yn bwysicach yn hwyrach mewn bywyd gan ei bod yn teimlo'n gyfarwydd, a bod gan bobl rwydweithiau cymorth a chymdeithasol presennol y maent am eu cynnal.

Ffigur 29. Safbwynt ymatebwyr yr arolwg ar bwysigrwydd aros yn eu cymuned leol



- 5.80 Dangosodd yr ymchwili fffafiaeth gref dros fyw mewn ardaloedd mwy gwledig yn hytrach nag ardaloedd trefol yn hwyrach mewn bywyd. Ymhlith ymatebwyr yr arolwg, byddai tua 40% yn ffafrio lleoliad gwledig neu bentrefol, gyda thua 35% yn ffafrio byw ar gyrion tref neu ddinas. Byddai lleiafrif o ymatebwyr yn ffafrio byw mewn tref (14%) neu ddinas (2%).
- 5.81 Dangosodd yr ymchwili ansoddol fod llawer o'r cyfranogwyr yn byw ar hyn o bryd mewn lleoliadau mwy gwledig ac am barhau i fyw yn y cymunedau hynny. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o ddiddordeb mewn symud yn nes at ganol trefi yn hwyrach mewn bywyd er mwyn bod yn agosach at siopau, amwynderau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, mae pobl yn tueddu i fod eisiau gweld gwelliant yn yr opsiynau trafndiaeth gyhoeddus sy'n eu galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi presennol yn hytrach na gorfod symud yn hwyrach mewn bywyd.

Ffigur 30. Y lleoliadau y byddai ymatebwyr yr arolwg yn eu ffafrio ar gyfer tai yn y dyfodol




- 5.82 Dangosodd yr ymchwil ansoddol hefyd fod topograffeg Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynnwys nodweddion a all ei gwneud yn anodd i bobl hŷn symud o gwmpas a chael mynediad at wasanaethau. Gall graddiannau serth wneud cerdded yn anodd i'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig neu sy'n defnyddio cymhorthion symudedd. Gall palmentydd a ffyrdd ar fryniau gynyddu'r risg o faglu a chwympo, neu gyfyngu ar weithgarwch yn yr awyr agored. Mae hyn yn gwneud agosrwydd at amwynderau (siopau, gwasanaethau iechyd, safleoedd bws) yn llawer pwysicach i bobl wrth ystyried cartref newydd.
- 5.83 Goblygiad hyn yw bod angen i dai newydd ar gyfer pobl hŷn gael eu lleoli ar dir gwastad, yn ddelfrydol yn agos at ganol trefi, er mwyn sicrhau bod pobl yn dal i allu cael mynediad at wasanaethau.

Diddordeb mewn tai â meini prawf oedran (e.e. 55 neu 60+)


- 5.84 Dangosodd tystiolaeth yr ymchwil fod barn gymysg ynghylch byw mewn tai â meini prawf oedran, megis tai ymddeol/cysgodol neu dai gofal ychwanegol.
- 5.85 Mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu bod cyfran sylweddol o bobl a fyddai'n ystyried symud i dai â meini prawf oedran isaf pe baent yn symud. Mae bron i 75% o'r bobl nad ydynt yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn nodi y byddent yn ystyried symud i'r math hwn o dai, gyda 39% yn dweud 'ie' a 34% yn dweud 'efallai'. Mae hyn yn dangos lefel sylweddol uwch o ddiddordeb mewn symud i gartrefi â meini prawf oedran o gymharu ag ymchwil y mae'r Housing LIN wedi'i chynnal mewn mannau eraill yn y DU a Chymru.
- 5.86 Ar y llaw arall, mae'r dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol yn dangos nad yw symud i dai â meini prawf oedran yn opsiwn ffafriol i'r mwyafrif helaeth o bobl nad ydynt ar hyn o bryd yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai'r mwyafrif helaeth o'r bobl hyn yn chwilio am gartref 'cyffredin' arall pe baent yn symud, yn hytrach na llety 'arbenigol' â meini prawf oedran. Dangosodd y dystiolaeth ffafriaeth dros gymunedau cymysg o ran oedran, hyd yn oed lle roedd gan bobl ddiddordeb mewn byw mewn tai â meini prawf oedran.
- 5.87 Mae'r ymchwil ansoddol yn dangos bod pobl yn ystyried bod tai ar gyfer pobl hŷn, megis tai ymddeol/cysgodol neu dai gofal ychwanegol, yn 'syniad da' ond 'i rywun arall'. Mae pobl yn tueddu i feddwl mai dim ond pan fydd ganddynt angen iechyd, pan fyddant yn cael trafferth yn gorfforol, neu ar ôl marwolaeth partner, y gallai fod angen y math hwn o lety arnynt, yn hytrach na symud i mewn cyn iddynt 'fod ei angen'.
- 5.88 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai mwy o bobl ystyried symud i dai ar gyfer pobl hŷn pe bai'r cynnig tai yn fforddiadwy ac yn uchelgeisiol. Byddai hyn yn helpu i newid canfyddiad negyddol pobl o dai ar gyfer pobl hŷn, gan fod pobl ar hyn o bryd yn eu cysylltu â thai cysgodol sydd wedi dyddio neu gartref gofal sy'n edrych yn sefydliadol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylid marchnata tai cyfoes ar gyfer pobl hŷn fel cynnig 'ffordd o fyw' er mwyn denu pobl i ystyried y math hwn o dai.
- 5.89 Mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu bod pobl sydd eisoes yn byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn fwy tebygol o ystyried byw mewn tai â meini prawf oedran na'r rhai nad ydynt yn byw mewn tai o'r fath. Dangosodd yr ymchwil ansoddol fod symud i dai â meini prawf oedran yn un o'r ffactorau a sbardunodd rai pobl i symud i dai ar gyfer pobl hŷn.

Ffigur 31. Diddordeb ymatebwyr yr arolwg mewn byw mewn tai â meini prawf oedran, gan gymharu ymatebion pobl sy'n byw mewn tai ar gyfer pobl hŷn a'r rhai nad ydynt yn byw mewn tai o'r fath



- 5.90 Mae tystiolaeth yr arolwg yn dangos, ymhlith y rhai sydd â diddordeb mewn symud i dai â meini prawf oedran, fod y mwyafrif helaeth (86%) â diddordeb mewn 'tai ymddeol', gyda lleiafrif yn unig â diddordeb mewn tai gofal ychwanegol (12%). Dangosodd y dystiolaeth ansoddol fod pobl hŷn yn llai cyfarwydd â thai gofal ychwanegol, neu eu bod yn eu hystyried yn 'gartref gofal', nad yw'n fath o dai y mae'r mwyafrif helaeth o bobl am symud iddo. Mynegodd rhai pobl hŷn ddiddordeb mewn 'pentref ymddeol', gan eu bod yn gweld hyn fel symudiad mwy cadarnhaol na symud i 'dai gofal ychwanegol'. Caiff tai ymddeol neu bentrefi ymddeol eu hystyried yn ddewis i bobl sy'n dal yn weithgar ac yn annibynnol, tra bod tai gofal ychwanegol yn awgrymu dirywiad iechyd neu ddibyniaeth.

Ffigur 32. Y math o dai â meini prawf oedran y mae ymatebwyr yr arolwg â diddordeb ynddo




- 5.91 Dangosodd y dystiolaeth o'r ymchwil fod pobl yn ystyried y nodweddion canlynol yn rhai hanfodol mewn tai ymddeol:
- rheolwr cynllun ar gael ar y safle, wedi'i ategu gan dechnoleg sy'n darparu cymorth rhag ofn. Mae'r bobl hŷn 'iau' hefyd yn fwy awyddus i weld darpariaeth Wi-Fi ar draws y safle.
 - mannau cymunedol bywiog a deniadol, gyda naws debyg i westy, sy'n annog pobl i'w defnyddio mewn ffordd 'organig'. Mae hyn yn golygu y byddai pobl yn naturiol yn stopio ac yn eistedd yn yr ardaloedd cymunedol yn hytrach na gorfod mynd yno'n fwriadol, ac mae'r mannau hyn fel arfer wedi'u lleoli'n nes at y fynedfa. Mae hefyd yn bwysig peidio â darparu gormod o le cymunedol, er mwyn cadw costau i lawr.
 - cartrefi hygrych sy'n galluogi pobl i 'heneiddio yn eu lle'. Ymhlith y nodweddion allweddol mae ystafell ymolchi wlyb, ceginau hygrych, drysau a choridorau lletach, cartrefi eang sy'n cefnogi symudedd, a lifft.
 - golau naturiol ac awyru drwyddo draw.
 - cymysgedd o gartrefi un a dwy ystafell wely.
 - ystafell westeion i'r teulu aros ynddi, yn enwedig os mai dim ond cartrefi un ystafell wely a ddarperir.
 - darpariaeth barcio dda a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, siopau ac amwynderau.
- 5.92 Tynnodd y dystiolaeth o'r ymchwil sylw at y ffaith, er nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o dai gofal ychwanegol, eu bod yn eu hystyried yn opsiwn tai mwy deniadol na chartref gofal ac yn gweld gwerth yn y math hwn o dai. Caiff llety hunangynhwysol ochr yn ochr â gofal a chymorth 24/7 ei ystyried yn nodwedd bwysig o dai gofal ychwanegol.

Dewisiadau o ran deiliadaeth

- 5.93 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn dangos bod statws deiliadaeth ymatebwyr yn dylanwadu ar y math o ddeiliadaeth y byddent yn ei ddisgwyl mewn cartref newydd pe baent yn symud.
- 5.94 Mae tystiolaeth yr arolwg yn dangos, yn gyffredinol, y byddai ymatebwyr sy'n berchen-feddianwyr (yn llwyr neu gyda morgais) yn disgwyl prynu cartref yn llwyr pe baent yn symud. Fodd bynnag, mae cyfran o berchen-feddianwyr a fyddai'n disgwyl rhentu eu cartref oddi wrth landlord cymdeithasol pe baent yn symud. Byddai 15% o'r perchen-feddianwyr â morgais ac 11% o'r perchen-feddianwyr sy'n berchen ar eu cartref yn llwyr yn disgwyl rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol pe baent yn symud cartref.
- 5.95 Mae'r dystiolaeth ansoddol yn dangos, ymhlith perchen-feddianwyr, fod perchen-feddiannaeth yn bwysig i bobl gan fod cartref fel arfer yn cael ei ystyried yn ased sy'n cynrychioli cyfoeth hirdymor a sefydlogrwydd ariannol. Mae llawer o berchen-feddianwyr hŷn yn teimlo bod angen iddynt gadw eu cartrefi gan y gallai fod eu hangen i dalu am eu gofal/cymorth eu hunain neu ofal/cymorth partner yn hwyrach mewn bywyd. Fodd bynnag, mae barn gymysg ynghylch pa mor 'deg' yw hyn; nid yw rhai pobl yn meddwl ei bod yn deg y dylent orfod talu am y gofal/cymorth hwn, tra bod eraill o'r farn, os oes gennych y modd, y dylech dalu am eich anghenion gofal/cymorth. Ar yr un pryd, mae rhai pobl hŷn yn teimlo bod angen iddynt gadw eu statws perchen-feddiannaeth gan eu bod am drosglwyddo'r cyfoeth sy'n gysylltiedig â'r ased hwnnw i'w teuluoedd.

- 5.96 Ar y llaw arall, ceir tystiolaeth gan rai perchen-feddianwyr y byddent yn disgwyl rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol pe baent yn symud. Mae'r dewis hwn yn aml yn cael ei yrru gan ffactorau ariannol ac ymarferol, gan gynnwys y posibilrwydd na fyddai gwerth eu cartref presennol yn talu am gost prynu un newydd, diddordeb mewn rhyddhau ecwiti i gefnogi costau eraill, ac atyniad costau tai parhaus is sy'n gysylltiedig â rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol.
- 5.97 Mae awydd cryf hefyd ymhlith ymatebwyr yr arolwg sy'n rhentu eu cartrefi'n breifat ar hyn o bryd i newid eu statws deiliadaeth os byddant yn symud. Byddai'r mwyafrif (65%) yn chwilio am gartref i'w rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol, tra byddai lleiafrif (tua 10%) â diddordeb mewn bod yn berchen-feddianwyr pe baent yn symud. Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol yn awgrymu bod rhentwyr preifat hŷn yn tueddu i bryderu am sicrwydd deiliadaeth yn y sector rhentu preifat, yn ogystal â'r gallu i gael mynediad at gymhorthion ac addasiadau i'r cartref yn hwyrach mewn bywyd.
- 5.98 Nid oes digon o ymatebion yn nata'r arolwg gan ymatebwyr sy'n berchen ar gartref drwy gydberchnogaeth neu sy'n byw heb rent gyda rhywun arall i wneud y dystiolaeth hon yn ddibynadwy. Ni ymgysylltodd yr ymchwil ansoddol â phobl yn y math hwn o ddeiliadaeth.


Ffigur 33. Y ddeiliadaeth y byddai ymatebwyr yr arolwg yn ei disgwyl mewn cartref newydd pe baent yn symud, yn ôl statws deiliadaeth



Rhwystrau sy'n atal pobl rhag symud yn hwyrach mewn bywyd a sut y gellir eu goresgyn

5.99 Dangosodd y dystiolaeth o'r ymchwiliad nad yw'r rhwystrau i symud yn hwyrach mewn bywyd yn rhai ar wahân i'w gilydd, ond yn rhai rhyng-gysylltiedig, gyda ffactorau ariannol, emosiynol, ymarferol a chymdeithasol yn cydbblethu mewn ffyrdd sy'n llywio penderfyniadau ar y cyd (gweler y tabl isod).

Ffigur 34. Rhwystrau sy'n atal ymatebwyr yr arolwg rhag symud yn hwyrach mewn bywyd



Rhwystrau ariannol

5.100 Ceir ystod o rwystrau ariannol sy'n atal pobl hŷn rhag symud yn hwyrach mewn bywyd. Mae'r arolwg yn dangos bod 35% o'r ymatebwyr yn ystyried bod y costau sy'n gysylltiedig â symud yn rhwystri. Yn yr ymchwiliad ansoddol, mynegir hyn fel costau ffioedd cyfreithiol, treth stamp a goblygiadau posibl treth enillion cyfalaf. Ceir hefyd gostau sy'n gysylltiedig â'r broses symud ei hun y mae pobl yn poeni am allu eu fforddio, megis llogi faniau symud, storio ac addurno cartref newydd.

- 5.101 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y byddai cymorth gyda chost symud yn gwneud pobl yn fwy tebygol o benderfynu symud, gyda thua 60% o ymatebwyr yr arolwg yn dweud hynny. Mae hyn yn dangos y gall cymhellion ariannol annog pobl i symud. Fodd bynnag, mae'r ymchwil ansoddol yn dangos na ddylid tanamcangyfrif y cymorth emosiynol sydd ei angen ar bobl ochr yn ochr â hyn, a bod angen ei ddarparu law yn llaw â chymorth ariannol.
- 5.102 Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod cost llety amgen yn rhwystr i symud. I 28% o ymatebwyr yr arolwg, mae gallu fforddio prynu neu rentu cartref gwahanol yn rhwystr. Mae'r ymchwil ansoddol yn dangos bod mwyafrif y cyfranogwyr sy'n berchen-feddianwyr yn poeni am gost tai ac a fyddent yn gallu fforddio prynu cartref newydd. Byngalos yw dewis ffafriol y rhan fwyaf o bobl, ond maent yn tueddu i fod yn anfforddiadwy gan fod y galw mor uchel. Mae hyn yn dangos bod angen cartrefi prif ffrwd fforddiadwy sy'n llai ac sy'n diwallu dewisiadau pobl hŷn a restrir uchod o dan 'Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd' a 'Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd'.
- 5.103 Wrth ystyried symud i dai ar gyfer pobl hŷn, mae'r ymchwil yn dangos bod bwlch yn y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ar gyfer pobl hŷn yn atal pobl rhag ystyried yr opsiwn hwn. Mae cyfranogwyr yn poeni am gost taliadau gwasanaeth presennol a pharhaus, yn ogystal ag a fyddent yn gallu fforddio cost y cartref ei hun. Rhwystr i rai pobl sy'n ystyried prynu tai ar gyfer pobl hŷn yw a fydd y cartrefi hyn yn cadw eu gwerth wrth eu gwerthu yn y dyfodol.

Rhwystrau emosiynol a chorfforol

- 5.104 Tynnodd y dystiolaeth ansoddol sylw at y ffaith bod pobl hŷn wedi bod yn byw yn eu cartrefi presennol ers blynyddoedd lawer (20 mlynedd+) ac, o ganlyniad, fod ganddynt ymlyniad emosiynol cryf wrth eu cartrefi a'u heitemau/eiddo cartref. I bron i 30% o ymatebwyr yr arolwg, mae eu hymlyniad personol wrth eu cartref presennol yn rhwystr i symud. Mae hyn yn golygu, i'r rhan fwyaf o bobl, fod y broses symud yn cael ei gweld fel tasg llethol gan fod ganddynt eitemau/eiddo y byddai angen iddynt fynd drwyddent a chael gwared arnynt, a gall hynny fod yn feichus yn emosiynol yn ogystal ag yn gorfforol. I bron i 30% o ymatebwyr yr arolwg, mae eu hiechyd corfforol yn rhwystr ychwanegol i'r broses o symud.
- 5.105 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn awgrymu y byddai cymorth gyda thasgau ymarferol, megis clirio annibendod, pacio a chael gwared ar eitemau diangen, yn gwneud rhai pobl yn fwy tebygol o benderfynu symud. O'r arolwg, dywedodd 53% o'r ymatebwyr y byddai cymorth o'r fath yn eu gwneud yn fwy tebygol o symud. Dangosodd yr ymchwil ansoddol fod clirio annibendod yn cael ei ystyried yn dasg bersonol, ac y byddai angen i'r cymorth a geir ddod gan rywun y maent yn ymddiried ynddo. Fel arfer, aelod o'r teulu yw hwn, ond gallai hefyd fod yn sefydliad dibynadwy, megis sefydliad trydydd sector sy'n cefnogi pobl hŷn.

Rhwystrau cymdeithasol

- 5.106 Ceir hefyd ystod o rwystrau cymdeithasol sy'n atal pobl rhag symud cartref. I 33% o ymatebwyr yr arolwg, mae diffyg opsiynau tai addas yn rhwystr i symud. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r dewisiadau a'r blaenoriaethau o ran cartref newydd (yn yr adran uchod) yn cael eu diwallu gan y ddarpariaeth dai bresennol. Yn ei dro, mae hyn yn awgrymu pe bai opsiynau tai addas ar gael, y byddai mwy o bobl yn ystyried symud yn hwyrach mewn bywyd.
- 5.107 Er bod yr arolwg yn dangos mai dim ond 16% o'r ymatebwyr sy'n ystyried diffyg gwybodaeth am ddewisiadau tai yn rhwystr, tynnodd yr ymchwil ansoddol sylw at y ffaith bod diffyg gwybodaeth a chynghor ynghylch opsiynau tai yn rhwystr sylweddol. Mae pobl hŷn yn chwilio am well gwybodaeth a chynghor ynghylch eu hopsiynau tai a chymorth yn y dyfodol. Mae angen help ar bobl i bwysu a mesur goblygiadau cost symud ac i ddeall fforddiadwyedd gwahanol opsiynau

tai amgen. Mae pobl yn chwilio am gyfleoedd i gael mynediad at y wybodaeth hon ar-lein ac all-lein o ffynonellau dibynadwy.

- 5.108 Dywedodd 29% o ymatebwyr yr arolwg yn syml nad oeddent am symud, gan danlinellu'r ffafriaeth ddofn ymhlith llawer o bobl hŷn dros heneiddio yn eu lle yn eu cartrefi presennol.

Crynodeb o'r ymchwil gynradd: goblygiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Diddordeb pobl hŷn mewn symud yn hwyrach mewn bywyd a'u tebygolrwydd o wneud hynny

- 5.109 Mae'r rhan fwyaf o drigolion hŷn am aros yn eu cartrefi presennol cyn hired â phosibl, yn enwedig y bobl hŷn 'hŷn' (65+). Fel arfer, argyfwng sy'n sbarduno symud (dirywiad iechyd, profedigaeth) yn hytrach na dewis rhagweithiol.
- 5.110 Mae'r bobl hŷn 'iau' (50–64) yn fwy agored i symud am resymau ffordd o fyw (costau, hylawedd, lleoliad). Mae'r grŵp hwn yn gynulleidfa allweddol ar gyfer ymgysylltu cynnar.
- 5.111 Mae'r rhai sydd eisoes mewn tai ar gyfer pobl hŷn yn gyffredinol wedi ymgartrefu, er bod rhai'n chwilio am ddewisiadau eraill oherwydd problemau dylunio/hygyrchedd neu oherwydd nad oeddent wedi dewis tai cysgodol yn fwriadol yn y lle cyntaf.
- 5.112 Goblygiad hyn yw bod angen i CBSC gynllunio i gefnogi'r mwyafrif sy'n dymuno heneiddio yn eu lle, tra hefyd yn cynnig dewisiadau tai deniadol ac uchelgeisiol sy'n apelio at garfanau iau cyn i argyfwng godi.

Beth sy'n annog/dylanwadu ar bobl i symud

- 5.113 Y prif gymhellion yw cartrefi llai, mwy hylaw, costau rhedeg is, parcio da, ac agosrwydd at amwynderau/gwasanaethau.
- 5.114 I rai, mae cartrefi rhatach sy'n ynni-effeithlon yn gymhellant, yn enwedig o ystyried pwysau costau byw.
- 5.115 Nid oes llawer o awydd am dai arbenigol oni bai eu bod yn fodern, yn fforddiadwy ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd gadarnhaol (e.e. "byw'n annibynnol" neu "byw ar ôl ymddeol").
- 5.116 Mae'r ffordd y caiff pethau eu cyfleu yn bwysig: nid yw termau fel "rightsizing" neu "downsizing" yn cael eu deall yn dda neu maent yn cario stigma. Dylai marchnata bwysleisio dewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol, annibyniaeth a chysur, yn hytrach na cholled.
- 5.117 Goblygiad hyn yw y dylai CBSC sicrhau bod y cyflenwad tai, polisiâu cynllunio a chyfathrebu yn adlewyrchu'r cymhellion hyn ac yn osgoi naratifau negyddol.

Dewisiadau a blaenoriaethau o ran cartref newydd

- 5.118 Ceir ffafriaeth glir dros fyngalos, er bod cydnabyddiaeth eu bod yn defnyddio llawer o dir; felly, mae angen dewisiadau amgen deniadol (fflatiau eang, tai bach).
- 5.119 Mae dwy ystafell wely yn cael eu hystyried yn hanfodol gan lawer (ar gyfer storio, hobiau, gwesteion, neu resymau iechyd). Gall rhentwyr cymdeithasol dderbyn cartrefi un ystafell wely, ond mae perchen-feddianwyr yn disgwyl dwy ystafell wely.

- 5.120 Mae pobl yn rhoi gwerth mawr ar aros yn eu cymunedau presennol gan fod llawer wedi'u cysylltu'n gryf â lle, a bod eu teuluoedd wedi byw yn yr un ardal ers cenedlaethau. Nid oes ond parodrwydd cyfyngedig i symud mwy na 1–2 filltir; mae pobl yn tueddu i fod eisiau aros yn yr un ardal.
- 5.121 Mae cysylltiadau trafndiaeth da, a mynediad at siopau, gwasanaethau iechyd a mannau cymdeithasol yn flaenoriaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- 5.122 Goblygiad hyn yw y dylai strategaeth dai CBSC ganolbwyntio ar gartrefi hygyrch, addasadwy ac mewn lleoliadau da, wedi'u dylunio gydag anghenion pobl hŷn mewn golwg ac wedi'u hintegreiddio i gymunedau.

Rhwystrau sy'n atal pobl rhag symud a sut y gellir eu goresgyn

- 5.123 Rhwystrau ariannol: mae costau symud, prisiau uchel eiddo addas (yn enwedig byngalos) a thaliadau gwasanaeth yn rhwystro pobl. Mae angen cymhellion ariannol ac opsiynau fforddiadwy.
- 5.124 Rhwystrau emosiynol/corfforol: mae cysylltiadau cryf â chartrefi hirdymor a straen clirio annibendod yn gwneud symud yn frawychus. Gallai cymorth ymarferol dibynadwy (e.e. gwasanaethau "un stop" ar gyfer clirio annibendod a symud) helpu.
- 5.125 Rhwystrau cymdeithasol: mae canfyddiadau negyddol o dai cysgodol, diffyg dewisiadau deniadol eraill, a gwybodaeth gyfyngedig am ddewisiadau tai yn cyfyngu ar opsiynau.
- 5.126 Rhwystrau polisi/proses: mae problemau gyda'r gofrestr dai/system ddyrannu a chanfyddiadau o ddyrannu annheg yn lleihau ymddiriedaeth yn y broses.
- 5.127 Goblygiad hyn yw y dylai CBSC ystyried pecynnau cymorth ymarferol ac emosiynol, gwella gwasanaethau gwybodaeth a chyingor, ac adolygu prosesau dyrannu er mwyn gwneud symud yn opsiwn hyfyw a deniadol.

6. Casgliad: Argymhellion/Goblygiadau i Gynor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- 6.01 Yn seiliedig ar y dystiolaeth o'r dadansoddiad demograffig, yr adolygiad o'r dystiolaeth a'r ymchwil gynradd, mae'r adran hon yn darparu argymhellion/goblygiadau i'r Cyngor mewn perthynas â diwallu anghenion a dewisiadau tai pobl hŷn yn y fwrdeistref a chefnogi pobl i symud yn hwyrach mewn bywyd.
- 6.02 Mae'r argymhellion wedi'u trefnu o dan bedwar maes allweddol:
- cefnogi 'heneiddio yn eu lle' yng nghartrefi presennol pobl
 - ystyriaethau ar gyfer adeiladau Newydd
 - ystyriaethau ynghylch tai presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 - ystyriaethau o ran y cynnig gwasanaeth

Cefnogi 'heneiddio yn eu lle' yng nghartrefi presennol pobl

- 6.03 Dangosodd y dystiolaeth o'r ymchwil fod y mwyafrif o bobl hŷn am aros, ac y byddant yn aros, yn byw yn eu cartrefi presennol. Felly, argymhellir y dylid cefnogi pobl hŷn i 'heneiddio yn eu lle' yn eu cartrefi presennol lle mai dyna yw eu dewis.
- 6.04 Mae hyn yn golygu y dylai pobl hŷn allu byw gartref gyda chymorth, oni bai ei bod yn amlwg yn annïogel neu'n anymarferol gwneud hynny.
- 6.05 Er mwyn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol gartref, argymhellir bod y Cyngor yn cryfhau'r ddarpariaeth o wybodaeth a chynghor ynghylch y ffyrdd y gall pobl hŷn ar draws pob deiliadaeth addasu eu cartrefi presennol i'w gwneud yn fwy addas iddynt yn hwyrach mewn bywyd.
- 6.06 Gan weithio gyda phartneriaid LCC a sefydliadau'r sector gwirfoddol, dylid darparu gwybodaeth glir am sut y gellir ariannu addasiadau i'r cartref, gan gynnwys drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i'r rhai sy'n gymwys, neu drwy gynllun ENABLE.
- 6.07 Hyrwyddo ffyrdd y gall perchen-feddianwyr hŷn nad ydynt yn gymwys am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl addasu eu cartrefi i'w gwneud yn fwy addas i anghenion sy'n gysylltiedig ag oedran. Cyfeirio at sefydliadau megis Care and Repair Blaenau Gwent and Caerphilly a chynllun ENABLE. Cyfeirio hefyd at addasiadau bach i'r cartref y gellir eu prynu oddi ar y silff i gefnogi annibyniaeth, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd wedi'u dylunio i edrych yn 'angh-sefydliadol', e.e. 'Invisible Creations' yn B&Q⁷³.
- 6.08 Darparu rhestr gyswllt o grefftwyd dibynadwy ar gyfer addasiadau mwy, fel bod pobl hŷn nad ydynt yn gymwys am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn gallu teimlo'n hyderus yn y gwasanaeth a ddarperir i addasu eu cartref.
- 6.09 Cyfeirio at fenthyciadau gwella cartrefi a ddarperir gan y Cyngor er mwyn galluogi perchen-feddianwyr hŷn nad ydynt yn gymwys am grantiau sector cyhoeddus, er enghraifft Grantiau

⁷³ Ar gael yn: <https://www.diy.com/departments/bathroom/bathroom-accessories/grab-rails/DIY822400.cat?Brand=Invisible+Creations>

Cyfleusterau i'r Anabl neu gymorth gan Care and Repair Wales, i gael mynediad at fenthyciadau mwy ffafriol ar gyfer addasiadau i'r cartref.

- 6.10 Darparu gwybodaeth a chyngor am dechnoleg gynorthwyol a phrif ffrwd, a chyfeirio at sefydliadau sy'n ei darparu, y gellir ei defnyddio i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol.
- 6.11 Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw pobl yn ymwybodol o sut y gall gofal cymdeithasol i oedolion eu cefnogi, neu beidio. Cryfhau gwybodaeth a chyngor ynghylch y ffyrdd y gall pobl hŷn gael mynediad at gymorth gofal cymdeithasol yn y cartref a thalu amdano os bydd angen hynny arnynt. Egluro pa hawliau sydd gan bobl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (h.y. hawl i asesiad, meini prawf cymhwysra, beth sy'n digwydd os nad yw rhywun yn gymwys am ofal wedi'i ariannu'n llawn, a mynediad at gyngor a gwasanaethau ataliol). Hyrwyddo hyn drwy ddulliau ar-lein ac all-lein.
- 6.12 Darparu gwybodaeth sy'n cefnogi pobl i 'heneiddio yn eu lle' mewn sawl fformat (gwe, print, print bras, ieithoedd eraill, wyneb yn wyneb) er mwyn diwallu anghenion gwahanol a lefelau gwahanol o fynediad digidol.
- 6.13 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil gynradd gyda phobl hŷn yn dangos y gall unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol fod yn her i lawer o bobl hŷn. Hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol mewn cymunedau presennol, megis grwpiau a chanolfannau cymunedol sy'n bodoli eisoes fel fforwm 50+ Caerffili, Canolfan Glowyr Caerffili a Chanolfan Gymunedol Cefn Fforest. Hyrwyddo presgripsiynu cymdeithasol sy'n cysylltu cleifion â'u cymuned leol er mwyn sicrhau buddion iechyd.
- 6.14 Sicrhau bod seilwaith cymunedol yn 'gyfeillgar i oedran' ac yn cefnogi pobl hŷn i allu mynd allan a symud o gwmpas. Er enghraifft, gallai cyllid o gytundebau Adran 106 neu Ardollau Seilwaith Cymunedol (CIL) helpu i ariannu toiledau cyhoeddus, meinciau a chysgodfannau bysiau gyda seddi, gan gefnogi trafndiaeth gyhoeddus/gymunedol well sy'n diwallu anghenion pobl hŷn yn fwy effeithiol.

Ystyriaethau ar gyfer adeiladau newydd

- 6.15 Cynyddu'r ystod o opsiynau tai a deiliadaethau er mwyn denu amrywiaeth eang o bobl hŷn i symud i dai prif ffrwd a thai arbenigol yn hwyrach mewn bywyd.
- 6.16 Boed mewn tai arbenigol neu dai prif ffrwd, mae pobl hŷn am fyw mewn cymunedau cymysg o ran oedran. Felly, dylai'r Cyngor hyrwyddo datblygu cymunedau cymysg o ran oedran drwy gymysgedd o fathau o dai, deiliadaethau a seilwaith cymunedol.
- 6.17 Dylai pob cartref newydd a gynllunnir i ddenu pobl hŷn i symud gael ei leoli mewn ardaloedd sydd â mynediad da at siopau, amwynderau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Dylid lleoli cartrefi newydd ar dir gwastad, yn ddelfrydol yn agos at ganol trefi, er mwyn sicrhau bod pobl yn dal i allu cael mynediad at wasanaethau.

Tai prif ffrwd

- 6.18 Mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn dangos y byddai'r mwyafrif o bobl hŷn yn ffafrio symud i gartref 'cyffredin/prif ffrwd' arall sydd wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch o'r cychwyn cyntaf pe baent yn symud.
- 6.19 Argymhellir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn annog datblygu cartrefi prif ffrwd hygyrch drwy osod targedau clir ar gyfer cartrefi hygyrch ac addasadwy mewn dogfennau cynllunio lleol.

- 6.20 Gweithio gyda'r adran gynllunio i ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfran o gartrefi newydd fod yn hygyrch; er enghraifft, mae Cynllun Llundain yn mynnu bod 90% o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i fod yn addasadwy ar gyfer preswylwyr ag anghenion hygyrchedd, megis Rheoliadau Adeiladu M4(2) (anheddu hygyrch ac addasadwy) ac M4(3) (anheddu ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn).
- 6.21 Drafftio Canllawiau Cynllunio Atodol (SPGs) sy'n rhoi disgwyliadau manwl i ddatblygwyr o ran hygyrchedd, dyluniad a chynllun mewn perthynas â thai sy'n addas i bobl hŷn, gan ddefnyddio'r ymchwil hon fel sail i hynny.
- 6.22 Parhau i ddefnyddio cytundebau Adran 106 i sicrhau mwy o gartrefi hygyrch fel rhan o gyfraniadau tai fforddiadwy.
- 6.23 Dangosodd y dystiolaeth o'r ymchwil ansoddol, er mai byngalos yw dewis ffafriol llawer o bobl hŷn sydd am symud, fod pobl yn chwilio am ystod o opsiynau tai yn hwyrach mewn bywyd ac yn bennaf am rywbeth llai ond eto'n eang. Argymhellir bod y Cyngor yn annog datblygu tai llai, fflatiau eang neu fyngalos sy'n defnyddio llai o dir ac sy'n cyd-fynd â'r hyn y mae pobl yn dweud eu bod ei eisiau yn yr ymchwil hon, er mwyn denu pobl hŷn i symud.
- 6.24 Er mwyn denu perchen-feddianwyr hŷn i symud, dylid darparu cartrefi newydd gydag o leiaf dwy ystafell wely. I bobl hŷn sy'n rhentu eu cartrefi oddi wrth landlord cymdeithasol, mae cartrefi un ystafell wely hefyd yn debygol o ddenu rhentwyr cymdeithasol i symud; er mwyn cyd-fynd ag arfer da, dylid ystyried cartrefi '1 ystafell wely a mwy'⁷⁴.

Tai arbenigol

- 6.25 Byddai lleiafrif sylweddol o bobl hŷn yn y fwrdeistref yn ystyried symud i gartref â dynodiad oedran, ar yr amod ei fod yn ddeniadol, yn uchelgeisiol ac yn fforddiadwy. Felly, argymhellir bod CBSC yn annog datblygu tai newydd ychwanegol sydd wedi'u dynodi ar gyfer pobl hŷn fel rhan o gynyddu'r ystod o ddewisiadau tai ar gyfer pobl hŷn a disodli stoc bresennol nad yw'n addas iddynt.
- 6.26 Gweithio gyda'r adran gynllunio i ymgorffori'r angen am dai arbenigol ar gyfer pobl hŷn yn y Cynllun Datblygu Lleol.
- 6.27 Drafftio Canllawiau Cynllunio Atodol (SPGs) sy'n rhoi disgwyliadau manwl i ddatblygwyr o ran hygyrchedd, dyluniad a chynllun tai arbenigol ar gyfer pobl hŷn, gan ddefnyddio'r ymchwil hon fel sail i hynny.
- 6.28 Archwilio'r ffyrdd y gellir defnyddio amrywiaeth o raglenni grant cyfalaf Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygu tai arbenigol, er enghraifft y Gronfa Tai â Gofal, y Grant Tai Cymdeithasol neu'r Cynllun Cyflenwi Tai Fforddiadwy.
- 6.29 Argymhellir bod CBSC yn ehangu'r ddarpariaeth o fersiwn gyfoes o dai 'cysgodol' sy'n efelychu'r dull y mae'n ei ddefnyddio i ddatblygu Tŷ Darran, yn ogystal â'r dull y mae darparwyr blaenllaw eraill fel Cyngor Caerdydd yn ei ddefnyddio i ddarparu cartrefi arbenigol newydd ar gyfer pobl hŷn sy'n eu denu i symud yn hwyrach mewn bywyd.

⁷⁴ Fflat un ystafell wely gyda rhaniadau hyblyg sy'n galluogi gwahanol drefniadau cynllun yn ôl anghenion y preswylwyr. Er enghraifft, gellir agor y 'gofod stydi' addasadwy fel rhan o'r lolfâ, neu ei dynnu'n gyfan gwbl i greu ystafell wely fwy.

- 6.30 Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl hŷn sy'n byw ag anghenion gofal a chymorth yn cynyddu erbyn 2040. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith nad yw pobl yn dymuno byw mewn 'cartref gofal' yn hwyrach mewn bywyd. Argymhellir bod CBSC yn ehangu'r ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol ledled y fwrdeistref fel dewis amgen i 'ofal preswyl'.
- 6.31 Gweithio gyda phartneriaid LCC sydd â hanes o ddarparu tai gofal ychwanegol o ansawdd da yng Nghymru i ddarparu tai gofal ychwanegol sy'n cynnig tai hygyrch o ansawdd da.
- 6.32 Dylai tai cysgodol cyfoes newydd a thai gofal ychwanegol ddarparu:
- cartrefi sydd wedi'u dylunio yn unol ag egwyddorion dylunio HAPPI.
 - rheolwr cynllun ar gael ar y safle, wedi'i ategu gan dechnoleg sy'n darparu cymorth ac sy'n glynu wrth egwyddorion TAPPI.
 - darpariaeth Wi-Fi ar draws y safle neu yn yr ardaloedd cymunedol o leiaf.
 - mannau cymunedol bywiog a deniadol gyda nawws debyg i westy sy'n annog pobl i'w defnyddio mewn ffordd 'organig', sy'n golygu y byddai pobl yn naturiol yn stopio ac yn eistedd yn yr ardaloedd cymunedol; mae'r rhain fel arfer wedi'u lleoli'n nes at y fynedfa. Mae hefyd yn bwysig peidio â darparu gormod o le cymunedol, er mwyn cadw taliadau gwasanaeth mor fforddiadwy â phosibl.
 - cartrefi hygyrch sy'n cefnogi pobl i heneiddio yn eu lle. Ymhlith y nodweddion allweddol mae ystafell ymolchi wlyb, ceginau hygyrch, drysau a choridorau lletach, cartrefi eang sy'n cefnogi symudedd, a lifft.
 - ystyriaeth i ddyluniad sy'n gyfeillgar i ddementia, megis waliau o liwiau gwahanol ar bob lefel, arwyddion clir a chliwiau gweledol.
 - golau naturiol ac awyru drwyddo draw.
 - cymysgedd o gartrefi un a dwy ystafell wely, gan archwilio'r posibilrwydd o gartrefi '1 ystafell wely a mwy'.
 - ystafell westeion i'r teulu aros ynddi, yn enwedig os mai dim ond cartrefi un ystafell wely a ddarperir.
 - darpariaeth barcio dda, a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, siopau ac amwynderau.
 - ystyried y dopograffeg drwy eu lleoli ar dir gwastad, yn ddelfrydol yn agos at ganol trefi, er mwyn sicrhau bod pobl yn dal i allu cael mynediad at wasanaethau.
- 6.33 Dylid lleoli tai dynodedig ar gyfer pobl hŷn o fewn cymunedau presennol, nid ar safleoedd sy'n anodd eu datblygu at ddefnyddiau eraill; mewn rhai achosion, gallant ddarparu canolbwynt i'r gymuned leol.
- 6.34 Darparu technoleg gynorthwyol a phrif ffrwd sy'n gallu cefnogi canlyniadau iechyd a llesiant preswylwyr.

Ystyriaethau ynghylch tai presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

- 6.35 Ystyried yr ymchwil hon mewn perthynas ag adnewyddu tai cysgodol a thai dynodedig yn ôl oedran CBSC er mwyn eu gwneud yn fwy deniadol i bobl hŷn. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai mwy o bobl ystyried symud i dai ar gyfer pobl hŷn ar yr amod eu bod yn ddigon deniadol, fforddiadwy ac uchelgeisiol.

- 6.36 Lle nodir bod cynlluniau tai cysgodol presennol yn addas i'w hadnewyddu, mabwysiadu a chymhwyso egwyddorion dylunio Housing an Ageing Population: Panel for Innovation (HAPPI) cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.
- 6.37 Ail-frandio tai cysgodol presennol gan fod y term hwn yn annymunol i lawer o bobl hŷn. Byddai hyn yn cynnwys newid y derminoleg 'cysgodol'; mae termau megis 'Byw'n Annibynnol' neu 'Tai Ymddeol' yn tueddu i gael eu ffafrio.
- 6.38 Ail-frandio tai cysgodol presennol fel bod 'brand' CBSC adnabyddadwy i'w weld yn edrychiad a naws y cynlluniau.
- 6.39 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod proffil preswylwyr tai cysgodol yn dod yn fwy amrywiol, gyda phobl o wahanol oedrannau ac ag anghenion gwahanol yn byw ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, trigolion tai cysgodol 'traddodiadol' yn byw ochr yn ochr â phreswylwyr iau ag anghenion cymorth. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gall hyn wneud cynlluniau'n llai deniadol i ddarparu breswylwyr. Dylid ystyried pwy sy'n cael mynediad at dai cysgodol ac a oes lle i wahaniaethu rhwng cynlluniau yn ôl anghenion gofal/cymorth.
- 6.40 Deallir bod gan y Cyngor nifer sylweddol o dai dynodedig yn ôl oedran sy'n cartrefu pobl hŷn nad ydynt yn cael eu hystyried yn addas i'r diben, a'u bod wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Argymhellir y dylid ystyried canfyddiadau'r ymchwil hon wrth adolygu dyfodol tai dynodedig yn ôl oedran CBSC.
- 6.41 Mewn perthynas â thai dynodedig yn ôl oedran CBSC, argymhellir bod y stoc sy'n cael ei hystyried leiaf addas i'r diben yn cael ei hailddynodi'n 'dai anghenion cyffredinol'. Gallai hyn olygu cefnogi preswylwyr presennol i symud i dai mwy hygyrch lle maent yn dewis gwneud hynny, neu addasu eiddo presennol cyn belled ag y bo modd er mwyn sicrhau y gall pobl barhau i fyw yn eu cartrefi.
- 6.42 Cryfhau'r Gofrestr Tai Hygyrch a gedwir gan y Cyngor fel bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o ba eiddo ledled y fwrdeistref sydd â nodweddion hygyrch. Gweler yr enghraifft hon gan Gyngor Sir Swydd Gaerloyw.⁷⁵

Ystyriaethau o ran y cynnig gwasanaeth

- 6.43 Er mwyn annog/denu mwy o bobl i symud cartref yn hwyrach mewn bywyd, argymhellir bod pobl hŷn ar draws pob deiliadaeth yn cael cymorth gyda'r broses symud. Dylai CBSC weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i gefnogi pobl i, er enghraifft, glirio annibendod yn eu cartrefi a chael gwared ar eitemau diangen.
- 6.44 Dylid archwilio cymhellion ariannol fel ffordd o annog/denu pobl i symud; gallai'r cymhellion hyn gynnwys cymorth gyda chost symud neu gymorth gyda chost ailaddurno neu ddodrefnu cartref newydd.
- 6.45 Darparu gwybodaeth am fanteision ariannol posibl symud cartref, megis costau rhedeg a/neu gostau cynnal a chadw parhaus is.

⁷⁵ Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/blogs/An-Accessible-Housing-Register-Registering-the-approach-in-Gloucestershire/>

- 6.46 Mae angen cryfhau mynediad at gyngor annibynnol ar opsiynau tai a chymorth yn hwyrach mewn bywyd er mwyn cefnogi pobl wrth wneud penderfyniadau ynghylch symud i dai mwy addas.
- 6.47 Dangosodd yr ymchwil ansoddol nad yw'r term 'rightsizing' yn cael ei ddeall yn eang gan gyfranogwyr yr ymchwil, a'i fod yn derm proffesiynol yn bennaf. O ganlyniad, argymhellir osgoi'r term 'rightsizing' mewn marchnata sydd wedi'i anelu at annog pobl i symud yn hwyrach mewn bywyd.
- 6.48 Dylai'r Cyngor geisio ail-lunio'r naratif ynghylch symud yn hwyrach mewn bywyd, gan ganolbwyntio ar symud fel dewis sy'n gwella ffordd o fyw yn hytrach nag fel dewis olaf mewn argyfwng. Mae'r dystiolaeth yn dangos, er mwyn annog pobl hŷn i symud yn hwyrach mewn bywyd, ei bod yn bwysig defnyddio iaith sy'n teimlo'n gadarnhaol, yn rymusol ac yn canolbwyntio ar eu nodau ffordd o fyw, yn hytrach nag ar roi pethau i fyny. Dylai'r termau bwysleisio dewis, cysur a manteision i'r dyfodol, megis "dod o hyd i gartref sy'n addas i'ch bywyd nawr", "gwneud bywyd yn haws", neu "cynllunio ar gyfer y dyfodol". Dylai'r negeseuon dynnu sylw at yr hyn sy'n bwysig i bobl — megis cael mwy o amser ar gyfer hobiau, bod yn agosach at deulu, neu fyw mewn lle sy'n haws ei gynnal — yn hytrach nag awgrymu colled neu leihad mewn profiad o fywyd. Mae defnyddio iaith uchelgeisiol sy'n cyflwyno symud fel cyfle i gael mwy o ryddid, hwylustod a mwynhad yn helpu i wneud iddo deimlo fel cam rhagweithiol a chadarnhaol yn hytrach nag yn angenrheidrwydd.

Atodiad

Llyfryddiaeth yr adolygiad o'r dystiolaeth

- **Age Friendly Ireland** (2021). *A Study on the Awareness, Perceptions and Experiences of Older People of Rightsizing*. Ar gael yn: <https://agefriendlyireland.ie/wp-content/uploads/2021/06/AFI-Right-Sizing-Research-Report.pdf>
- **Aitken et al.** (2022). *What older people want research report*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf
- **APPG Housing and Care for Older People** (2024). *Regeneration of Outdated Sheltered Housing*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Housing/HousingforOlderPeople/ShelteredHousing/appg-inquiry-sheltered-housing-regen/>
- **Davies** (2014). *What older people want*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf
- **Grŵp Arbenigol ar Dai Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru** (2017). *Our Housing AGEnda: Meeting the Aspirations of Older People in Wales*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Our-Housing-AGEnda-Meeting-the-aspirations-of-older-people-in-Wales/>
- **Hammond, M., White, S., Walsh, S.** (2018). *Rightsizing: Reframing the housing offer for older people*. Ar gael yn: <https://ageing-better.org.uk/sites/default/files/2019-02/rightsizing-manchester-school-architects.pdf>
- **Hillcoat-Nallétamby, S. & Sardani, A.** (2015). *Qualitative Evaluation Report: The Moving On Service*. Commissioned by Canllaw, Porthmadog. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/170213-expert-group-final-report-eng.pdf
- **Housing LIN and Ipsos** (2024). *Older People's Housing Preferences*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/Support_materials/Reports/HLIN_Ipsos-Older-Peoples-Housing-Preferences_Report.pdf
- **Housing LIN**. *HAPPI Principles*. Ar gael yn: <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/HAPPI/>
- **King et al.** (2021). *What older people want*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf
- **Lifetime Home Standards**. Ar gael yn: <https://cae.org.uk/our-services/housing-services/lifetime-homes/>
- **MHCLG** (2024). *What older people want research report*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf
- **Price et al.** (2014). *What older people want research report*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/673f1d09b3f0df6d2ebaf02d/What_older_people_want_research_report.pdf

- **Public Health Wales and Gwent Regional Partnership Board** (2019). *The APPROPRIATE and RIGHTSIZING Study*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/The-Appropriate-and-Rightsize-Study-Technical.pdf
- **Shakespeare Martineau** (2023). *Moving On: Could Later Living Be the Answer to the Housing Crisis?* Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/0427-Moving-On-paper-report-SHMA-FINAL.pdf
- **Welsh Government** (2013). *Our Housing AGenda: Meeting the Housing Aspirations of Older People*. Ar gael yn: https://www.housinglin.org.uk/_assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/170213-expert-group-final-report-eng.pdf

Cyfraddau twf y boblogaeth 50+

Tabl 18. Cyfraddau twf y boblogaeth 50+ hyd at 2040 o 2021

Blwyddyn	2021	2025	2030	2035	2040
Poblogaeth 50+	73,238	74,843	75,935	77,560	79,225
% newid ers 2021		2.2%	3.7%	5.9%	8.2%
Poblogaeth 60+	47,544	50,505	53,853	55,335	55,712
% newid ers 2021		6.2%	13.3%	16.4%	17.2%
Poblogaeth 70+	26,317	27,646	29,509	32,103	34,428
% newid ers 2021		5.0%	12.1%	22.0%	30.8%
Poblogaeth 80+	8,794	9,841	11,843	12,555	13,443
% newid ers 2021		11.9%	34.7%	42.8%	52.9%

Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth pobl hŷn 2018 yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

Cyflenwad presennol o dai ar gyfer pobl hŷn (tai ymddeol/cysgodol a thai gofal ychwanegol)

Tabl 19. Cyflenwad presennol o dai ymddeol/cysgodol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Enw'r Cynllun	Cyfeiriad	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Nifer yr unedau
St Clare's	St Clare's, Rhymney, Tredegar, NP22 5JN	Caerphilly County Borough Council Housing	32
Prospect Place	Prospect Place, Abertysswg, Rhymney, NP22 5AB	Caerphilly County Borough Council Housing	30
Ysgwyddgwyn	Ysgwyddgwyn, Deri, Bargoed, CF81 9HY	Caerphilly County Borough Council Housing	24
Glynsyfi	Glynsyfi, Tredegar Newydd, NP24 6DE	Caerphilly County Borough Council Housing	32
Oaklands	Oaklands, Gilfach, Bargoed, CF81 8QE	Caerphilly County Borough Council Housing	31
St Gwladys Court	St Gwladys Court, Bargoed, CF81 8UG	Caerphilly County Borough Council Housing	21
Waunrhydd	Waunrhydd, Gelligaer, Hengoed, CF82 8HY	Caerphilly County Borough Council Housing	31
Heol Islwyn	Heol Islwyn, Nelson, Treharris, CF46 6HG	Caerphilly County Borough Council Housing	32
Pleasant Place	Pleasant Place, Penyrheol, Caerphilly, CF83 2NX	Caerphilly County Borough Council Housing	31

Enw'r Cynllun	Cyfeiriad	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Nifer yr unedau
Glyn Derw	Glyn Derw, Churchill Park, Caerphilly, CF83 3EZ	Caerphilly County Borough Council Housing	32
Greenacre Drive	Greenacre Drive, Bedwas, Caerphilly, CF83 8HG	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	31
The Willows	The Willows, Bedwas, Caerphilly, CF83 8BB	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	29
Grove Estate	Grove Estate, Trethomas, Caerphilly, CF83 8DH	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	62
Maesteg	Maesteg, Pentwynmawr, Trecelyn, NP11 4HH	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	27
St Peter's Close	St Peter's Close, Panside, Trecelyn, NP11 5DQ	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	11
Tir Y Pwll Terrace	Tir Y Pwll Terrace, Panside, Trecelyn, NP11 5GF	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	18
Gibbs Close	Gibbs Close, Coed Duon, NP12 1WL	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	21
Palmer's Place	Palmer's Place, Coed Duon, NP12 1WN	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	16
Gwyddon Court	Gwyddon Court, Market Place, Abertarn, NP11 5GW	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	11
The Ranks	The Ranks, Abertarn, Newport, NP11 4SA	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	25
Horeb Court	Horeb Court, Trinant, Crymlyn, NP11 3HZ	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	20
Ty Melin	Ty Melin, Croespenmaen, Crymlyn, NP11 3BX	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	12
Highfield Court	Highfield Court, High Street, Trecelyn, NP11 4GS	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	20
Ty Bedwellty	Ty Bedwellty, Cefn Fforest, Coed Duon, NP12 3JJ	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	25
Ty Mynyddislwyn	Ty Mynyddislwyn, Pontllanfraith, Coed Duon, NP12 2JE	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	28
Tredegar Court	Tredegar Court, Tredegar Street, Pont-y-cymer, NP11 7QA	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	26
Wunfawr House	Wunfawr House, Pont-y-cymer, Newport, NP11 7AN	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	22

Enw'r Cynllun	Cyfeiriad	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Nifer yr unedau
Alexandra Court	Alexandra Court, Ynysddu, Newport, NP11 7JF	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	19
Woodland View	Woodland View, Wattsville, Pont-y-cymer, NP11 7QE	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	21
Britannia Court	Britannia Court, Risca, Newport, NP11 6BL	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	22
St Mary's Court	St Mary's Court, Risca, Newport, NP11 6HB	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	18
Ty Isaf	Ty Isaf Complex, Risca, Newport, NP11 6NB	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	12
Y Glyn	Y Glyn, Maesycwmmmer, Hengoed, CF82 7PF	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	37
Ynyswen	Ynyswen, Sirhowy View, Pontllanfraith, NP12 2GW	Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	13
Quarry House	Quarry House, Cwrt Pen-Capel, CF83 1BH	Linc Cymru	37
Llwyn Onn	Llwyn Onn, Penpedairheol, CF82 8BB	Linc Cymru	23
Village Court	Village Court, Oakdale, NP12 0LU	Linc Cymru	23
Cwrt Cwm Derwen	Cwrt Cwm Derwen, Oakdale, NP12 0HN	Linc Cymru	9
Richmond Close	Richmond Terrace, Llanbradach, Caerphilly, CF83 3JE	United Welsh	29
Parrish Place	Commercial Street, Senghenydd, Caerphilly, CF83 4GP	United Welsh	18
Llys Nant Yr Aber	Caerphilly, Mid Glamorgan, CF83 3RS	United Welsh	18
St Davids	St Davids Close, Rhymney, Tredegar, Gwent, NP22 5NL	United Welsh	11
Beech Tree View	Caerphilly, Mid Glamorgan, CF83 1DX	United Welsh	6
Riverside Walk Deri	Riverside Walk, Deri, Bargoed, Caerphilly, CF81 9GE	United Welsh	9
Cwrt Andrew Buchan	Goshen Street, Rhymney, Tredegar, Gwent, NP22 5NN	Wales and West	35
Fferm-Y-Bryn	Brymynach Farm Estate, Ystrad Mynach, Hengoed, Mid Glamorgan, CF82 7BD	Wales and West	42
St Catherine's Court	Caerphilly, Mid Glamorgan, CF83 3NH	Wales and West	31
Cefn Glas	Coed Duon, Caerphilly, NP12 1HD	Pobl	14
		Cyfanswm	1,147

Ffynhonnell: EAC (2019), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025), Aelwyd Housing (2025), Linc Cymru (2025), Pobl (2025), United Welsh (2025), Wales and West Housing (2025)

Tabl 20. Cyflenwad presennol o dai gofal ychwanegol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Enw'r cynllun	Cyfeiriad	Cod post	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Nifer yr unedau
Cefn Glas	Maes y Coed, Coed Duon, Caerphilly, NP12 1WS	NP12 1WS	Pobl	28
Plas Hyfryd	74 Fford y Maes, Caerphilly, Mid Glamorgan, CF83 2BH	CF83 2BH	United Welsh	49
			Cyfanswm	77

Ffynhonnell: EAC (2019), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2025), Aelwyd Housing (2025), Linc Cymru (2025), Pobl (2025), United Welsh (2025), Wales and West Housing (2025)

Nodiadau o'r ymchwil ansoddol gyda phobl â phrofiad bywyd

Tenantiaid Tai Cysgodol CBSC yng Nghanolfan Gwyddon Court a The Ranks (27/05/25)

- Roedd ystod o ffactorau'n dylanwadu ar bobl i symud i Gwyddon Court a The Ranks:
 - iechyd eu hunain neu iechyd partner yn dirywio
 - colli partner, a bod y cartref blaenorol yn anodd ei reoli ar eu pen eu hunain, felly chwilio am eiddo llai
 - rhai pobl heb fod o reidrwydd yn chwilio am 'dai cysgodol' lle mae dynodiad oedran, ond wedi gorffen yno oherwydd eu bod eisiau cartref llai ac nad oedd dim arall ar gael
 - eisiau teimlo'n ddiogel ac yn saff, ac yn cael eu denu gan argaeledd staff a'r dyluniad diogel
 - eisiau cael mwy o ymdeimlad o gymuned
- Codwyd hygyrchedd y cynllun fel her i breswylwyr. I bobl â sgwteri neu gadair olwyn, mae'r cynllun yn anodd iawn symud o'i gwmpas.
- Mae'r cynllun yn gweithredu fel canolbwynt i'r gymuned leol. Nid preswylwyr yn unig oedd yn bresennol yn y sesiwn bingo; roedd pobl a oedd yn byw gerllaw hefyd yn ymuno ac yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o gymuned y mae'r cynllun yn ei roi iddynt.
- Pan ofynnwyd pa mor bell y byddai pobl yn ystyried symud yn hwyrach mewn bywyd, dywedodd y grŵp y byddai tua 2 filltir ar y mwyaf o'r man lle'r oeddent yn byw o'r blaen, gan ddangos bod pobl am aros yn agos at eu cymunedau presennol.
- Mae'r grŵp yn credu y dylid darparu mwy o dai 'cysgodol' cyfoes ledled bwrdeistref Caerffili er mwyn diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.
- Dylai nodweddion allweddol tai 'cysgodol' cyfoes gynnwys:
 - llety hygyrch ac eang i ystyried problemau symudedd yn hwyrach mewn bywyd. Mae ystafelloedd ymolchi gwlyb a lifft yn hanfodol mewn cynlluniau newydd.
 - lle awyr agored preifat, megis balconi bach.
 - storio digonol, gan fod pobl yn teimlo bod ganddynt le storio cyfyngedig yn eu cartrefi presennol.
 - lle gwyrdd a rennir yn yr awyr agored a golygfa braf.

- mae pobl yn credu bod un ystafell wely yn ddigonol, yn enwedig y rhai sy'n hunan-ariannu, ond bod angen darparu ystafell westeion fel y gall ffrindiau/teulu aros dros nos.
- mae lle cymunedol yn cael ei ystyried yn hanfodol, ac er bod pobl yn deall y gall hyn gynyddu cost byw mewn tai cysgodol, maent yn meddwl y dylid darparu rhywbeth i annog ymdeimlad o gymuned.
- mae preswylwyr yn credu bod rhywfaint o bresenoldeb staff yn hanfodol; mae pobl yn cael tawelwch meddwl bod rhywun yno rhag ofn, ac y gallant droi at rywun os oes ganddynt unrhyw broblemau.
- argaeledd teleofal i gefnogi annibyniaeth pan nad yw rheolwr y cynllun ar y safle.
- roedd safbwyntiau gwahanol ar ddyluniad ceginau; roedd rhai pobl yn hoffi cynllun agored tra roedd eraill yn hoffi gwahanu'r gegin er mwyn lleihau arogleuon coginio.
- mae parcio yn bwysig i bobl, ac mae hyn yn her yn y cynllun.
- Yn gyffredinol, nid oedd problem gyda'r term 'downsizing' ymhlith y preswylwyr; roedd pobl yn deall beth oedd yn ei olygu ac yn ei ddefnyddio, yn hytrach na 'rightsizing'. Roedd rhai'n teimlo ei bod yn gwbl naturiol 'symud i gartref llai' wrth fynd yn hŷn.
- Mae ymdeimlad o 'gywilydd' ynghlwm wrth y term 'tai cysgodol', ac nid yw pobl yn hoffi defnyddio'r gair hwn i ddisgrifio lle maent yn byw oherwydd ei gysylltiadau negyddol, ac oherwydd eu bod yn meddwl bod pobl yn eu gweld fel pobl 'hen'. Defnyddir y term 'byw'n annibynnol' neu 'complex' i ddisgrifio lle maent yn byw.

Tenantiaid Tai Cysgodol CBSC yn Waunrhydd (27/05/25)

- Rhannodd y cyfranogwyr amrywiaeth o resymau dros symud i'r cynllun:
 - symud oherwydd bod yn rhaid gadael eu llety preifat blaenorol gan fod y landlord yn gwerthu
 - i rai, roeddent yn teimlo bod angen iddynt fyw mewn cartref llai a oedd yn haws ei reoli
 - symudodd nifer o bobl er mwyn bod yn agosach at aelodau o'r teulu, sy'n cefnogi cysylltiadau cymdeithasol ac anghenion ymarferol
 - er mwyn teimlo'n ddiogel ac yn saff ac i gael mwy o ymdeimlad o gymuned
 - roedd rhai preswylwyr wedi profi digartrefedd cyn symud i dai cysgodol
- Mae'r rhan fwyaf o'r preswylwyr yn gwerthfawrogi byw mewn tai cysgodol ac ni fyddent am symud. Maent yn rhoi gwerth arbennig ar gymorth staff, a byddent yn ffafrio cael rheolwr cynllun penodedig.
- Nododd y preswylwyr fod y cynllun wedi newid dros y blynyddoedd, a bod mwy o bobl iau ag anghenion cymorth wedi bod yn symud i mewn, sydd wedi newid natur y cynllun. Mewn rhai achosion, gall hyn greu problemau i breswylwyr gan nad ydynt yn teimlo mor ddiogel.
- Nododd y preswylwyr nad yw'r gofod cymunedol yn cael ei ddefnyddio cymaint ag y byddent yn ei hoffi. Nid yw'n arbennig o groesawgar ac mae angen ei foderneiddio.
- Mynegodd y preswylwyr eu bod yn teimlo'n fwy diogel mewn tai cysgodol o gymharu â byw'n annibynnol yn y gymuned ehangach. Maent yn credu bod hyn yn un o'r prif ffactorau sy'n denu pobl i fyw mewn tai cysgodol.

Byngalos Grove 2 CBSC, Trethomas (28/05/25)

- Yn gyffredinol, roedd pobl yn hoffi byw yn Grove 2 ac ni fyddent am symud. Mae ganddynt gymdogion da ac maent yn teimlo eu bod wedi ymgartrefu lle maent.
- Roedd y cyfranogwyr wedi symud i fyngalos Grove 2 am nifer o resymau:
 - roedd byw mewn byngalo yn ffactor deniadol iawn
 - roeddent am gael cartref llai a mwy hygrych (er bod pobl yn teimlo y gellid gwella'r hygrychedd)
 - rhesymau iechyd eu hunain neu iechyd partner, a olygai nad oeddent yn gallu ymdopi mewn eiddo mwy gyda grisiau
 - i rai pobl, roeddent am symud i rywle â mwy o ymdeimlad o gymuned oherwydd eu bod yn teimlo'n unig yn eu cartrefi blaenorol
 - symudodd rhai preswylwyr hirsefydlog yno'n wreiddiol oherwydd eu bod yn cael eu denu gan bresenoldeb warden a oedd yn byw ar y safle
- Mae'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r dynodiad oedran ac ni fyddent am fyw ochr yn ochr â theuluoedd oherwydd eu bod yn meddwl y byddai'n rhy swnllyd, ac maent hefyd yn poeni am ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae pobl yn hoffi'r lleoliad, sy'n agos at drafnidiaeth, siopau a chanolfan iechyd dda.
- Er bod pobl wedi symud i rywle a oedd yn fwy hygrych na'u cartrefi blaenorol, maent yn canfod nad yw'r byngalos yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn na sgwteri. Mae pobl yn credu y dylid darparu ystafelloedd gwlyb drwyddynt draw.
- Codwyd heriau hefyd ynghylch mynediad i'r safle ar gyfer y gwasanaethau tân neu ambiwlans.
- Mae pobl yn gwerthfawrogi'r mannau gwyrdd o amgylch y cynllun, er bod cwynion ynghylch eu cynnal a chadw.
- Gall parcio fod yn her i ofalwyr a phreswylwyr.
- Caiff y system ddyrannu ei hystyried yn rhwystr i bobl leol symud i'r eiddo. Mae preswylwyr yn ymwybodol o bobl leol a fyddai'n hoffi cael eiddo, ond nad ydynt yn cael un o'r byngalos, y mae rhai ohonynt yn aros yn wag am gyfnod rhy hir.
- Mae preswylwyr am gael gwell gwybodaeth am bryd mae rheolwr y cynllun ar y safle ac yn teimlo nad yw hyn yn cael ei gyfathrebu'n ddigonol.
- Mae pobl yn credu y dylid cyfathrebu manteision byw mewn tai cysgodol yn well i drigolion hŷn mewn tai anghenion cyffredinol. Caiff canolbwyntio ar y manteision mewn marchnata ei weld yn ffordd dda o annog pobl i symud.

Tenantiaid Anghenion Cyffredinol CBSC (25/05/25)

- Hoffai'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw mewn tai anghenion cyffredinol aros yn eu cartrefi presennol. Roedd y rhan fwyaf o'r grŵp yn byw mewn eiddo mwy, tair ystafell wely. Mae pobl am gael gwell cymorth i addasu eu cartrefi ac i wybod at bwy i droi pe bai angen gofal/cymorth arnynt yn y cartref.
- Fodd bynnag, mae rhai pobl yn cydnabod efallai na fydd eu heiddo'n addas iddynt os bydd eu hiechyd a'u symudedd yn dirywio.

- Mae pobl am gael dewisiadau tai gwell yn hwyrach mewn bywyd; maent yn meddwl bod tai cysgodol presennol yn annymunol ac na fyddent yn eu denu i symud. Caiff y ddarpariaeth ei hystyried yn hen ffasiwn ac yn deimladol debyg i gartref gofal.
- Byddai mwy o bobl yn ystyried symud i dai ar gyfer pobl hŷn pe bai'n cynnig cartref sy'n edrych yn 'gyfoes' ac sydd wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch. Mae pobl yn meddwl y dylid darparu staff mewn cynlluniau tai cysgodol i gynnig cymorth ac i greu ymdeimlad o gymuned.
- Mae byw mewn tai dynodedig yn ôl oedran yn ddeniadol i rai pobl, tra nad oes gan eraill ddiddordeb yn y math hwn o fyw ac maent eisiau cartref cyffredin yn unig sydd wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch o'r cychwyn cyntaf. P'un a ydynt yn byw mewn tai dynodedig yn ôl oedran ai peidio, mae pobl yn chwilio am gymunedau cymysg o ran oedran gan fod hynny'n creu bywiogrwydd.
- Mae cael dewisiadau tai fforddiadwy yn hanfodol i'r cyfranogwyr; mae'r taliadau gwasanaeth sy'n dod gyda thai cysgodol neu dai gofal ychwanegol yn annog pobl i beidio â symud.
- O ran mathau o dai, byngalos yw'r dewis ffafriol, ond byddai rhai pobl yn ystyried symud i fflat ar yr amod ei fod yn eang a bod ganddo rywaint o le preifat y tu allan. Ceir hefyd ddiddordeb mewn tai llai.
- Mae gan bobl ddiddordeb mewn cartrefi gyda chymysgedd o feintiau ystafelloedd gwely; mae byw mewn fflat un ystafell wely yn dderbyniol, ond byddai llawer yn ffafrio dwy ystafell wely. Mae hyn yn dibynnu ar fforddiadwyedd a hefyd ar y 'dreth ystafell wely' os yw pobl yn symud cyn ymddeol.
- Mae byw mewn ardal sy'n agos at y man lle maent yn byw nawr, sydd ag ymdeimlad o gymuned ac sy'n agos at siopau, trafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau eraill yn bwysig. Nodwyd bod rhai tai lleol ar gyfer pobl hŷn wedi'u lleoli mewn ardaloedd bryniog, nad ydynt yn hawdd eu cyrraedd.
- Rhwystr mawr i symud yw cost y broses symud, gyda rhywun yn dweud, 'sut fyddwn i'n ymdopi'n ariannol, alla i ddim'.
- Dywedodd y cyfranogwyr nad yw'r broses o symud yn cael ei gwneud yn hawdd i bobl sydd am 'symud i gartref llai'. Nid oes gan bawb sgiliau digidol, ac mae'r broses dendro yn teimlo'n annheg.
- Ceir barn bod perchen-feddianwyr yn gallu cael mynediad at fyngalos mewn tai cymdeithasol, ac mae hyn yn peri anfodlonrwydd ymhlith pobl.
- Nid yw pobl yn deall yr ymadrodd 'rightsizing' ac maent yn ei weld yn ddryslyd.

Elderberries, Canolfan Glowyr Caerffili (15/07/25)

- Mae gan bobl ymlyniad cryf wrth eu cartref presennol a'u cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr am aros yn eu cartrefi presennol oherwydd atgofion, cysylltiadau teuluol a rhwydweithiau cymdeithasol lleol. Mae cartrefi'n aml yn gweithredu fel canolbwynt i'r teulu estynedig.
- Mae llawer wedi gwneud addasiadau i'r cartref neu wedi ystyried gwneud hynny er mwyn cefnogi heneiddio yn eu lle, ond mae rhwystrau megis cost, dyluniad anneniadol, ac anhawster cael cymorth neu wybodaeth.
- Mae angen mwy o wasanaethau hygyrch ar gyfer garddio, glanhau a chynnal a chadw, yn ogystal â gwybodaeth gliriach am y cymorth sydd ar gael a sut i gael mynediad ato.

- Mae pobl yn ceisio byw mewn cymunedau cymysg o ran oedran; mae cyfleoedd i ryngweithio rhwng cenedlaethau yn cael eu hystyried yn beth cadarnhaol.
- Mae'r cyfranogwyr am gael ystod o opsiynau tai — nid lleoliadau arbenigol neu sefydliadol yn unig — fel y gallant ddewis yr hyn sy'n gweddu orau i'w hanghenion a'u dewisiadau. Mae pobl yn tueddu i fod eisiau cartref 'cyffredin' arall yn hytrach na symud i dai arbenigol fel tai ymddeol neu dai gofal ychwanegol.
- Mae pobl yn ystyried bod tai ymddeol a thai gofal ychwanegol yn syniad da i'r rhai sydd eu hangen, ac yn meddwl y dylai fod mwy o'r ddarpariaeth hon ledled Caerffili. Byddai rhai pobl yn ystyried symud i'r math hwn o dai pe na bai'n teimlo'n 'sefydliadol'.
- Mae cost cartrefi gofal a thai arbenigol yn bryder mawr. Mae pobl am gael opsiynau tai hygyrch a fforddiadwy nad ydynt yn gofyn iddynt aberthu eu diogelwch ariannol.
- Mae cysylltiadau trafnidiaeth da ac agosrwydd at wasanaethau hanfodol (siopau, meddygon teulu, gweithgareddau cymdeithasol) yn flaenoriaethau, ond yn aml nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol. Mewn rhai achosion, gallai pobl ystyried symud er mwyn bod yn agosach at wasanaethau.
- Ceir ystod o rwystrau sy'n atal pobl rhag symud. Mae clirio annibendod a'r broses emosiynol o adael cartref hirdymor yn heriau sylweddol. Mae costau tai uchel, ymlyniad emosiynol wrth y cartref, diffyg opsiynau tai addas, a'r awydd i gadw ecwiti'r cartref ar gyfer y plant yn rhesymau mawr pam mae pobl yn amharod i symud.
- Nid yw'r term 'rightsizing' yn cael ei ddeall yn eang gan y cyfranogwyr, ac mae pobl yn meddwl ei fod yn derm dryslyd. Mae pobl yn gyfarwydd â'r term 'downsizing' ac yn meddwl bod ganddo gysylltiadau negyddol. Er mwyn annog pobl i ystyried symud yn hwyrach mewn bywyd, mae'r cyfranogwyr yn meddwl y dylid marchnata symud fel symudiad 'ffordd o fyw' yn hytrach na symud i rywbeth llai neu symud oherwydd eich bod yn mynd yn hŷn.

Men's Shed, Canolfan Glowyr Caerffili (24/07/25)

- Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 7 dyn ac 1 fenyw yn hwyluso'r grŵp. Roedd oedran y bobl yn amrywio o 55 i 85, ac roedd pawb yn berchen-feddianwyr.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi byw yn eu cartrefi ers dros 30 mlynedd, a rhai ers bron i 50 mlynedd. Roedd cymysgedd o bobl yn byw ar eu pen eu hunain neu gyda phartner. Roedd un person wedi symud o Gaerdydd i fyngalo er mwyn bod yn nes at deulu gan ei fod yn ei 80au ac roedd ei wraig wedi marw, felly roedd angen rhywfaint o gymorth arno. Roedd gan rai o'r cyfranogwyr iau blant oedolion yn dal i fyw gartref.
- Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr am aros yn eu cartrefi yn hwyrach mewn bywyd, er bod un cyfranogwr wedi symud o Gaerdydd i Gaerffili er mwyn bod yn nes at deulu pan fu farw ei wraig.
- Roedd yn well gan y cyfranogwyr yn gryf aros yn eu tai presennol a'u haddasu pe bai angen (e.e. lifftiau grisiau, toiledau lawr grisiau) yn hytrach na symud. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn byw mewn cartrefi mwy, rhai ar eu pen eu hunain, ac ychydig gyda phartner.
- Dywedodd pobl fod symud yn aml yn cael ei sbarduno gan argyfwng yn unig (iechyd gwael, colli partner).
- Fodd bynnag, nododd rhai o'r cyfranogwyr iau eu bod yn ystyried symud, ond nad oedd hyn am resymau iechedd sy'n gysylltiedig ag oedran; roedd yn fwy am newid ffordd o fyw, er enghraifft plant oedolion yn symud allan a meddwl am fyw mewn eiddo llai, neu eisiau cartref sydd ychydig yn fwy hylaw. Mae rhai pobl am ryddhau rhywfaint o ecwiti o'u cartrefi. Byddent â

diddordeb mewn tŷ llai neu, mewn rhai achosion, apartment, ond byddai angen i'r cartref gael o leiaf dwy ystafell wely.

- Mae'r rhwystrau i symud yn amrywio, ond mae gan lawer o bobl gysylltiadau emosiynol ac atgofion sy'n gysylltiedig â byw yn eu cartrefi am gyfnod hir.
- Mae logisteg a straen symud hefyd yn rhwystr (pacio, symud dodrefn, ailaddurno). Mae pobl hefyd yn ofni colli cymuned, cymdogion, anifeiliaid anwes a gerddi.
- Mae pobl yn chwilio am wasanaeth "un stop" i ddelio â logisteg symud (asiantau tai, cwmnïau symud, clirio tai). Byddai mwy o bobl yn ystyried symud pe bai hyn ar gael.
- Ceir hefyd bryderon ariannol sylweddol, gan gynnwys goblygiadau treth enillion cyfalaf a'r awydd i ddiogelu etifeddiaeth i'r teulu drwy ddal gafael ar eu cartref cyn hired â phosibl.
- Pe baent yn symud, byddent yn chwilio am gartref llai sy'n fwy hylaw, ond mae pobl yn teimlo nad yw'r opsiwn hwn ar gael. Nid yw'r cartrefi llai presennol yn ddeniadol neu maent yn rhy fach. Byddai pobl yn chwilio am ddwy ystafell wely.
- Mae pobl yn cydnabod yr angen am opsiynau tai mwy addas yn hwyrach mewn bywyd, megis tai ymddeol neu dai gofal ychwanegol, ond maent yn amharod i ddychmygu eu hunain yn byw ynddynt. Ceir bwlch rhwng yr hyn y mae pobl yn ei argymhell "i eraill" a'r hyn y byddent yn ei ddewis drostynt eu hunain.
- Nid oedd llawer yn hoffi'r syniad o dai cysgodol oherwydd eu bod yn eu cysylltu â thai cysgodol presennol, sy'n cael eu hystyried yn hen ffasiwn ac na fyddent yn eu denu i symud. Byddai mwy o bobl o bosibl yn ystyried symud pe bai'r llety hwn wedi'i gynllunio i edrych fel tai 'cyffredin' ac yn cynnig cartref cyfoes, modern y gallai pobl aros ynddo am oes.
- Gallai ail-frandio a moderneiddio tai cysgodol i'w gwneud yn fwy deniadol ddenu rhai pobl i symud, ond byddai angen iddo fod yn fforddiadwy i berchen-feddianwyr.
- Roedd y grŵp o'r farn bod angen marchnata tai cysgodol yn well i bobl hŷn, gan ddangos y manteision yn hytrach na gorfod symud oherwydd eich bod "angen gwneud". Nid yw'r term 'rightsizing' yn cael ei ddeall yn eang gan y rhan fwyaf o bobl, ac fe'i hystyrir yn derm proffesiynol.
- Roedd yn well gan bobl gymunedau cymysg o ran oedran, gyda chymuned gref, yn hytrach na chynlluniau ar wahân sydd wedi'u dynodi yn ôl oedran. Roedd pobl yn credu y dylai unrhyw fersiwn gyfoes o dai cysgodol yn y dyfodol gael ei hymgorffori mewn cymuned bresennol.
- Dangosodd y dystiolaeth fod pobl yn chwilio am gartrefi sydd wedi'u hadeiladu i fod yn addasadwy o'r cychwyn cyntaf (e.e. ystafelloedd ymolchi lawr grisiau y gellir eu trosi'n hawdd, mynediad di-risiau, drysau lletach). Mae pobl yn ceisio heneiddio yn eu lle yn eu cartref presennol yn hytrach na symud i dai arbenigol ar gyfer pobl hŷn.
- Mae'r dystiolaeth yn dangos bod pobl yn chwilio am gymdogaethau sy'n eu galluogi i deimlo ymdeimlad o gymuned. Ymhlith yr enghreifftiau cadarnhaol roedd ystadau bach cefnogol gyda chyfleusterau cymunedol a rennir a rhwydweithiau cryf rhwng cymdogion. Roedd pobl yn rhoi gwerth mawr ar y gymuned yng Nghanolfan Glowyr Caerffili ac yn ystyried y byddai cynllun tai cysgodol cyfoes gerllaw yn batrwm da ar gyfer datblygiadau eraill.
- Mae bron pawb yn y grŵp yn berchen ar gar ac yn amharod i roi'r gorau iddo gan y byddai hynny'n teimlo fel pe baent yn rhoi'r gorau i'w hannibyniaeth. Pe bai pobl yn symud, byddent am gael mynediad da at barcio.

- Roedd y grŵp hwn yn cynnwys 30 o fenywod o ystod eang o oedrannau, o 55 i 100. Roedd cymysgedd o berchen-feddianwyr a rhentwyr cymdeithasol, gan gynnwys llond llaw o bobl a oedd yn byw mewn tai ymddeol/cysgodol yn y sector cymdeithasol.
- Hoffai'r rhan fwyaf o unigolion aros yn eu heiddo presennol cyn hired â phosibl a gwneud addasiadau i ystafelloedd ymolchi/rhoi lifft grisiau i mewn ac ati. Mae perchen-feddianwyr yn poeni am gost addasu eu cartrefi, ac mae rhai'n meddwl ei bod yn annheg bod yn rhaid iddynt wario eu harian eu hunain ar addasiadau tra bod eraill yn cael grantiau/cymorth am ddim.
- Roedd rhai pobl eisoes wedi gwneud addasiadau er mwyn gallu aros yn eu lle, megis ystafell ymolchi lawr grisiau. Mae pobl yn chwilio am restr gyswllt o grefftwyr dibynadwy i'w cefnogi i addasu eu cartrefi; yn aml, y rhwystr yw peidio â gwybod at bwy i droi.
- Mae pobl hefyd yn chwilio am well mynediad at wybodaeth am beth sy'n digwydd pe bai angen gofal arnynt yn y dyfodol. Mae pobl yn meddwl y byddai defnyddio'r grŵp i ddarparu'r wybodaeth hon wyneb yn wyneb yn syniad da, gan nad yw llawer o bobl ar-lein.
- Cododd pobl ddiffyg trafndiaeth gyhoeddus fel problem iddynt yn hwyrach mewn bywyd. Er y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ffafrio gweld gwelliant mewn trafndiaeth gyhoeddus, byddai rhai yn ystyried symud pe bai hynny'n golygu eu bod yn cael gwell mynediad at siopau/amwynderau a chysylltiadau trafndiaeth.
- Nododd pobl eu bod fwyaf tebygol o ystyried symud pan fyddai eu hiechyd yn dirywio yn hytrach na chyn hynny.
- Wrth feddwl am symud i gartref arall, roedd rhywfaint o ddiddordeb mewn symud i dai ar gyfer pobl hŷn megis tai ymddeol/cysgodol, ar yr amod eu bod yn hygyrch, yn gyfoes ac yn fforddiadwy.
- Roedd rhai pobl eisoes yn byw mewn tai cysgodol ac yn eithaf bodlon ar y llety hwn, ac yn hoffi'r ymdeimlad o gymuned yr oeddent yn ei deimlo. Her wirioneddol yw dod o hyd i dai ymddeol/cysgodol fforddiadwy os ydych yn berchen-feddianwr na fyddai'n gymwys am dai cymdeithasol ac na all fforddio cynllun yn y sector preifat.
- Pe bai pobl yn symud i dai cysgodol, byddent am i reolwr cynllun fod ar gael, yn ogystal â lle cymunedol i annog ymdeimlad o gymuned. Fodd bynnag, er mwyn ei wneud yn fwy fforddiadwy, byddai pobl yn ystyried llai o le cymunedol, ar yr amod bod y cynllun mewn lleoliad da yn agos at amwynderau.
- Mae pobl yn cael eu digalonni gan dai cysgodol presennol gan eu bod yn meddwl eu bod wedi dyddio ac na fyddent yn eu cefnogi pe baent yn datblygu anghenion symudedd. Mae'n teimlo fel cartref gofal.
- Byddai'r mwyafrif o bobl yn ffafrio symud i fyngalo, ond maent yn deall bod y rhain yn defnyddio llawer o dir i'w datblygu. Caiff byngalos eu hystyried yn ddelfrydol gan eu bod yn llai, ar un lefel, ac mae pobl yn hoffi'r ffaith nad ydynt wedi'u cysylltu ag eiddo eraill. Mae pobl yn poeni am sŵn mewn fflatiau ac am deimlo eu bod yn rhy agos at ei gilydd.
- Fodd bynnag, byddai pobl yn ystyried ystod o fathau eraill o dai llai pe baent yn symud, megis tŷ llai gyda dwy ystafell wely; mae'r rhan fwyaf o bobl mewn tai tair neu bedair ystafell wely. Byddai rhai pobl yn ystyried symud i apartment ar yr amod bod ganddo le awyr agored, ei fod yn eang, ac wedi'i gynllunio i liniaru sŵn gan gymdogion.
- Byddai'r rhan fwyaf o berchen-feddianwyr yn chwilio am eiddo dwy ystafell wely ac ni fyddent yn ystyried un ystafell wely yn unig. Byddai pobl yn defnyddio'r ail ystafell wely ar gyfer gwsteion, hobiau, storio neu, mewn achosion lle mae angen i bartneriaid gysgu ar wahân am resymau ieuchyd.

- Gallai mwy o bobl ystyried symud pe bai ganddynt well dewis o opsiynau tai; ar hyn o bryd nid yw pobl yn teimlo bod digon o lety i gefnogi pobl hŷn yn y fwrdeistref.
- Byddai pobl hefyd yn chwilio am gymorth gyda symud, gan y gall hyn fod yn rhwystr mawr. Mae'r broses symud yn flinedig yn gorfforol ac, heb gymorth gan y teulu, byddai'n anodd.

Fforwm 50+ Caerffili

- Mae'r mwyafrif o bobl am 'aros yn eu lle' a chael cymorth i wneud hynny drwy:
 - gael mynediad at addasiadau y gallant eu gwneud i'r cartref, a chynghor ar hynny
 - ddeall sut i gael mynediad at ofal a chymorth yn y cartref a sut i dalu amdanynt
 - gael cymorth i gynnal eu gerddi a'u cartrefi
- Mae pobl yn chwilio am gymorth i addasu eu cartrefi. Roedd rhai yn y grŵp eisoes wedi gosod ystafell ymolchi lawr grisiau er mwyn gallu byw lawr grisiau.
- Gall aros yn eu lle fod hyd yn oed yn bwysicach o safbwynt 'diwylliannol' i bobl yng Nghymru, gan fod pobl yn tueddu i fod yn canolbwyntio'n gryf ar deulu a chymuned ac am aros yn eu cymunedau presennol. Tynnodd y sgwrs sylw at y ffaith bod teuluoedd pobl wedi byw yn yr un gymuned ers cenedlaethau, sy'n creu cysylltiadau cryfach â'u cymunedau presennol.
- Mae rhai yn y grŵp wrthi'n cynllunio ymlaen llaw i addasu eu cartrefi a gwneud y trefniadau angenrheidiol, ond mae angen gwneud mwy i helpu pobl i gynllunio ymlaen llaw a deall eu dewisiadau/gofynion o ran tai a gofal.
- Mae rhai pobl yn ystyried symud, yn enwedig y rhai iau, ond nid i ddatblygiad arbenigol — dim ond i gartref cyffredin arall sy'n fwy hylaw. Pe baent yn symud, byddent am gael cartref llai, ond byddai pobl am gael o leiaf dwy ystafell wely.
- Nid oes neb am fod mewn cartref gofal; dylid cefnogi pobl i barhau i fyw gartref neu i symud i lety arall â chymorth, megis tai gofal ychwanegol, cyn belled ag y bo modd.
- Caiff tai gofal ychwanegol eu hystyried yn beth da i bobl ag anghenion gofal/cymorth, ac mae angen y math hwn o lety yn y fwrdeistref.
- Mae angen fersiwn gyfoes o dai cysgodol sy'n fforddiadwy ac sy'n denu pobl i symud oherwydd bod y cartref o ansawdd uchel, yn hawdd ei gynnal ac wedi'i ddylunio'n hyfryd.
- Ceir diddordeb posibl mewn pentref ymddeol; mae pobl yn gweld y model hwn fel rhywbeth sy'n eich galluogi i gael eich gofod eich hun o'i gymharu â bloc o fflatiau ar gyfer pobl hŷn sy'n teimlo'n gaeedig iawn.
- Nid yw pobl yn tueddu i ffafrio fflatiau gan nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu gofod eu hunain; byddai'n well ganddynt dŷ llai neu, yn ddelfrydol, fyngalo. Fodd bynnag, byddai mwy o bobl yn ystyried symud i fflat pe bai'n cynnig llety deniadol a fforddiadwy.
- Rhwystrau i symud:
 - cael gwared ar eiddo: 'Fe gymerodd hi chwe mis i mi glirio'r llofft'.
 - fforddiadwyedd; ni fyddai rhai pobl yn gallu fforddio cartref newydd, ac mae cost y broses symud yn rhwystr, megis ffioedd cyfreithiol, treth stamp a thalu am gwmni symud.
 - awydd i gadw gafael ar gartrefi fel ased (i'w trosglwyddo i'r teulu neu i dalu am ofal/cymorth).

- awydd i aros yn eu cymuned, ond diffyg dewisiadau addas gerllaw.
- Mynegodd y grŵp safbwyntiau gwahanol ar dalu am ofal cymdeithasol. Mae rhai'n meddwl, os oes gennych fodd, y dylech dalu am eich gofal eich hun. Mae eraill yn meddwl bod y system yn annheg ac wedi gweld asedau teuluol yn cael eu diddymu pan fo aelodau o'r teulu angen gofal cymdeithasol, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o gadw gfael ar eu cartrefi am gyfnod hirach yn hytrach na symud, rhag ofn y bydd angen iddynt dalu am eu gofal.
- Mae'r naratif ynghylch 'rhyddhau cartrefi teuluol' pe bai person hŷn yn symud o gartref mwy i un llai yn annymunol ac yn stigmatiddio pobl hŷn. Dylid osgoi hyn ar bob cyfrif.
- Dylai unrhyw farchnata sy'n annog pobl hŷn i symud i lety mwy addas ganolbwyntio ar 'ddewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol', ac nid ar symud oherwydd bod rhywun yn 'hŷn', ond oherwydd eu bod yn dewis symud. Er y deallir bod 'rightsizing' yn derm sy'n ceisio hyrwyddo symud yn hwyrach mewn bywyd fel opsiwn mwy cadarnhaol, mae pobl yn credu na fyddai'r term hwn yn cael ei ddeall yn eang.

Nodiadau o'r ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid proffesiynol

Negeseuon allweddol o grŵp ffocws staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Safbwyntiau ar aros yn eu lle o gymharu â symud

- Mae llawer o bobl hŷn yn mynegi ffafriaeth gref dros aros yn eu lle, yn enwedig os ydynt yn hapus yn eu cartref a'u cymuned bresennol. Mae cyfarwydd-dra, rhwydweithiau cymorth sefydledig ac ymlyniad emosiynol wrth gartref y teulu yn rhesymau pwerus dros beidio â bod eisiau symud.
- Caiff symud ei ystyried yn aml yn beth llawn straen ac yn llethol, yn enwedig oherwydd logisteg clirio annibendod, pacio a threfnu symud ar ôl blynyddoedd lawer mewn un lle. Mae diffyg cymorth ymarferol a dewisiadau addas eraill yn annog pobl i beidio â symud ymhellach.
- Yn aml, argyfwng sy'n sbarduno symud yn hwyrach mewn bywyd — megis dirywiad iechyd neu brofedigaeth — yn hytrach na dewis. Mae pobl yn fwy tebygol o symud pan nad oes ganddynt opsiwn arall, yn hytrach na cheisio cartref sy'n fwy addas yn rhagweithiol.
- Fodd bynnag, mae rhai pobl — yn enwedig yn y grŵp "pobl hŷn iau" (50–65) — yn fwy agored i symud am resymau ffordd o fyw, megis symud i gartref llai, lleihau costau neu chwilio am gartref mwy hylaw. Mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol o ystyried symud cyn argyfwng, ond dim ond os oes dewisiadau deniadol ac addas ar gael.
- Ceir bwlch cydnabyddedig yn y farchnad ar gyfer tai sy'n apelio at y rhai a allai symud o ddewis, yn hytrach nag o angen. Mae diffyg opsiynau o'r fath yn golygu bod llawer o bobl yn aros yn eu lle hyd yn oed os nad yw eu cartref presennol yn ddelfrydol.
- Ceir diffyg cydweddu rhwng anghenion a dewisiadau tai pobl hŷn a chynnig tai presennol CBSC. Fflatiau bach yw'r rhan fwyaf o'r stoc sydd ar gael, neu mewn achosion prin stiwdios, a ddarperir gan LCCs eraill, ac nid yw'r rhain yn bodloni disgwyliadau (mae preswylwyr yn dal i fod eisiau ail ystafell wely a lle awyr agored preifat). Ar yr un pryd, nid yw anghenion yn cael eu diwallu gan nad yw llawer o gartrefi'n addas i bobl ag anghenion symudedd sy'n gysylltiedig ag oedran.

Safbwyntiau ar yr hyn a fyddai'n denu pobl i symud

- Opsiynau tai addas: Mae pobl yn fwy tebygol o symud os oes dewisiadau deniadol eraill sy'n cyd-fynd â'u dewisiadau, yn enwedig eiddo dwy ystafell wely gyda gerddi preifat, cynlluniau hygrych (dim grisiau), a lle i ymwelwyr neu hobïau. Nid yw llawer am symud i fflatiau bach na

thai cysgodol traddodiadol, ond byddent yn ystyried cartrefi wedi'u dylunio'n dda, modern a hyblyg.

- Mathau o gartref: Mae preswylwyr yn dweud yn gyson eu bod eisiau byngalos gyda gerddi bach, hylaw. Fodd bynnag, mae byngalos yn defnyddio llawer o dir ac nid ydynt yn gynaliadwy i'w hadeiladu ar raddfa fawr, sy'n codi'r angen am ddewisiadau tai deniadol eraill. Barn y Cyngor yw bod angen mwy o gartrefi uchelgeisiol, wedi'u dylunio'n dda, ar gyfer pobl hŷn, o wahanol fathau a meintiau, er mwyn annog pobl i symud cyn argyfwng.
- Rhynggenedlaethol: Caiff creu tai rhynggenedlaethol a chymunedau cymysg eu hystyried yn fuddiol, gan feithrin cymunedau cymysg a bywiog.
- Lleoliad: Mae aros yn eu cymuned bresennol, yn agos at ffrindiau, teulu a rhwydweithiau cymorth, yn flaenoriaeth uchel. Mae pobl yn amharod i symud os yw hynny'n golygu gadael eu hardal gyfarwydd.
- Cymorth gyda'r broses symud: Mae logisteg a straen symud — yn enwedig clirio annibendod, pacio a threfnu cyfleustodau — yn rhwystrau mawr. Gall cymorth ymarferol gyda'r tasgau hyn, weithiau hyd yn oed yn fwy na chymhellion ariannol, wneud gwahaniaeth sylweddol.
- Canfyddiad a chyfathrebu cadarnhaol: Mae pobl yn fwy tebygol o symud os caiff y tai newydd eu marchnata fel rhywbeth uchelgeisiol, annibynnol a chymunedol, yn hytrach nag fel dewis olaf neu lety ar gyfer "hen bobl". Caiff newid y naratif ynghylch symud yn hwyrach mewn bywyd ei weld yn bwysig.
- Cymhellion: Mae cymhellion ariannol (megis taliadau am roi'r gorau i gartrefi mwy) wedi cael eu defnyddio mewn mannau eraill a gallant helpu, ond yn aml y "cymhelliant" mwyaf effeithiol yw'r cyfuniad o gartref newydd dymunol a chymorth ymarferol gyda symud.

Safbwyntiau ar dai cysgodol

- Mae llawer o bobl hŷn yn amharod i ystyried tai cysgodol oherwydd eu henw da. Fe'u gwelir yn aml fel rhywbeth ar gyfer yr hen iawn neu'r eiddil, neu fel rhywbeth sy'n gysylltiedig â cholli annibyniaeth a "llwyth o hen bobl yn eistedd o gwmpas yn chwarae bingo ac yn gwau".
- Ceir stigma cryf ynghlwm wrth y term "tai cysgodol", ac mae rhai pobl yn credu ei fod yn golygu bod angen warden i wneud pethau drostynt, neu nad yw'n golygu byw'n wirioneddol annibynnol.
- Mae'r canfyddiad negyddol hwn yn golygu y gall hyd yn oed pobl yn eu 70au ddweud, "Dwi ddim yn hen, dwi ddim eisiau tai cysgodol", er y gallent elwa arnynt.
- Fodd bynnag, mae gweithwyr proffesiynol yn adrodd bod llawer o bobl, unwaith y maent yn symud i dai cysgodol, yn cael eu synnu'n bleserus ac yn dweud yr hoffent fod wedi gwybod yn gynt beth oedd y llety mewn gwirionedd. Yn aml, mae'r profiad go iawn yn llawer gwell nag y mae'r enw da yn awgrymu.
- Ceir angen cydnabyddedig i newid y naratif a gwella'r cyfathrebu ynghylch yr hyn y mae tai cysgodol yn ei gynnig, gan bwysleisio annibyniaeth, cymuned a chyfleusterau modern yn hytrach na stereoteipiau hen ffasiwn.
- Mae diffyg tai "canol ffordd" (rhwng cartref teuluol mawr a thai cysgodol) hefyd yn gyrru ffocws pobl ar fyngalos, sy'n cael eu hystyried yn ddewis mwy derbyniol.

Safbwyntiau ar dai dynodedig yn ôl oedran

- Ceir cyfran fawr o'r stoc dai dynodedig yn ôl oedran (dros 2,000 o gartrefi) nad yw'n addas i'r diben ar gyfer pobl hŷn, ac mae ei faint yn cuddio'r angen gwirioneddol am opsiynau byw gwell yn hwyrach mewn bywyd.

- Mae llawer o'r stoc dai dynodedig yn ôl oedran presennol yn cael ei hystyried yn etifeddiaeth o benderfyniadau hanesyddol, a wnaed yn aml am resymau fel diogelu eiddo rhag Hawl i Brynu neu ragdybiaethau bod pobl hŷn yn denantiaid tawelach.

Negeseuon allweddol gan Reolwr Tai Pobl Hŷn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Parodrwydd pobl hŷn i symud cartref a'r tebygolrwydd o wneud hynny

- Pan fydd preswylwyr yn cysylltu â'n tîm, fel arfer maent eisoes yn chwilio am lety cysgodol, felly mae'r penderfyniad neu'r posibilrwydd o symud fel arfer eisoes wedi'i wneud, ac maent yn gyffredinol yn fodlon symud i lety o faint mwy addas. Yn ystod ymweliadau gwyllo, sef ein rhyngweithio cyntaf â phreswylwyr fel arfer, maent yn aml yn dweud eu bod yn edrych i symud oherwydd dirywiad yn eu hiechyd corfforol, eu gallu i reoli gohebiaeth a bywyd bob dydd (fel arfer oherwydd cyflwr iechyd meddwl fel dementia), er mwyn teimlo'n fwy diogel yn eu heiddo, neu oherwydd y rhyngweithio cymdeithasol y gall tai cysgodol ei gynnig. Gellir hefyd ystyried symud oherwydd hygyrchedd gwael cartref presennol, er enghraifft oherwydd grisiau neu risiau.
- Mae tebygolrwydd pobl hŷn o symud yn dibynnu ar y cynnig llety sydd ar gael. Lle mae lefelau uchel o lety cysgodol neu lety dynodedig ar gael yn yr ardal ddymunol, mae'n fwy tebygol y bydd rhywun yn cael cynnig ac yn gwneud y symudiad.

Safbwyntiau ar y cyflenwad presennol o lety ar gyfer pobl hŷn

- Yn gyffredinol, mae ansawdd y cyflenwad presennol o lety ar gyfer pobl hŷn yn dda yn y fwrdeistref, yn enwedig y cynlluniau hynny sydd wedi cael eu hadnewyddu/ailfodelu. Ceir rhai problemau gyda thopograffeg mewn rhai cynlluniau, ac mae nifer o gynlluniau wedi'u dylunio'n wael ar gyfer pobl hŷn a'u hanghenion iechyd corfforol. Mae gan y tîm ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae preswylwyr ei eisiau, ac rydym yn rhyngweithio ac yn ymgynghori â'n preswylwyr yn rheolaidd i helpu i lunio'r gwasanaethau o fewn tai cysgodol. Mae gan CBSC hefyd swm sylweddol o lety anghenion cyffredinol dynodedig, felly mae argaeledd yn dda. Mae diffyg tai wedi'u haddasu'n llawn ar gyfer y rhai ag anghenion iechyd corfforol sylweddol ar draws pob oedran, nid pobl hŷn yn unig.

Dewisiadau a blaenoriaethau pobl o ran cartref newydd

- Yn ystod ymweliadau gwyllo, gwelwn gymysgedd o ymatebion. Mae rhai cynlluniau'n hynod ddymunol (fel arfer y rhai sydd â fflatiau neu fyngalos mawr eu maint ac sydd wedi cael eu hadnewyddu); mae preswylwyr fel arfer yn hapus iawn wrth fyw yn y lleoliadau hyn ac yn gallu byw yno am gyfnod sylweddol gyda rhai addasiadau a mewnbwn Therapi Galwedigaethol. Gallwn gael trafferth gosod yr eiddo hynny sydd â mannau llai (ystafelloedd gwely ac ystafelloedd byw) a'r rhai ar loriau uchaf neu sydd â grisiau allanol ar gyfer mynediad.
- Mae blaenoriaethau fel arfer yn disgyn i'r categorïau canlynol:
 - yn agos at y teulu
 - mynediad hawdd at amwynderau lleol
 - yn agos at gysylltiadau trafndiaeth
 - byw gyda mynediad gwastad
 - cyfleusterau cawod hygyrch
 - lle cymunedol i gymryd rhan mewn gweithgareddau
 - eiddo sy'n ddigon mawr i ddiwallu anghenion hyblyg (storio offer symudedd, caniatáu i deulu neu ofalwyr aros, galluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn i gael mynediad yn hawdd, hygyrchedd pob ystafell a ffitiadau)

- mynediad at larwm crog a monitro careline
- mynediad at gymorth gan y SHO neu asiantaeth arall.

Ofnau, rhwystrau a'r cymorth sydd ei angen

Mae'r rhwystrau'n cynnwys:

- gallu trefnu'r symud ei hun a chludo'r holl eiddo
- gorfod rhoi'r gorau i'r gwerth emosiynol sydd ynghlwm wrth eiddo
- gorfod cyfaddawdu ar eu 'rhestr ddymuniadau'; yn aml mae'n rhaid i breswylwyr bwysu a mesur beth sydd bwysicaf iddynt ac yn aml cyfaddawdu ar rywbeth, boed hynny'n lleoliad, maint yr eiddo neu fynediad at y gymuned
- gwrthwynebiad gan y teulu (rydym yn aml yn gweld hyn pan fydd preswylwyr yn dewis symud yn amlach)
- pryderon sy'n ymwneud â ffydd (gwelsom achos lle gwrthododd preswilydd symud i'r pentref nesaf gan fod yr eglwys yr oedd hi'n ei mynychu ar ddiwedd y stryd lle'r oedd hi'n byw ar hyn o bryd)
- gall byw'n gymunedol (yn enwedig o dan yr un to) fod yn annymunol i rai

Mae'r ofnau'n cynnwys:

- methu ag addasu i eiddo llai
- bod ymhellach i ffwrdd oddi wrth gymdogion neu ffrindiau neu amwynderau lleol eu heiddo presennol
- gorfod rhoi'r gorau i eitemau a dodrefn, gan fod yn rhaid i breswylwyr yn aml leihau maint eu heiddo neu brynu rhai newydd i weddu i'r eiddo newydd
- gall fforddiadwyedd fod yn bryder i rai

Mae'r cymorth sydd ei angen yn aml yn cynnwys:

- cyflwyniadau i gymdogion ac annog pobl i fynychu gweithgareddau cymdeithasol er mwyn helpu'r preswilydd newydd i deimlo'n rhan o'i gymuned newydd
- trefnu cyfleustodau, cofrestru gyda gwasanaethau newydd megis meddyg teulu/deintydd ac ati
- gwneud cais i awdurdodau/sefydliadau i newid cyfeiriad
- dangos sut mae swyddogaethau'r eiddo newydd yn gweithio; sut mae gosodiadau'r boeler yn gweithio, peiriannau golchi dillad ac ati, hyd yn oed pa ddyddiau y cesglir biniau, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn hyderus yn ddigidol
- atgyfeiriadau ar gyfer addasiadau neu wasanaethau cymorth.

Negeseuon allweddol o grŵp ffocws Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

Roedd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig canlynol yn bresennol: United Welsh, Wales and West Housing a Linc Cymru.

Safbwyntiau ar bobl hŷn mewn tai anghenion cyffredinol

- Mae llawer o bobl hŷn yn ffafrio aros yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl, ac mae tai anghenion cyffredinol yn aml yn caniatáu hynny, yn enwedig os yw'r eiddo wedi'i addasu'n briodol.
- Ceir heriau sylweddol wrth addasu tai anghenion cyffredinol i ddiwallu anghenion pobl hŷn, megis gosod lifftiau grisiau, rampiau neu geginau hygyrch. Mae cadw cofnodion am addasiadau yn aml yn wael, sy'n ei gwneud yn anodd paru eiddo â'r rhai sydd eu hangen.
- Ceir rhwystredigaeth ynghylch addasu cartrefi teuluol mawr ar gyfer pobl hŷn sengl neu gyplau, gan nad yw hyn bob amser yn ddefnydd effeithlon o'r stoc dai, ond prin yw'r cymhellion neu'r mecanweithiau i annog pobl i symud i gartref llai.
- Mae'r grŵp yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi pobl hŷn i fyw'n dda mewn tai anghenion cyffredinol, ond mae hefyd yn gweld angen am ragor o opsiynau mwy addas, hygyrch a deniadol i annog pobl i symud pan fo hynny'n briodol.
- Ceir consensws bod angen ystod o ddewisiadau tai, gan gynnwys tai anghenion cyffredinol a thai arbenigol, er mwyn diwallu dewisiadau ac anghenion amrywiol pobl hŷn.

Safbwyntiau ar dai cysgodol

- Caiff modelau tai cysgodol traddodiadol eu hystyried yn rhai sydd fwyfwy hen ffasiwn ac yn llai deniadol i lawer o bobl hŷn, yn enwedig gan fod gwasanaethau cymorth (fel wardeniaid a gweithgareddau cymunedol) wedi'u tynnu'n ôl oherwydd toriadau cyllid.
- Mae erydiad cymorth ar y safle a gwasanaethau cymunedol wedi lleihau apêl tai cysgodol, gan arwain at fwy o arwahanrwydd cymdeithasol ymhlith preswylwyr a'i gwneud yn anoddach gosod rhai cynlluniau, yn enwedig y rhai mewn lleoliadau llai deniadol.
- Ceir cydnabyddiaeth bod rhai awdurdodau lleol (e.e. Caerdydd) yn ailfuddsoddi yn y model traddodiadol, gyda phresenoldeb staff a gweithgareddau, a bod y cynlluniau hyn yn profi'n boblogaidd ac mewn galw. Mae hyn yn awgrymu y gall cynnig tai cysgodol sydd ag adnoddau da a gwasanaethau cryf fod yn ddeniadol o hyd.
- Nododd y grŵp fod proffil preswylwyr presennol mewn tai cysgodol/ymddeol yn fwy amrywiol, gan gynnwys pobl iau ag anghenion cymhleth (yn aml oherwydd digartrefedd neu broblemau iechyd), a gall hyn greu heriau i gydlyniant cymunedol a rheolaeth.
- Ceir consensws bod lleoliad yn ffactor hollbwysig yn llwyddiant tai cysgodol; mae cynlluniau mewn lleoliadau da yn haws eu gosod, beth bynnag fo'r model.
- Awgrymodd rhai cyfranogwyr mai'r hyn sydd ei angen yw fersiwn gyfoes o dai cysgodol: cartrefi hygyrch, deniadol ac o ansawdd uchel, gyda rhyw lefel o ddynodiad oedran a chymorth dewisol, yn hytrach na dychwelyd at yr hen fodel. Cyfeiriodd y grŵp at raglen Byw yn y Gymuned Caerdydd fel enghraifft o ddatblygu'r math hwn o dai, ac roedd rhai pobl o'u cynlluniau ar gyfer pobl hŷn wedi symud i mewn.
- Mae'r grŵp yn gweld cynlluniau byw yn y gymuned Caerdydd fel model posibl o lwyddiant, ond hefyd yn nodi'r angen am fwy o feddwl cydgysylltiedig a gwell hyrwyddo ystod o opsiynau tai ar gyfer pobl hŷn.
- Ceir hefyd angen am well cynllunio strategol a buddsoddi i adnewyddu, ailbwrpasu neu, mewn rhai achosion, ail-ddatblygu stoc tai cysgodol anaddas.

Safbwyntiau ar dai gofal ychwanegol

- Caiff tai gofal ychwanegol eu hystyried yn opsiwn gwerthfawr, yn enwedig i bobl y mae eu hiechyd neu eu hanghenion gofal wedi cynyddu, yn aml yn dilyn argyfwng neu ryddhad o'r

ysbyty. Mae'n darparu lleoliad lle gellir darparu gofal yn hyblyg wrth i anghenion newid. Mae pobl yn tueddu i gael eu gyrru i symud i ofal ychwanegol yn dilyn argyfwng iechyd.

- Ceir pryder bod tai gofal ychwanegol yn cael eu defnyddio fwyfwy ar gyfer pobl ag anghenion uwch a mwy cymhleth, gan symud i ffwrdd oddi wrth y bwriad gwreiddiol o gymysgedd o breswylwyr ag anghenion isel, canolig ac uchel. Gall hyn newid deinameg y cynlluniau a gwneud iddynt deimlo'n fwy fel gofal preswyl, a allai atal rhai pobl hŷn rhag symud i mewn.
- Nododd y grŵp nad yw tai gofal ychwanegol bob amser yn cael eu deall yn dda gan y cyhoedd, a bod angen gwell cyfathrebu am yr hyn y maent yn ei gynnig, yn enwedig fel bod pobl yn gallu symud i mewn heb unrhyw anghenion gofal a heneiddio yn eu lle wrth i'w hanghenion newid.
- Tynnodd rhai cyfranogwyr sylw at bwysigrwydd lleoliad a dyluniad, a gwerth integreiddio gofal ychwanegol â mathau eraill o dai (megis byngalos a thai anghenion cyffredinol) er mwyn creu amgylcheddau mwy cynhwysol a chymunedol. Mae Wales and West Housing yn datblygu'r dull hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Ceir cydnabyddiaeth hefyd na ddylai tai gofal ychwanegol fod yr unig ateb; mae angen ystod o opsiynau tai i ddiwallu dewisiadau ac anghenion amrywiol pobl hŷn.

Rhwystrau i symud

- Nododd y grŵp sawl rhwystr allweddol i bobl hŷn symud neu symud i gartref mwy addas:
- Heriau emosiynol ac ymarferol: Mae'r broses o glirio annibendod, pacio a symud yn llethol, yn enwedig i'r rhai sydd wedi byw yn eu cartrefi ers blynnyddoedd lawer. Mae ymlyniad emosiynol wrth gartref y teulu a'r gymuned leol yn gwneud y syniad o symud yn anodd.
- Diffyg opsiynau tai addas: Mae prinder cartrefi deniadol, hygyrch ac o faint priodol (e.e. byngalos neu fflatiau o ansawdd uchel) mewn lleoliadau dymunol. Nid yw llawer o'r opsiynau sydd ar gael yn diwallu dewisiadau pobl hŷn, megis cael digon o le i ymwelwyr neu ardd.
- Diffyg cymorth: Cymorth ymarferol cyfyngedig gyda'r broses symud, gan gynnwys help gyda chwmnïau symud, clirio annibendod ac ymgartrefu mewn cartref newydd. Mae rhai sefydliadau'n cynnig cyfeirio ymlaen neu gymorth ymarferol cyfyngedig, ond nid oes system gymorth gyson na chynhwysfawr.
- Rhwystrau ariannol: Gall costau sy'n gysylltiedig â symud, megis costau cludo, fod yn rhwystr mawr. Ychydig o gymhellion ariannol sydd i bobl hŷn symud i gartref llai, yn enwedig i'r rhai dros oedran pensiwn.
- Materion systemig a pholisi: Efallai na fydd systemau dyrannu'n caniatáu llawer o ddewis, gan arwain at bobl yn cael cynnig cartrefi nad ydynt yn addas i'w hanghenion neu eu dewisiadau. Gall diffyg cydlynw rhwng tai, iechyd a gofal cymdeithasol arwain at golli cyfleoedd i gefnogi pobl i symud ar yr adeg gywir.
- Proffiliau preswylwyr sy'n newid: Gall yr amrywiaeth gynyddol o breswylwyr mewn tai ar gyfer pobl hŷn (gan gynnwys y rhai ag anghenion cymhleth) wneud rhai cynlluniau'n llai deniadol.

Ynglŷn â'r Housing LIN

Mae'r Housing LIN yn rwydwaith datblygedig sy'n dod â mwy na 15,000 o weithwyr proffesiynol ym maes tai, iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ynghyd i arddangos atebion tai arloesol ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. Caiff ei gydnabod gan y llywodraeth a'r sector fel 'lab syniadau' blaenllaw ym maes tai arbenigol/â chymorth. Mae ein gweithgareddau ar-lein a rhanbarthol, ynghyd â'n gwasanaethau ymgynghori, yn:

- cysylltu pobl, syniadau ac adnoddau i lywio a gwella'r ystod o dai sy'n galluogi pobl hŷn ac anabl i fyw'n annibynnol mewn cartref o'u dewis
- darparu mewnwelediad a deallusrwydd am y cyllid, yr ymchwil, y polisi a'r arfer diweddaraf i gefnogi dysgu a gwelliant yn y sector
- arddangos y gorau ym maes tai arbenigol/â chymorth a rhoi sylw i brosiectau a gwasanaethau arloesol sy'n dangos sut mae bywydau pobl wedi'u trawsnewid, ac
- cefnogi comisiynwyr a darparwyr i adolygu eu darpariaeth bresennol a datblygu, profi a chyflwyno atebion fel eu bod yn y sefyllfa orau i ymateb i anghenion a dyheadau newidiol eu cwsmeriaid.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: <https://www.housinglin.org.uk/>

